Swyddfa Ystadegau Gwladol

cyfrifiad 2021

# Ymateb i ymgynghoriad ‘Allbynnau Cyfrifiad 2021: cynigion cynllun cynnwys a chamau datganiadau’ – rhan dau

## Argymhellion ynghylch cwestiynau sy'n canolbwyntio ar gam dau a cham tri o amserlen y prif ddatganiad, ac allbynnau diweddarach.

31 Mawrth 2022

# Cynnwys


**Gwybodaeth gyswllt** 2
- Ymholiadau 2
- Diweddariadau 2
- Sicrhau ansawdd 2
- Cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad 2

**Cyflwyniad** 3
- Cyd-destun yr adroddiad 3
- Cynnwys yr adroddiad hwn 3

**Crynodeb o'r newidiadau i'r cynigion** 5
- Cynhyrchion ystadegol 6
- Y cyfrifiad yn ystod cyfnod o newid 10
- Paradata 11
- Y camau nesaf 12

**Cynhyrchion ystadegol: casgliadau** 13
- Data amlamrywedd 13
- Newidynnau deilliedig newydd arfaethedig 18
- Poblogaethau bach 41
- Seiliau poblogaeth amgen 45
- Data tarddiad-cyrchfan 51
- Microdata 52
- Gwaith dadansoddi 52

**Y cyfrifiad yn ystod cyfnod o newid: casgliadau** 62
- Man preswylio 62
- Y farchnad lafur 64
- Effeithiau ar allbynnau eraill 70
- Anghenion data a ddaw i'r amlwg 70

**Paradata: casgliadau** 74
- Deall ansawdd data 75
- Cyfraddau ymateb 75
- Dull cwblhau 79

**Y camau nesaf** 84

**Atodiadau** 86
- Atodiad A: gwerthuso gofynion defnyddwyr 86
- Atodiad B: tystiolaeth feintiol o'r angen am newidynnau deilliedig newydd arfaethedig 87
- Atodiad C: cynigion cychwynnol ar gyfer setiau data poblogaeth fach 88

# Gwybodaeth gyswllt

## Ymholiadau

**E-bost:** census.outputs@ons.gov.uk

**Ffôn:** +44 (0)1329 444972

**Ffacs:** +44 (0)1633 652981

**Post:** Census 2021 Outputs Consultation, Office for National Statistics, Segensworth Road, Fareham, PO15 5RR

## Diweddariadau

Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn parhau i hyrwyddo gwybodaeth newydd am allbynnau Cyfrifiad 2021 drwy ein bwletinau e-bost, a anfonir drwy wasanaeth GovDelivery.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am allbynnau, cynhyrchion, cynlluniau datganiadau a digwyddiadau Cyfrifiad 2021, cofrestrwch i gael bwletinau am ddim GovDelivery. Gallwch wneud hyn drwy:

- ymweld â gwefan GovDelivery
- rhoi eich cyfeiriad e-bost yn y maes priodol
- dewis yr opsiwn i danysgrifio i allbynnau Cyfrifiad 2021
- pwyso'r botwm cyflwyno ar waelod y dudalen

## Sicrhau ansawdd

Cynhaliodd SYG yr ymgynghoriad hwn yn unol ag egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth.

E-bostiwch ons.consultations@ons.gov.uk os na fyddwch yn fodlon ar y ffordd rydym wedi cynnal yr ymgynghoriad hwn.

## Cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad

Er mwyn bod yn dryloyw, rydym wedi cyhoeddi'r ymatebion wedi'u cymedroli i'r ymgynghoriad hwn. Maent ar gael ar dudalen we'r ymgynghoriad.

Mae ein polisi preifatrwydd hefyd ar gael ar y dudalen we Preifatrwydd .

Os hoffech roi mwy o adborth i ni, anfonwch e-bost at dîm allbynnau a lledaenu Cyfrifiad 2021 yn census.outputs@ons.gov.uk.

# Cyflwyniad

## Cyd-destun yr adroddiad

Hoffem ddiolch i bawb a rannodd eu barn drwy ymateb i'r ymgynghoriad Allbynnau Cyfrifiad 2021: cynigion cynllun cynnwys a chamau datganiadau (pdf, 1MB), ar gyfer Cymru a Lloegr.

Roedd ein cynigion ar gyfer cynigion cynllun cynnwys a chamau datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021 yn seiliedig ar adborth defnyddwyr o ymgynghoriadau blaenorol a thrafodaethau parhaus â rhanddeiliaid. Rydym yn ffyddiog y bydd y newidiadau rydym yn eu gwneud i'n cynigion cynllun cynnwys, a drafodir yn yr adroddiad hwn, yn ein helpu i ddiwallu ystod ehangach o anghenion defnyddwyr.

Ym mis Rhagfyr 2021, gwnaethom gyhoeddi rhan un o'n hymateb i'r ymgynghoriad (pdf, 625KB). Ynddo, gwnaethom amlinellu newidiadau a gynlluniwyd i gynigion cam un o amserlen datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021. Roedd y cynigion hyn yn cynnwys:

- gwybodaeth am ardaloedd daearyddol y cyfrifiad
- manylebau ar gyfer y cynhyrchion proffil ardal a chrynodeb pwnc unamryweb yn bennaf
- y data unamryweb rydym yn bwriadu eu cynhyrchu o gwestiynau newydd Cyfrifiad 2021
- dosbarthiadau newydd neu ddiwygiedig ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2021

Gwnaethom hefyd ddarparu gwybodaeth am y ffordd rydym wedi gwerthuso adborth yr ymatebwyr er mwyn nodi anghenion data newydd. Yn Atodiad A: gwerthuso gofynion defnyddwyr i'r adroddiad hwn, trafodwn sut rydym yn gwerthuso adborth sy'n ymwneud â chynhyrchion gwahanol neu ryngddibynnol ar draws adrannau gwahanol o'r ymgynghoriad.

## Cynnwys yr adroddiad hwn

Yn yr adroddiad hwn, canolbwyntiwn ar adborth defnyddwyr ar ddyluniad cynhyrchion Cyfrifiad 2021 ar gamau dau, tri a thu hwnt i 2023 o amserlen datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021. Rhown wybodaeth am y newidiadau i'n cynigion cynnyrch rydym yn eu hystyried neu yn eu gweithredu. Hefyd rhown ddisgrifiadau o ofynion yr ymatebwyr.

Mae llawer o'r cynhyrchion rydym yn eu trafod yn yr ymateb hwn yn ymwneud â gwahanol gamau ar yr amserlen datganiadau. Felly, rydym wedi strwythuro'r ddogfen hon yn ôl y math o gynnyrch.

Yn gyntaf, trafodwn gynhyrchion ystadegol sy'n darparu gwybodaeth am nodweddion poblogaeth a thai Cymru a Lloegr.

Yna, trafodwn i ba raddau y mae anghenion data wedi newid o ganlyniad i'r cyfnod hwn o newid cymdeithasol ac economaidd sylweddol.

Yn olaf, trafodwn anghenion yr ymatebwyr o ran paradata. Mae paradata yn cyfeirio at wybodaeth am y ffordd y gwnaethom gasglu a phrosesu data Cyfrifiad 2021.

## Crynodeb o'r newidiadau i'r cynigion

Yn yr adran hon, crynhown y cynigion o'r ymgynghoriad rydym yn eu newid neu'n ystyried eu newid. Mae'r newidiadau hyn yn seiliedig ar ein casgliadau o'r adborth a roddwyd gan ymatebwyr yn yr ymgynghoriad. Maent yn canolbwyntio ar gamau dau ymlaen o amserlen datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021.

Rydym wedi trafod y dystiolaeth sy'n sail i bob cynnig ar gyfer newid yn yr adrannau o'r ddogfen ar:

- Cynhyrchion ystadegol: casgliadau
- Y cyfrifiad yn ystod cyfnod o newid: casgliadau
- Paradata: casgliadau

Nid ar yr ymgynghoriad hwn yn unig rydym wedi seilio ein penderfyniadau terfynol ar ddyluniad allbynnau Cyfrifiad 2021. Lle mae'r ymatebwyr wedi nodi angen gwirioneddol am wybodaeth ychwanegol, rydym yn asesu'r angen hwn. Yn ein hymchwiliad, gwnawn bennu a yw'n briodol neu'n ymarferol i gyhoeddi'r wybodaeth hon fel rhan o allbynnau Cyfrifiad 2021. Rydym yn ystyried ffactorau megis ansawdd data a rheoli datgelu ystadegol. Os bydd ein hasesiadau dichonoldeb yn dangos y bydd y cynnyrch data wedi'i ddiwygio yn bodloni ein gofynion o ran ansawdd data a chyfrinachedd, gwnawn geisio gwneud y newidiadau. I'r gwrthwyneb, mae llawer o anghenion defnyddwyr roeddem yn ymwybodol ohonynt cyn yr ymgynghoriad, felly nid oedd angen rhagor o dystiolaeth arnom i'w cynnwys yn ein cynlluniau.

Wrth inni orffen llunio ein cynlluniau drwy gydol 2022, byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion ar y tudalennau gwe ar gyfer cynlluniau datganiadau. Bydd y rhain yn cadarnhau pa rai o'r cynigion a drafodwyd fydd yn cael eu datblygu.

Yn dilyn cam tri o'n hamserlen datganiadau, byddwn yn cynnal arolwg defnyddwyr. Bydd hyn yn ein galluogi i asesu a oes unrhyw anghenion data newydd neu anghenion data sy'n bodoli eisoes nad ydym wedi eu diwallu'n ddigonol. Yn yr arolwg hwn, gofynnwn i ddefnyddwyr a yw cynhyrchion y cyfrifiad wedi diwallu eu hanghenion ac, yn bwysicach, gallwn ddysgu lle nad ydynt wedi gwneud hynny efallai. Bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn ein helpu i benderfynu a oes angen inni gynhyrchu allbynnau ychwanegol, er enghraifft, ar boblogaethau bach, neu wybodaeth ategol ychwanegol.

# Cynhyrchion ystadegol

## Data amlamrywedd

### Setiau data parod

Ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd, byddwn yn blaenoriaethu setiau data sy'n cynnwys newidynnau sy'n galluogi ymchwilio i gydraddoldeb canlyniadau bywyd. Anelwn at gyhoeddi'r setiau data hyn ar gyfer yr ardaloedd daearyddol lleiaf posibl wrth leihau'r risgiau datgelu ystadegol cymaint â phosibl.

Byddwn yn ystyried ymarferoldeb cynhyrchu ystod ehangach o setiau data parod ar y canlynol:

- blwyddyn cyrraedd y DU a phasbortau
- sgiliau Cymraeg
- cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd

### Creu eich setiau data eich hun

Rydym hefyd wedi ei gwneud yn bosibl i ddefnyddwyr greu eu setiau data eu hunain, drwy ychwanegu neu ddileu newidynnau, cyn edrych ar y set ddata neu ei lawrlwytho. Fel rhan o hyn, anelwn at gynnwys y dadansoddiadau manylaf o bob newidyn. Fodd bynnag, hwyrach mai dim ond cael gwybodaeth o rai o'r newidynnau manylaf ar lefel ddaearyddol uwch y gall defnyddwyr ei wneud.

Ar gyfer creu eich setiau data eich hun, byddwn yn:

- ychwanegu newidynnau, gan gynnwys maint a deiliadaeth cartrefi, at sail boblogaeth 'preswylwyr arferol yn y cartrefi'
- cynnwys newidynnau ar gyfer statws cyn-filwr lluoedd arfog y DU a statws cyn-filwr person cyswllt y cartref
- ymchwilio i ba mor ymarferol yw hi i ddarparu dosbarthiad ychwanegol o'r pellter a gaiff ei deithio i'r gwaith, gan ganolbwyntio ar bellteroedd teithio llesol

## Newidynnau deilliedig newydd arfaethedig

Anelwn at ryddhau data ar y newidynnau deilliedig arfaethedig ar gam tri o'r amserlen datganiadau lle:

- mae digon o angen ymhlith defnyddwyr
- mae ein gwaith dichonoldeb yn dangos y bydd y data o ansawdd digonol
- mae'r newidyn ond yn gofyn am wybodaeth y gwnaethom ei chasglu ar gyfer Cyfrifiad 2021

Anelwn at ryddhau newidynnau mwy cymhleth yn ddiweddarach yn yr amserlen datganiadau.

## Addysg a chyflogaeth

Byddwn yn cynhyrchu newidynnau sy'n nodi'r boblogaeth myfyrwyr amser llawn. Byddwn yn sicrhau bod modd i ddefnyddwyr gategoreiddio myfyrwyr amser llawn yn ôl grŵp oedran cyffredinol a math o gartref.

Byddwn yn parhau i asesu pa mor ymarferol yw hi i wneud y canlynol:

- datblygu newidyn ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ar gyfer y sail boblogaeth preswylwyr arferol
- datblygu dosbarthiad o newidyn galwedigaeth gweithiwr allweddol neu hanfodol, sy'n gyson â diffiniad llywodraeth y DU ac yn golygu bod y dosbarthiad mor ddefnyddiol â phosibl
- cynhyrchu newidyn sgiliau nad ydynt yn cyfateb a chynhyrchion dadansoddi ar y pwnc hwn
- cynhyrchu dosbarthiad ar gyfer y newidyn diwydiant ar y risg economaidd a grëwyd gan bandemig y coronafeirws (COVID-19)
- cynhyrchu dosbarthiadau diwydiant a fyddai'n ei gwneud hi'n hawdd nodi gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) a diwydiannau gwyrdd

Mae'n annhebygol y gwnawn ni gynhyrchu newidyn ar y boblogaeth sydd i ffwrdd o'r gwaith dros dro gan ddefnyddio'r ymatebion i ffurflen Cyfrifiad 2021.

Ni fyddwn yn:

- cynhyrchu unrhyw newidynnau ar gyfer y llwybr i'r lefel uchaf o addysg
- cynhyrchu newidyn ar gost carbon teithio i'r gwaith

## Iechyd a threfniadau byw

Byddwn yn asesu pa mor ymarferol yw hi i wneud y canlynol:

- datblygu newidyn ar dai amlfeddiannaeth yn unol â diffiniad y llywodraeth, er mwyn nodi tai amlfeddiannaeth bach a mawr ar wahân
- datblygu newidyn ar gartrefi â sawl cenhedlaeth, ar gyfer y seiliau poblogaeth preswylwyr arferol a chartrefi
- cyfuno data Cyfrifiad 2021 â ffynonellau data iechyd, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o effaith pandemig y coronafeirws ar boblogaethau gwahanol

Ni fyddwn yn cynhyrchu newidynnau yn deillio o ddata a gasglwyd gennym yng Nghyfrifiad 2021, ar gyfer:

- risg iechyd COVID-19
- pobl sy'n byw ar wahân gyda'i gilydd

## Math o gartref a chyfeiriadau gwag

Byddwn yn cynhyrchu dosbarthiad ychwanegol ar gyfer math o gartref â'r categorïau:

- tŷ neu fyngalo cyfan

- fflat neu maisonette
- carafán neu fath arall o gartref symudol neu dros dro

Byddwn yn cynhyrchu dosbarthiadau llai ychwanegol ar gyfer math o sefydliad cymunedol sy'n rhoi manylion ynghylch y math o:

- lety dros dro neu wrth deithio
- sefydliad meddygol neu ofal

Byddwn yn parhau i asesu pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu data ar y rheswm posibl y mae eiddo yn wag. Os cynhyrchwn y wybodaeth hon, byddai ar ffurf papur methodolegol.

Mae'n annhebygol y byddwn yn cynhyrchu newidyn yn cynnwys gwybodaeth o'r opsiwn ymateb “Pobl sy’n aros yma dros dro, sy’n byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer, ond sydd heb gyfeiriad arall yn y Deyrnas Unedig, er enghraifft, perthnasau, ffrindiau”. Oherwydd yr angen cryf am wybodaeth am y boblogaeth hon, rydym yn parhau i asesu a oes unrhyw opsiynau amgen i ddarparu gwybodaeth am y boblogaeth hon.

Ni fyddwn yn cynhyrchu newidyn ar fath o gartref symudol neu dros dro yn deillio o ddata gweithredol rydym yn eu casglu yng Nghyfrifiad 2021.

## Poblogaethau bach

Byddwn yn parhau â'n cynnig i gynhyrchu cyfres o setiau data poblogaeth bach ar gyfer Cyfrifiad 2021 yn debyg i'r rhai y gwnaethom eu cynhyrchu ar gyfer Cyfrifiad 2011.

Byddwn yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i ychwanegu set ddata ar brif iaith ar gyfer pob poblogaeth fach lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol. Hefyd byddwn yn edrych i weld a allwn gynhyrchu unrhyw rai o'r setiau data ar gyfer wardiau neu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is.

Byddwn yn ystyried yr angen i gynhyrchu set o setiau data poblogaeth fach lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol, yn ychwanegol at y rhai a gynigir yn Atodiad C: cynigion cychwynnol ar gyfer setiau data poblogaeth fach. Byddai'r rhain ar gyfer:

- prif iaith Iaith Arwyddion Prydain
- gwlad enedigol Rwmania
- grŵp ethnig Somalaidd
- grŵp ethnig Cypraidd Twrcaidd

Byddwn yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu setiau data ychwanegol ar lefel awdurdod lleol yn dangos bandiau oedran pum mlynedd yn ôl rhyw ar y canlynol:

- grŵp ethnig Caribïaidd
- Tsieina fel gwlad enedigol
- hunaniaeth Iddewig, gyda'r newidynnau diffiniol i'w pennu

- grŵp ethnig Pashtun
- grŵp ethnig Dyn Sioe

Byddwn yn gweithio gyda defnyddwyr data i ddeall sut maent am inni ddiffinio'r grwpiau hyn.

## Seiliau poblogaeth amgen

Byddwn yn cynhyrchu allbynnau ar y pum sail boblogaeth amgen a amlinellwyd gennym yn ein cynigion. Ni fwriadwn gynhyrchu unrhyw seiliau poblogaeth amgen eraill.

### Y gweithle a'r diwrnod gwaith

Wrth lunio ein cynlluniau terfynol ar gyfer setiau data poblogaeth y gweithle a'r diwrnod gwaith, byddwn yn blaenoriaethu edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu setiau data unamryweb ar lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol ar:

- oedran
- lefel uchaf o addysg
- galwedigaeth
- diwydiant
- dull o deithio i'r gwaith
- pellter a gaiff ei deithio i'r gwaith

Byddwn yn asesu pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu unrhyw rai o'r setiau data blaenoriaeth uwch hyn ar gyfer ardaloedd daearyddol lefel is megis Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is a pharthau gweithleoedd.

Byddwn yn asesu pa mor ymarferol yw hi i:

- ehangu'r diffiniad o'r gweithle i gynnwys pobl 75 oed a throsodd
- cynhyrchu setiau data diwrnod gwaith yn debyg i setiau data Cyfrifiad 2011

### Y tu allan i'r tymor

Wrth lunio ein cynlluniau terfynol ar gyfer setiau data poblogaeth y tu allan i'r tymor, byddwn yn blaenoriaethu setiau data unamryweb ar:

- oedran
- rhyw
- grŵp ethnig

### Ail gyfeiriad

Mae'r boblogaeth ail gyfeiriad yn edrych ar nodweddion y boblogaeth ag ail gyfeiriad, gan gynnwys nodweddion yr ail gyfeiriad ei hun. Wrth gynhyrchu setiau data ar nodweddion y boblogaeth ag ail gyfeiriad, fe'u cyfrifwn yn lleoliad eu hail gyfeiriad yn hytrach nag yn y cyfeiriad lle maent yn preswylio fel arfer. Wrth lunio ein cynlluniau

terfynol ar gyfer setiau data sail boblogaeth ail gartrefi, byddwn yn blaenoriaethu setiau data unamryweb ar:

- oedran
- statws cyflogaeth
- man preswylio arferol

Byddwn hefyd yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu setiau data a fyddai'n galluogi dadansoddiad manylach o'r cartrefi a nodwyd yn ail gyfeiriad ar gyfer un neu ragor o blant dibynnol.

Byddwn yn asesu a allwn gynhyrchu unrhyw rai o'r setiau data hyn i lefel is o ddaearyddiaeth megis Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is.

### Sail boblogaeth preswylwyr byrdymor nas ganwyd yn y DU

Anelwn at ryddhau setiau data lefel ranbarthol yn gynt, ar gam dau yn hytrach nag ar gam tri.

## Gwaith dadansoddi

Byddwn yn:

- archwilio potensial cyfuno data Cyfrifiad 2021 â setiau data gweinyddol ychwanegol, er enghraifft rhai am boblogaeth Cymru
- sicrhau bod ein cynlluniau yn cynnwys gwaith dadansoddi yn edrych ar draws pynciau ar effaith newidiadau mawr megis Brexit a phandemig y coronafeirws
- ystyried pa bynciau a fyddai'n cael budd o ddadansoddi'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol
- ystyried ymgorffori gwaith dadansoddi yn ôl grŵp ethnig, grŵp crefyddol, ac iechyd ac anabledd, mewn ystod ehangach o gynhyrchion dadansoddi

Byddwn yn dadansoddi poblogaeth cyn-filwyr lluoedd arfog y DU yn ôl iechyd ac anabledd yn gynt, o gam tri i gam dau.

Byddwn yn ystyried sut i drafod y canlynol yn y rhaglen ddadansoddi:

- dosbarthiad cartrefi gwyliau, gan gynnwys y rhai mewn cymunedau Cymraeg
- nifer y plant sy'n byw gyda chyplau o'r un rhyw
- cartrefi a nodwyd yn ail gyfeiriad ar gyfer un neu ragor o blant dibynnol
- mudo o wledydd lle ceir gwrthdaro, yn amodol ar reoli datgelu ystadegol
- hyfedredd Saesneg a phrif iaith y boblogaeth cartrefi gofal

# Y cyfrifiad yn ystod cyfnod o newid

Ar hyn o bryd, rydym mewn cyfnod o newid economaidd a chymdeithasol mawr. Nid dim ond pandemig y coronafeirws sy'n gyfrifol am y newid hwn; mae ffactorau eraill megis Brexit yn gyfrifol hefyd.

Byddwn yn:

- darparu ystadegau mwy rheolaidd a manwl gan ddefnyddio ffynonellau data gweinyddol er mwyn creu darlun cywir parhaus o'r boblogaeth yn y blynyddoedd i ddod
- monitro newidiadau parhaus ers Diwrnod y Cyfrifiad gan ddefnyddio ffynonellau newydd o ddata, gan gynnwys data ffonau symudol cyfunol, i ddeall newidiadau mewn patrymau teithio i'r gwaith

Byddwn yn parhau i weithio i ddeall a allwn ddefnyddio ffynonellau data gweinyddol i ddarparu gwell gwybodaeth am y boblogaeth sydd i ffwrdd o'r gwaith dros dro. Mae'r prosiect hwn yn un tymor hwy a byddai'n gorffen ar ôl diwedd y brif amserlen datganiadau.

Byddwn yn ehangu ein gwaith gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r defnydd o ddaearyddiaeth yr ardal marchnad rentu eang. Os bydd angen, byddwn yn asesu pa mor ymarferol yw hi i ddarparu gwasanaeth edrych rhwng ardal gynnyrch ac ardal marchnad rentu eang.

## Paradata

Mae paradata yn cyfeirio at wybodaeth am y ffordd y gwnaethom gasglu a phrosesu data Cyfrifiad 2021.

### Cyfraddau ymateb

Byddwn yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu cyfraddau ymateb cartrefi a phreswylwyr arferol unigol ar lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is.

Ar gyfer cartrefi, byddwn yn ymchwilio i gynhyrchu cyfraddau ymateb lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is yn ôl:

- math o gartref
- maint y cartref
- deiliadaeth y cartref
- dull ymateb

Ar gyfer preswylwyr arferol unigol, byddwn yn ymchwilio i gynhyrchu cyfraddau ymateb lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is ar nodweddion gwarchodedig, megis:

- oedran
- grŵp ethnig
- crefydd
- rhyw

### Dull cwblhau

Byddwn yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu gwybodaeth am ddull cwblhau yn ôl person cyswllt y cartref, ar lefel awdurdod lleol.

Ar gyfer dull cwblhau, byddwn yn blaenoriaethu gwybodaeth am:

- oedran
- anabledd
- grŵp ethnig
- lefel uchaf o addysg
- rhyw

Byddwn yn cynnwys y sgôr mynegai anodd eu cyfrif ddigidol a'r prif ddull cwblhau a neilltuwyd i'r cyfeiriad yn y setiau data hyn.

Yn Lloegr, gallai'r ymatebwyr gwblhau Cyfrifiad 2021 yn Saesneg. Yng Nghymru, gallai'r ymatebwyr gwblhau Cyfrifiad 2021 yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni wnaethom gynhyrchu ffurflenni mewn unrhyw iaith arall. Byddwn yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu gwybodaeth am iaith gwblhau yng Nghymru yn ôl person cyswllt y cartref, ar lefel awdurdod lleol.

Ar gyfer iaith gwblhau yng Nghymru, byddwn yn blaenoriaethu gwybodaeth am:

- oedran
- rhyw
- lefel uchaf o addysg
- y gallu i siarad Cymraeg

Bwriadwn gynhyrchu rhagor o wybodaeth am ddarparu gwasanaethau Cymraeg mewn erthygl werthuso ar gynnal Cyfrifiad 2021 yng Nghymru.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiadau methodolegol a fydd yn egluro wrth ddefnyddwyr sut y gallant ddefnyddio'r wybodaeth.

## Y camau nesaf

Byddwn yn dechrau cyhoeddi ein cynigion manwl wedi'u diweddaru erbyn dechrau haf 2022. Rydym wedi darparu rhagor o fanylion am ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn yr adran Y camau nesaf.

# Cynhyrchion ystadegol: casgliadau

## Data amlamrywedd

Gwnaethom gyflwyno cynigion manwl yn yr ymgynghoriad ar gyfer y ffordd roeddem yn bwriadu cyhoeddi data amlamrywedd ar boblogaeth breswyl arferol Cymru a Lloegr. Bydd hyn yn digwydd ar gam dau o'r amserlen datganiadau. Mae'r cynigion hyn yn y daenlen 'Draft proposals for outputs data content' a geir yn yr adran "Related" ar waelod tudalen we ymgynghoriad allbynnau Cyfrifiad 2021. Gwnaethom gynnig cynhyrchu'r setiau data amlamryweb hyn i lefel Ardal Gynnyrch gan ddefnyddio'r dull ffit orau. Ni fydd y setiau data hyn yn cynnwys cyfansymiau nac is-gyfansymiau.

Gall defnyddwyr gael gafael ar ddau fath o set ddata amlamryweb. Y cyntaf yw setiau data parod y gall defnyddwyr eu gweld a'u lawrlwytho. Yr ail yw setiau data y gall defnyddwyr eu creu eu hunain, drwy ychwanegu neu ddileu newidynnau, neu eu creu o'r newydd, cyn edrych ar y set ddata neu ei lawrlwytho. Bydd yr adnodd newydd hwn yn rhoi hyblygrwydd i ddefnyddwyr mewn dwy brif ffordd. Gall defnyddwyr gael gafael ar y canlynol:

- data sy'n diwallu eu hanghenion yn fwy uniongyrchol
- mwy o fanylion nag oedd yn bosibl yn 2011

O'r 229 o ymatebwyr a nododd a fyddent yn defnyddio'r adnodd sy'n galluogi defnyddwyr i greu eu setiau data eu hunain, dywedodd 93% y byddent yn gwneud hynny. Rhoddodd yr ymatebwyr a ddywedodd na fyddent yn defnyddio'r adnodd hwn ddau reswm.

Roedd rhai o'r farn y byddai setiau data sy'n bodoli eisoes yn diwallu eu hanghenion. Roedd eraill yn poeni na fyddai ganddynt y sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio'r adnodd yn gywir. Byddwn yn sicrhau bod yr adnodd sy'n galluogi defnyddwyr i greu eu setiau data eu hunain ar gael i'r cyhoedd ac wedi'i ddylunio i gyrraedd safonau hygyrchedd digidol y llywodraeth. Byddwn yn darparu cymorth i ddefnyddwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar ddata Cyfrifiad 2021 yn hawdd.

Er enghraifft, byddwn yn darparu data mewn fformatau priodol â metadata ategol. Fel rhan o'r wybodaeth ategol, byddwn yn darparu peth gwybodaeth am sut y cafwyd y newidynnau, pan ryddhawn ddata ohonynt.

### Manylebau setiau data

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddai ein cynigion ar gyfer setiau data parod a setiau data creu eich hun yn diwallu eu hanghenion. O'r 229 o ymatebwyr a nododd a oedd y cynigion ar gyfer setiau data parod yn diwallu eu hanghenion:

- nododd 65% eu bod yn diwallu eu hanghenion yn llawn

- nododd 30% eu bod yn diwallu eu hanghenion yn rhannol
- nododd 5% nad oeddent yn diwallu eu hanghenion

O'r 224 o ymatebwyr a nododd a oedd y cynigion ar gyfer setiau data creu eich hun yn diwallu eu hanghenion:

- nododd 66% eu bod yn diwallu eu hanghenion yn llawn
- nododd 29% eu bod yn diwallu eu hanghenion yn rhannol
- nododd 5% nad oeddent yn diwallu eu hanghenion

Ar gyfer y ddau gwestiwn, nododd 74% o'r ymatebwyr fod o leiaf un math o set ddata yn diwallu eu hanghenion yn llawn.

Trafododd yr ymatebwyr pam roedd y setiau data ond yn diwallu eu hanghenion yn rhannol neu ddim yn eu diwallu o gwbl. Aed i'r afael â rhai ohonynt yn y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad: rhan un (pdf, 625KB). Er enghraifft:

- llai o ddosbarthiadau oedran
- nodi gwledydd yr UE a gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE ar wahân yn y dosbarthiadau ar gyfer gwlad enedigol a phasbortau
- darparu amcangyfrifon o'r boblogaeth a all siarad Cymraeg

## Setiau data parod

Ar gyfer y sail boblogaeth preswylwyr arferol, fel rheol byddwn yn cynllunio darparu'r setiau data parod ar gyfer pob ardal gynnyrch. Ar gyfer seiliau poblogaeth preswylwyr arferol mewn cartrefi a phreswylwyr arferol mewn sefydliadau cymunedol, fel rheol byddwn yn cynllunio darparu'r setiau data parod ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol.

Gofynnodd yr ymatebwyr am sawl set ddata ychwanegol. Os ategwyd cais gan ddisgrifiad o'r rheswm pam mae ei hangen, rydym wedi ei drafod yn yr adrannau canlynol. Hefyd, gall defnyddwyr wneud y mwyafrif o'r setiau data parod ychwanegol y gofynnwyd amdanynt drwy'r adnodd creu eich setiau data eich hun.

### Mudo

Roedd ein cynnig ar gyfer setiau data mudo ond yn cynnwys un set ddata ar flwyddyn cyrraedd y DU, a nifer bach o setiau data ar basbortau. Yn eu hadborth, gofynnodd yr ymatebwyr am setiau data ychwanegol ar fudo er mwyn meithrin dealltwriaeth o gydlyniant cymunedol ac anghenion darparu gwasanaethau. Er enghraifft, nododd unigolyn a oedd yn ymateb mewn rhinwedd broffesiynol:

> “Bydd y math o nodweddion cyfrifiad sydd gan fudwr yn dibynnu ar yr adeg y gwnaeth gyrraedd y wlad. Hefyd, yn y pen draw, bydd gan y mwyafrif o fudwyr sy'n aros yn y DU nodweddion tebyg i bobl nad ydynt yn fudwyr - ond mae nodi'r

> rhai lle nad yw hynny'n wir yn agwedd bwysig ar wahaniaethu. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chwestiynau'r cyfrifiad ar ethnigrwydd, crefydd, hunaniaeth genedlaethol, gwlad enedigol, iaith ac ati."

Mewn ymateb, gwnawn ystyried ymarferoldeb cynhyrchu ystod ehangach o setiau data ar gyfer blwyddyn cyrraedd y DU a phasbortau.

### Sgiliau Cymraeg

Gofynnodd yr ymatebwyr a oedd yn cynrychioli cymunedau Cymraeg am setiau data ychwanegol ar sgiliau Cymraeg. Byddent yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth werthuso effaith polisïau yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir y Fflint:

> "Bydd y data hyn yn helpu i lywio strategaethau hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a lle i dargedu ymyriadau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Hefyd bu ychydig o drafod yn genedlaethol y gallai'r gofyniad i siarad Cymraeg mewn rhai sefydliadau wahaniaethu'n anuniongyrchol os yw rhai grwpiau yn llai tebygol o allu bodloni'r gofynion. Bydd data'r cyfrifiad yn helpu i ymchwilio i hyn."

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried ymarferoldeb cynhyrchu ystod ehangach o setiau data ar sgiliau Cymraeg. Byddwn yn ystyried a allwn ddarparu'r newidynnau hyn yn yr adnodd i ddefnyddwyr greu eu setiau data eu hunain.

### Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd

Gofynnodd yr ymatebwyr am setiau data ychwanegol yn cynnwys newidynnau cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd. Byddent yn eu defnyddio i feithrin dealltwriaeth o'r poblogaethau hyn at ddibenion datblygu polisi a monitro amrywiaeth. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Dinas Salford:

> "Mae cryn alw ymhlith gwasanaethau llywodraeth leol i ddeall gwahaniaethau ar gyfer newidynnau amrywiol yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig megis oedran, rhywedd, ethnigrwydd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd. Dylai hyn fod yn bwyslais penodol ar gyfer y tablau data amlamryweb."

Ar hyn o bryd nid yw'n debygol y gwnawn gynnwys y newidynnau hyn yn yr adnodd i ddefnyddwyr greu eu setiau data eu hunain. Mae'r dybiaeth hon yn cynyddu'r angen am y setiau data hyn.

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried ymarferoldeb cynhyrchu ystod ehangach o setiau data parod yn cynnwys y newidynnau cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd. Byddwn yn blaenoriaethu setiau data sy'n cynnwys newidynnau y gallwn eu defnyddio i fesur cydraddoldeb canlyniadau bywyd, er enghraifft, ar iechyd, tai, addysg a chyflogaeth.

Anelwn at gyhoeddi'r rhain ar gyfer yr ardaloedd daearyddol lleiaf posibl gan barhau â risg isel o ddatgelu ystadegol. Disgwyliwn mai lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol fyddai hyn. Fodd bynnag, gallwn ddefnyddio naill ai ardaloedd daearyddol mwy neu ardaloedd daearyddol llai yn dibynnu ar gyfansoddiad set ddata.

## Creu eich setiau data eich hun

Gofynnodd yr ymatebwyr inni ychwanegu sawl newidyn neu ddosbarthiad amrywiol at y cynigion ar gyfer setiau data y gall defnyddwyr eu creu eu hunain. Yn yr adrannau canlynol, rydym wedi trafod y ceisiadau y gwnaeth ymatebwyr eu hategu â disgrifiadau o'r rhesymau pam mae angen y wybodaeth ychwanegol.

### Dosbarthiadau manylach

Gofynnodd yr ymatebwyr am ddosbarthiadau manylach ar gyfer y mwyafrif o newidynnau, lle nad oeddem wedi cynnwys y dosbarthiad mwyaf manwl yn y cynnig. Y dosbarthiadau diwylliannol-gymdeithasol oedd y rhain yn bennaf, er enghraifft, grŵp ethnig a chrefydd, ond roeddent hefyd yn cynnwys dosbarthiadau eraill, megis darparu gofal di-dâl.

Nododd yr ymatebwyr y byddai hyn yn gyffredinol yn helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o is-grwpiau penodol o fewn y boblogaeth. Gallent hefyd ddefnyddio hyn i dargedu polisïau a darpariaeth gwasanaethau. Er enghraifft, eglurodd Cyngor Dinas Bryste sut mae wedi defnyddio ystadegau manwl 2011, a sut y gallai ddefnyddio hyn eto:

> “Mae ystadegau manwl ar Wlad Enedigol ar gyfer ALl Bryste yn galluogi ein hymchwil grŵp Pobl ar Wasgar i feithrin gwell dealltwriaeth o aelodau'r grŵp hwnnw, ynghyd â meithrin gwell dealltwriaeth o dreftadaeth pobl, a sicrhau y dangosir mwy o barch tuag ato ac y rhoddir mwy o werth arno, a helpu i gefnogi twf cynhwysol (masnach a buddsoddi), a chysylltiadau addysgol a diwylliannol drwy ein cysylltiadau rhyngwladol, yn enwedig lle mae gennym gymunedau mwy o faint neu sy'n tyfu yn y ddinas megis o Somalia a Nigeria.
>
> Ystadegau manwl ar Wlad Enedigol â Dinasyddiaeth yr UE wahanol ar gyfer ALl Bryste (ee Somalaidd â dinasyddiaeth Iseldiraidd). Mae'n helpu i nodi'r adnoddau sydd eu hangen fel nad yw'r bobl hyn yn mynd i drafferthion o ran statws o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE [...]. Mae'r cynllun hwnnw wedi cau'n swyddogol erbyn hyn ond rydym yn dal i boeni am y rhai na wnaethant gais a'r rhai y mae angen iddynt ddilyn i fyny statws preswylydd cyn-sefydlog.”

O ran gofal di-dâl, nododd unigolyn a oedd yn ymateb mewn rhinwedd broffesiynol:

> “Byddai'n ddefnyddiol i lunwyr polisi allu cynhyrchu setiau data yn edrych ar nifer yr oriau o ofal di-dâl a ddarperir bob wythnos, wedi'i groes-dablu â newidynnau eraill. Mae nifer yr oriau dan sylw yn benderfynydd allweddol o effeithiau

> negyddol cyffredin darparu gofal di-dâl e.e. gadael swydd neu iechyd gwael. Felly, byddai gweld y gwahaniaeth rhwng gofalwyr ar sail oriau, e.e. mwy na 10 awr yr wythnos neu lai na 10 awr yr wythnos, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y sail dystiolaeth ac yn helpu i ddatblygu polisïau yn y dyfodol."

Mewn ymateb, gwnawn geisio cynnwys y fersiwn mwyaf manwl o'r holl newidynnau yn y setiau data creu eich hun. Fodd bynnag, fel bod risg isel o ddatgelu ystadegol o hyd, hwyrach mai dim ond cael gwybodaeth o rai o'r fersiynau mwyaf manwl o'r newidynnau ar lefel ddaearyddol uwch y bydd defnyddwyr yn gallu ei wneud.

### Newidynnau cartrefi ar gyfer y sail boblogaeth preswylwyr arferol mewn cartrefi

Gofynnodd yr ymatebwyr am gynnwys rhagor o'r newidynnau cartrefi, megis maint a deiliadaeth cartrefi, ar gyfer setiau data ar breswylwyr arferol mewn cartrefi. Byddai hyn yn eu galluogi i ddeall yn well amodau tai yr holl breswylwyr arferol.

Er enghraifft, nododd Cyngor Dinas Bryste:

> "Mae angen ystadegau deiliadaeth arnom ar nifer y bobl yn ogystal â nifer y cartrefi. […] Mae'n bwysig gallu croes-dablu ystadegau cydraddoldebau a nodweddion eraill poblogaethau yn ôl newidynnau tai, ac nid dim ond yn seiliedig ar Berson Cyswllt y Cartref."

Mewn ymateb, byddwn yn ychwanegu rhagor o newidynnau cartrefi ar gyfer y sail boblogaeth preswylwyr arferol mewn cartrefi. Byddwn yn blaenoriaethu cynnwys maint a deiliadaeth cartrefi.

### cyn-filwyr lluoedd arfog y DU

Gofynnodd yr ymatebwyr inni gynnwys yr holl newidynnau arfaethedig ar gyn-filwyr lluoedd arfog y DU o fewn yr adnodd i ddefnyddwyr greu eu setiau data eu hunain. Rydym wedi trafod anghenion manwl yr ymatebwyr am ddata yn rhan un o'n hymateb i'r ymgynghoriad ar allbynnau Cyfrifiad 2021.

Mewn ymateb, byddwn yn cynnwys y newidynnau ar gyfer statws cyn-filwyr lluoedd arfog y DU a statws cyn-filwyr person cyswllt y cartref, o fewn yr adnodd i ddefnyddwyr greu eu setiau data eu hunain.

### Pellter a gaiff ei deithio i'r gwaith

Gofynnodd yr ymatebwyr am ddosbarthiad teithio i'r gwaith sy'n canolbwyntio ar bellteroedd "teithio llesol", megis:

- llai na 2 km
- 2 km i lai na 5 km
- 5 km i lai na 10 km
- 10 km neu fwy

Byddai hyn yn darparu dealltwriaeth fanylach o le gellid gwneud ymyriadau wedi'u targedu er mwyn annog cerdded neu seiclo i'r gwaith. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Hampshire:

> “Mae angen i dablau ar bellteroedd teithio i'r gwaith nodi pellter cerdded rhesymol (<2km) a phellter seiclo rhesymol (<5km). Mae angen nodi pellteroedd posibl ar gyfer Teithio Llesol er mwyn datblygu polisïau trafnidiaeth yn unol â chanllawiau llywodraeth ganolog."

Mewn ymateb, byddwn yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i ddarparu dosbarthiad ychwanegol o'r pellter a gaiff ei deithio i'r gwaith, gan ganolbwyntio ar bellteroedd teithio llesol.

### Blwyddyn ysgol

Gofynnodd yr ymatebwyr inni ddarparu newidyn ar oedran ar 31 Awst 2021, yn ogystal â newidyn ar oedran ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, sef 21 Mawrth 2021. Byddai hyn yn darparu gwybodaeth ddirprwy am flwyddyn ysgol i'w dadansoddi mewn perthynas â darpariaeth addysgol. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Dinas Caergrawnt:

> “Byddai data ar oedrannau plant ac oedolion ifanc ar 31 Awst yn hynod ddefnyddiol, er mwyn bod yn gyson â pholisi addysg, y gyllideb ac amserlenni cynllunio.”

Fodd bynnag, mae ein gwaith dichonoldeb wedi dangos na fyddai data ar flwyddyn ysgol o ansawdd digonol i'w cyhoeddi heb gryn dipyn o brosesu pellach. Pan fydd gwybodaeth am ddyddiad geni ar goll, mae ein proses olygu a phriodoli yn nodi'r oedran fel yr oedd ar Ddiwrnod y Cyfrifiad. Byddai cynhyrchu'r newidyn hwn hefyd yn peri'r risg ychwanegol o ddatgelu ystadegol.

Mewn ymateb, nid ydym yn cynnig creu newidyn ar gyfer blwyddyn ysgol, yn seiliedig ar ddyddiad geni.

## Newidynnau deilliedig newydd arfaethedig

Yn yr adran hon, canolbwyntiwn ar gynigion i gyfuno data sy'n bodoli eisoes, o sawl cwestiwn yn aml, mewn ffyrdd newydd er mwyn diwallu ystod ehangach o anghenion defnyddwyr presennol. Rydym wedi grwpio ein cynigion yn dri maes, sef:

- addysg a chyflogaeth
- iechyd a threfniadau byw
- math o gartref a chyfeiriadau gwag

Ym mhob achos, gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr a fyddent yn defnyddio'r newidyn deilliedig newydd arfaethedig. Rydym wedi crynhoi'r data meintiol o'r cwestiynau hyn yn Atodiad B: tystiolaeth feintiol o'r angen am newidynnau deilliedig newydd arfaethedig.

Gwnaethom hefyd ofyn i'r ymatebwyr flaenoriaethu amrywiaeth o ffactorau sy'n ymwneud â'u hanghenion data ar gyfer y newidyn. Yn gyffredinol, blaenoriaethodd yr ymatebwyr y ffactorau yn y drefn ganlynol:

1. data wedi'u croesdablu â newidynnau eraill
2. data ar gyfer ardaloedd daearyddol llai
3. data sy'n darparu dadansoddiad manylach o'r newidyn newydd arfaethedig
4. data y gellir eu cymharu â chyfrifiadau blaenorol yng Nghymru a Lloegr
5. data y gellir eu cymharu â chyfrifiadau blaenorol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon

Roeddem yn dal i fod ar gamau cynnar datblygu ein cynigion ar gyfer newidynnau deilliedig pan wnaethom gyhoeddi'r ddogfen ymgynghori (PDF, 1MB) ym mis Gorffennaf 2021. Ers hynny, rydym wedi parhau i asesu ymarferoldeb creu pob un. Gwnaethom drafod yr asesiad dichonoldeb ochr yn ochr â'r cynigion perthnasol.

Hefyd dywedodd yr ymatebwyr wrthym y byddai angen gwybodaeth arnynt am ein dulliau terfynol o gael gafael ar unrhyw un o'r newidynnau newydd rydym yn penderfynu eu cynhyrchu. Byddwn yn darparu'r wybodaeth hon ar gyfer yr holl newidynnau a ddefnyddir yng nghynnyrch Cyfrifiad 2021.

Anelwn at ryddhau data ar y newidynnau deilliedig arfaethedig ar gam tri o'r amserlen datganiadau lle:

- mae digon o angen ymhlith defnyddwyr
- mae ein gwaith dichonoldeb yn dangos y bydd y data o ansawdd digonol
- mae'r newidyn ond yn gofyn am wybodaeth y gwnaethom ei chasglu ar gyfer Cyfrifiad 2021

Anelwn at ryddhau newidynnau mwy cymhleth yn ddiweddarach yn yr amserlen datganiadau.

## Addysg a chyflogaeth

Gwnaethom gynnig saith newidyn neu ddosbarthiad newydd ar gyfer addysg a chyflogaeth, sef:

- llwybr i'r lefel uchaf o addysg
- oedolion sy'n fyfyrwyr amser llawn
- unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)
- i ffwrdd o'r gwaith dros dro
- gweithiwr allweddol neu hanfodol
- sgiliau nad ydynt yn cyfateb
- risg economaidd a grëwyd gan bandemig y coronafeirws (COVID-19)

Hefyd, cynigiodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad y canlynol:

- dosbarthiadau ar gyfer diwydiannau gwyrdd a STEM
- newidyn deilliedig ar gyfer cost garbon teithio i'r gwaith

### Llwybr i'r lefel uchaf o addysg

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio newidyn newydd arfaethedig ar y llwybr i'r lefel uchel o addysg. O'r 190 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 62% y byddent yn ei ddefnyddio.

Gwnaethom hefyd ofyn i'r ymatebwyr nodi pa wybodaeth roedd ei hangen arnynt am y llwybr i'r lefel uchaf o addysg. Nododd yr ymatebwyr ddau angen clir y gallem eu diwallu drwy gael gafael ar y mwyafrif o'r wybodaeth roedd ei hangen o gwestiynau cymwysterau Cyfrifiad 2021. Yr anghenion hyn yw:

- a oedd y lefel uchaf o gymhwyster yn academaidd neu'n alwedigaethol
- a oedd gan yr unigolyn gymwysterau academaidd i gyd, cymwysterau galwedigaethol i gyd, cymysgedd o'r ddau fath, neu fath anhysbys o gymhwyster

Hefyd gofynnodd yr ymatebwyr am bethau eraill, ond roedd hyn am wybodaeth na wnaethom ei chasglu yng Nghyfrifiad 2021, megis:

- math o sefydliad addysgol a fynychwyd
- os mewn addysg ran-amser
- pa mor hir yn ôl yr enillwyd cymwysterau

Trafododd yr ymatebwyr yr angen am ddata i lywio strategaethau sgiliau a chynlluniau gwella sgiliau ardaloedd lleol. Er enghraifft, data a fyddai'n galluogi ymchwilio i effaith y llwybr i'r lefel uchaf o addysg ar ganlyniadau cyflogaeth, yn unol â strategaeth ffyniant bro y llywodraeth. Nododd Cyngor Sir Swydd Gaergrawnt:

> “Byddai'r data yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â newidynnau eraill i fesur y galw i ddod am addysg oedolion, gwaith dadansoddi sy'n ategu pennu polisïau sgiliau, cyllidebau addysg oedolion a negodi darpariaeth addysg â darparwyr [...] a'n gwaith ar ragamcanu lleoedd mewn ysgolion, a gyflawnir i gyflawni ein dyletswydd statudol i ddarparu digon o leoedd mewn ysgolion.”

Ni fyddai'r lefel o fanylder a gynigir gan Gyfrifiad 2021 yn diwallu'r anghenion hyn. Casglodd Cyfrifiad 2021 wybodaeth am fathau eang o gymwysterau. Byddai'r gwaith dadansoddi arfaethedig yn gofyn am wybodaeth fanylach am yr union gymwysterau a enillwyd a phryd y cafodd y rhain eu hennill. Byddai hyn, er enghraifft, yn fodd i nodi'r rhai sydd wedi dychwelyd i ddysgu ar ôl cyfnod yn gwneud rhywbeth arall i hyfforddi ar yr un lefel neu lefel is. Gallai hyn ddynodi bod y dysgwr yn ailhyfforddi ar gyfer gyrfa newydd.

Gofynnodd yr ymatebwyr am wybodaeth fanwl am y llwybrau drwy addysg. Byddai hyn yn helpu i ddynodi'r dewisiadau y mae dysgwyr yn eu gwneud ar wahanol gyfnodau o addysg. Mae data gweinyddol gan bob sector yn ffordd well o ddiwallu'r anghenion hyn am wybodaeth fanwl. Er enghraifft:

- data ysgolion ar gyfer Lloegr, a ddelir yng Nghronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion
- data ysgolion ar gyfer Cymru, a ddelir yn y Gronfa Ddata Genedlaethol i Ddisgyblion yng Nghymru
- Data Addysg Bellach ar gyfer Lloegr, a ddelir yn y Cofnod Unigol i Ddysgwyr
- Data Addysg Bellach ar gyfer Cymru, a ddelir yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
- Data Addysg Uwch ar gyfer Cymru a Lloegr, a ddelir yn y Cofnod Myfyrwyr

Fel arall, mae'r set ddata Deilliannau Addysg Hydredol yn cyfuno pob un o'r tri sector o ddata ac yn galluogi defnyddwyr i edrych ar ganlyniadau marchnad lafur a hunangyflogaeth ar gyfer Lloegr.

Mae'r dadansoddiadau sy'n defnyddio'r rhain a ffynonellau cyfoethog eraill o ddata addysg yn cynnwys:

- Alternative routes into and pathways through higher education, yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BEIS), 2009
- Progression pathways 2017: Pathways through higher education, Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a Cholegau, 2017
- Post-16 education and labour market activities, pathways and outcomes, yr Adran Addysg (DfE), 2021
- National pupil projections: July 2021, DfE, 2021 – mae'r DfE hefyd yn rhannu amcanestyniadau ar lefel awdurdod lleol yn uniongyrchol â chynghorau at ddibenion cynllunio

Mewn ymateb, ni wnawn gynhyrchu unrhyw newidynnau ar y llwybr i'r lefel uchaf o addysg.

### Oedolion sy'n fyfyrwyr amser llawn

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio newidyn newydd arfaethedig ar oedolion sy'n fyfyrwyr amser llawn. O'r 189 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 66% y byddent yn ei ddefnyddio.

Gofynnodd rhai ymatebwyr inni rannu'r grŵp hwn yn dri dosbarthiad oedran yn unol â diwedd addysg orfodol ac oedrannau disgwyliedig myfyrwyr, sef:

- 0-17 oed (plentyn ysgol)
- 18-24 oed (myfyriwr)
- 25 oed neu'n hŷn (myfyriwr aeddfed)

Rydym yn ystyried yr adborth hwn wrth inni lunio'r dosbarthiadau oedran terfynol.

Hefyd gofynnodd yr ymatebwyr am wybodaeth ynghylch a oedd cyfeiriad yn ystod y tymor y boblogaeth hon yn:

- sefydliad cymunedol

- cartref gyda'u rhieni
- cartref ar wahân i'w rhieni

Trafododd yr ymatebwyr yr angen am y data hyn er mwyn:

- llywio strategaethau sgiliau a chynlluniau gwella sgiliau ardaloedd lleol
- llywio strategaethau tai ardaloedd lleol, yn enwedig mewn perthynas â myfyrwyr prifysgol
- deall effaith pandemig y coronafeirws (COVID-19)

O ran strategaethau sgiliau, nododd Cyngor Dinas Caergrawnt:

> "I fesur y galw i ddod am addysg oedolion, gwaith dadansoddi sy'n helpu i bennu polisïau addysg, cyllidebau addysg oedolion a negodi darpariaeth addysg â darparwyr."

O ran pandemig y coronafeirws, nododd Bwrdeistref Havering yn Llundain:

> "Mae gennym ddiddordeb mewn dysgu sut mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar addysg oedolion, pobl sy'n dychwelyd i astudio er mwyn eu helpu i newid gyrfa ac ati a sut mae hyn yn wahanol ar draws galwedigaethau a diwydiannau."

Hefyd gofynnodd yr ymatebwyr am wybodaeth na wnaethom ei chasglu yng Nghyfrifiad 2021. Roedd hyn yn cynnwys y math o sefydliad addysgol a fynychwyd neu a oedd unigolyn mewn addysg ran-amser. Mae gwybodaeth am y pynciau hyn ar gael ar dudalennau gwe Higher Education Student Data yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch.

Mewn ymateb, gwnawn gynhyrchu newidynnau sy'n nodi'r boblogaeth myfyrwyr amser llawn. Byddwn yn sicrhau bod modd i ddefnyddwyr gategoreiddio myfyrwyr amser llawn yn ôl grŵp oedran cyffredinol a math o gartref myfyrwyr.

### Unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio newidyn newydd arfaethedig ar breswylwyr arferol 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Ein diffiniad ni o "nad ydynt mewn addysg" yw ddim mewn addysg amser llawn.

O'r 198 o ymatebwyr a nododd a fyddent yn defnyddio newidyn NEET, dywedodd 78% y byddent yn ei ddefnyddio. O blith yr holl newidynnau deilliedig newydd arfaethedig, hwn oedd yr un y byddai'r ymatebwyr yn ei ddefnyddio fwyaf.

Trafododd yr ymatebwyr yr angen am ddata ar gyfer asesiadau cydraddoldeb. Hefyd trafododd yr ymatebwyr o awdurdodau lleol ddefnyddio data NEET mewn ystod eang o strategaethau ardaloedd lleol. Mae'r strategaethau hyn yn canolbwyntio ar bynciau megis:

- sgiliau
- tai
- cynhwysiant cymdeithasol
- iechyd
- gwasanaethau ieuenctid
- prentisiaethau

Er enghraifft, nododd Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Knowsley:

> “Mae Cynllun Plant a Theuluoedd 2021-2024 yn amlinellu uchelgais Knowsley i ddefnyddio ymyriadau cynnar a gwaith atal i leihau nifer y bobl ifanc NEET. Byddai defnyddio data'r cyfrifiad i ddeall ymhellach nodweddion pobl ifanc NEET yn helpu i lywio strategaethau a mesurau atal. Byddai cynnyrch ar lefel ddaearyddol fach yn helpu i gymryd ymyriadau mwy penodol ac i wybod ble i ddefnyddio targedau orau.”

Dywedodd yr ymatebwyr o'r sectorau elusennol a gwirfoddol y byddai data NEET yn eu helpu i dargedu eu gwasanaethau. Er enghraifft, nododd Nettlestone & Seaview (Men's) Shed:

> “Byddai'n ddefnyddiol gwybod faint o bobl a allai gael budd o gynllun gwella sgiliau Men in Sheds yn lleol.”

Hefyd nododd Crisis:

> “Byddai data ar y rhai sy'n NEET ac yn ddigartref, neu mewn sefyllfa ansicr o ran tai, ar draws ardaloedd awdurdod lleol gwahanol yn helpu i lywio ein polisi a'r broses o ddarparu gwasanaethau ar gyfer y grwpiau hyn.”

Yn sgil newidiadau mewn deddfwriaeth ynghylch addysg orfodol, nododd yr ymatebwyr ei bod hi'n bwysig gallu gwahaniaethu rhwng y rhai 16-17 oed a'r rhai 18-24 oed.

Mewn ymateb, byddwn yn parhau i asesu pa mor ymarferol yw hi i ddatblygu newidyn NEET ar gyfer y sail boblogaeth preswylwyr arferol.

### I ffwrdd o'r gwaith dros dro

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio newidyn newydd arfaethedig ar y boblogaeth sydd i ffwrdd o'r gwaith dros dro. Gallai hyn wahaniaethu rhwng y rhai sydd “I ffwrdd o'r gwaith dros dro yn sâl, ar wyliau, neu mae'r unigolyn wedi'i gadw o'r gwaith dros dro am na all y cyflogwr gynnig gwaith ar hyn o bryd” neu “Ar gyfnod mamolaeth neu dadolaeth”.

O'r 184 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 61% y byddent yn defnyddio data ar y boblogaeth sydd i ffwrdd o'r gwaith dros dro. Mae'r ganran hon yn isel o gymharu â newidynnau newydd arfaethedig eraill.

Trafododd yr ymatebwyr ddefnyddio data ar y boblogaeth sydd i ffwrdd o'r gwaith dros dro fel llinell sylfaen bwysig ar gyfer y gwaith o adfer o bandemig y coronafeirws (COVID-19). O fewn y grŵp hwn, roedd ganddynt ddiddordeb arbennig yn y boblogaeth ar ffyrlo. Byddent yn defnyddio'r data ar y boblogaeth sydd i ffwrdd o'r gwaith dros dro i edrych ar faterion megis:

- dyled
- bod yn agored i bandemig y coronafeirws
- anghydraddoldebau cynyddol
- tlodi plant

Er enghraifft, nododd Cyngor Dosbarth Swydd Huntingdon:

> "Gall effaith y pandemig neu'r cyfnod clo wyro'r niferoedd mewn gwaith yn sylweddol felly mae'n bwysig iawn gwybod faint o bobl y gwnaeth bod ar ffyrlo neu hunanynysu effeithio arnynt dros dro."

Mewn enghraifft arall, dywedodd Cyngor Sir Gorllewin Sussex:

> "Byddai'n ddefnyddiol gwybod a yw'r bobl a fu ar ffyrlo neu sydd ar ffyrlo yn dychwelyd i'w swyddi cyn COVID – neu a ydynt yn mynd i wahanol swyddi/sectorau. Mae'r farchnad lafur mor gymhleth – felly pam mae prinder cogyddion a staff arlwyo er enghraifft pan fo cynifer wedi cael eu rhoi ar ffyrlo – ai'r rheswm yw eu bod yn mynd i wneud gwahanol fathau o swyddi – e.e. swyddi sy'n talu'n well neu lle nad oes gwaith sifft. Nid oes unrhyw ddata ar ddileu swyddi ar lefel leol – felly byddai rhywbeth sy'n creu darlun lleol yn amhrisiadwy hefyd."

Fodd bynnag, ni allwn nodi'r boblogaeth sydd ar ffyrlo na'r boblogaeth sy'n hunanynysu ar wahân i'r rhai sydd i ffwrdd o'r gwaith yn sâl, ar wyliau neu sydd wedi'u cadw o'r gwaith dros dro am na all y cyflogwr gynnig gwaith ar hyn o bryd. Pan ddechreuodd y pandemig, roeddem eisoes wedi llunio geiriad terfynol y cwestiwn a'r opsiwn ymateb yn neddfwriaeth Cyfrifiad 2021. Ar y ffurflen ar-lein, gwnaethom ychwanegu'r nodyn canlynol ar sut y dylai pobl ateb:

> "Os oes gennych chi swydd ond eich bod wedi bod i ffwrdd o'r gwaith ar ffyrlo, dan gwarantin neu'n hunanynysu, dewiswch 'I ffwrdd o'ch gwaith dros dro yn sâl, ar wyliau, neu wedi'ch cadw dros dro o'ch gwaith am na all eich cyflogwr gynnig gwaith ar hyn o bryd'".

Roedd hyn yn rhan o gyfres o newidiadau i ganllawiau a ddyluniwyd i helpu'r ymatebwyr i ateb y cwestiynau a drafodir yn yr adroddiad Updates to Census 2021 online questionnaire guidance – coronavirus (COVID-19) pandemic impacts.

Hefyd trafododd yr ymatebwyr ddefnyddio data ar y rhai sydd i ffwrdd o'r gwaith ar gyfnod mamolaeth neu dadolaeth, o ran monitro amrywiaeth. Mae hyn am fod

"beichiogrwydd a mamolaeth" yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Fodd bynnag, mae ein gwaith dichonoldeb wedi dangos na fyddai'r data ar y boblogaeth sydd i ffwrdd o'r gwaith dros dro o ansawdd digonol i'w cyhoeddi heb gryn dipyn o brosesu pellach. Mae hyn am nad ydym yn prosesu'r newidynnau "I ffwrdd o'r gwaith dros dro yn sâl, ar wyliau, neu mae'r unigolyn wedi'i gadw o'r gwaith dros dro am na all y cyflogwr gynnig gwaith ar hyn o bryd" neu "Ar gyfnod mamolaeth neu dadolaeth" y tu hwnt i gamau prosesu cynnar. Cyfunwn y wybodaeth hon â newidynnau eraill i greu newidyn gweithgarwch economaidd.

Mewn ymateb, mae'n annhebygol y gwnawn ni gynhyrchu newidyn ar y boblogaeth sydd i ffwrdd o'r gwaith dros dro gan ddefnyddio'r ymatebion i ffurflen Cyfrifiad 2021. Os digwydd hynny, byddwn yn cyhoeddi unrhyw gynnyrch ar y pwnc hwn gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021 ar ôl mis Mawrth 2023. Fodd bynnag, cydnabyddwn yr angen cryf ymhlith defnyddwyr am wybodaeth am y poblogaethau hyn. Trafodwn ein cynlluniau at y dyfodol yn yr adran Y farchnad lafur.

### Gweithiwr allweddol neu hanfodol

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio newidyn newydd arfaethedig ar weithwyr allweddol neu hanfodol. Gelwir y boblogaeth hon yn "weithwyr hanfodol" hefyd. Byddai'r dangosydd arfaethedig hwn yn nodi pobl roedd eu galwedigaeth wedi'i hystyried yn hanfodol i'r ymateb i bandemig y coronafeirws. Byddem yn ei ddiffinio yn unol â diffiniad llywodraeth y DU, fel y'i defnyddir yn ein cyhoeddiadau eraill ar weithwyr hanfodol.

O'r 188 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 68% y byddent yn defnyddio newidyn ar weithwyr allweddol neu hanfodol.

Trafododd yr ymatebwyr ddefnyddio'r data hyn ar gyfer ystod eang o ddibenion. Yn eu plith roedd y canlynol:

- darparu gwasanaethau i weithwyr allweddol, er enghraifft tai a gofal plant
- rhagamcanu marchnad lafur y dyfodol, er mwyn rhagweld prinder mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth gweithwyr allweddol yn agosach at oedran ymddeol
- deall effaith bod yn weithiwr allweddol neu hanfodol ar ganlyniadau iechyd, yn enwedig yn sgil pandemig y coronafeirws
- cynllunio at argyfyngau yn y dyfodol, er enghraifft, pandemig arall neu argyfwng tanwydd
- dangos pwysigrwydd is-grwpiau i'r gymuned er mwyn gwella cydlyniant cymunedol

Er enghraifft, nododd Cyngor Tref Yate:

> “I nodi lle mae pwysau am gyfleusterau gweithwyr allweddol, e.e. gwell gofal plant, ac yn hanfodol i ddeall y ffordd y mae COVID neu'r cyfnod clo yn effeithio ar wahanol is-gymunedau”

Mewn enghraifft arall, nododd Migration Yorkshire:

> “Byddai'n ein helpu ni i nodi cyfraniad mudwyr at y gymuned leol a'r economi, a thrwy hynny gefnogi gwaith cydlyniant cymunedol gyda'r gymuned ehangach. Byddai hefyd yn ein helpu ni i ganolbwyntio ar ymgysylltu â chyflogwyr yn y diwydiannau gweithwyr allweddol hynny, er mwyn darparu cyngor ar y ffordd orau o gefnogi eu cyflogeion o gefndir mudo.”

Gan ychwanegu at yr enghraifft hon, nododd Muslim Census:

> “O waith ymchwil blaenorol, rydym wedi gweld bod cyfran uwch o Fwslimiaid mewn rolau rheng flaen/gweithwyr allweddol. Hoffem weld set ddata fwy yn dangos y wybodaeth hon.”

Ar y cyfan roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r defnydd o ddiffiniad llywodraeth y DU o weithwyr hanfodol neu allweddol. Fodd bynnag, nododd Llywodraeth Cymru fod ei diffiniad ychydig yn wahanol, ac y dylai'r diffiniad rydym ni'n ei ddefnyddio ystyried hyn. Gofynnodd ymatebwyr eraill am i'r dosbarthiad gynnwys is-grwpiau o weithwyr hanfodol ac allweddol er mwyn cynyddu'r defnydd o'r data at yr amrywiaeth o ddibenion dan sylw.

Mewn ymateb, byddwn yn parhau i asesu pa mor ymarferol yw hi i greu dosbarthiad o'r newidyn galwedigaeth ar gyfer gweithwyr allweddol neu hanfodol. Anelwn at unioni'r dosbarthiad â diffiniad llywodraeth y DU o weithwyr allweddol neu hanfodol, ac mewn ffordd sy'n sicrhau bod y dosbarthiad mor ddefnyddiol â phosibl.

### Sgiliau nad ydynt yn cyfateb

Ceir sgiliau nad ydynt yn cyfateb lle mae lefel addysgol unigolyn yn sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r lefel cymhwyster gyfartalog ar gyfer yr alwedigaeth dan sylw.

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio newidyn newydd arfaethedig ar sgiliau nad ydynt yn cyfateb. O'r 183 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 67% y byddent yn ei ddefnyddio.

Hefyd gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn hoffi inni ddiffinio'r newidyn ar sgiliau nad ydynt yn cyfateb neu'r dosbarthiadau ar gyfer y newidyn mewn ffordd benodol. O ran diffiniad ar gyfer newidyn ar sgiliau nad ydynt yn cyfateb, nododd 92% o'r 152 o ymatebwyr nad oedd angen diffiniad penodol arnynt. O ran anghenion dosbarthiad ar gyfer newidyn ar sgiliau nad ydynt yn cyfateb, nododd 90% o'r 162 o ymatebwyr nad oedd angen dosbarthiad penodol arnynt.

Lle gwnaeth yr ymatebwyr ofyn am ddiffiniad neu ddosbarthiad penodol, roedd y rhain yn unol â'n cynigion at ei gilydd. Er enghraifft, nododd Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet:

> “Cynigiwn y dylai'r dosbarthiadau adlewyrchu graddau'r anghyfatebiaeth mewn lefelau addysg, e.e. dim anghyfatebiaeth, lefel +1, lefel +2, +3 neu fwy.”

Trafododd yr ymatebwyr y defnydd o'r data ar sgiliau nad ydynt yn cyfateb i ddatblygu strategaethau ardaloedd lleol. Roedd y rhain yn ymwneud â meysydd megis:

- twf economaidd
- addysg oedolion
- cynllunio cymryd rhan yn y farchnad lafur

Er enghraifft, nododd Cyngor Dinas Birmingham:

> “Byddai [...] yn ein helpu i ddeall yn well y graddau nad yw'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr yn cyfateb i'r sgiliau sydd gan drigolion ac felly byddai'n helpu i lywio gwaith polisi ac ymyriadau er mwyn cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yn y farchnad lafur yn lleol. Byddai hyn hefyd yn hanfodol i bennu ble y dylem fod yn cyfeirio mathau penodol o ddiwydiant neu sefydliadau addysgol yn y dyfodol.”

Dywedodd yr ymatebwyr y byddent yn defnyddio'r wybodaeth i gynghori darparwyr addysg ar sut y gallent addasu eu harlwy ar gyfer darpar fyfyrwyr. Byddai hyn yn eu helpu i gysoni'n well y sgiliau sydd gan weithwyr â'r rhai sydd eu hangen ar gyflogwyr yn y tymor hwy.

Yn olaf, byddai'r ymatebwyr yn defnyddio'r data at ddibenion monitro amrywiaeth a gwerthuso polisïau er mwyn gweld a oes cydberthynas rhwng nodweddion gwarchodedig a sgiliau nad ydynt yn cyfateb. Er enghraifft, mewn perthynas â menywod, nododd Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet:

> “Mae'r adroddiad ymchwil ar fenywod sy'n dychwelyd i'r gweithle yn nodi bod 3 mewn 5 o fenywod o'r fath yn debygol o fod mewn rolau llai medrus na'r rhai a oedd ganddynt cyn iddynt gymryd saib yn eu gyrfa. […] rydym am eu helpu i ddychwelyd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.”

Mewn ymateb, byddwn yn parhau i asesu pa mor ymarferol yw hi i greu newidyn ar sgiliau nad ydynt yn cyfateb a chynhyrchion dadansoddi ar y pwnc hwn.

### Y risg economaidd a grëwyd gan bandemig y coronafeirws (COVID-19)

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio newidyn newydd arfaethedig a fyddai'n nodi poblogaethau sy'n wynebu risg ariannol oherwydd y pandemig ar sail y diwydiant y maent yn gweithio ynddo. O'r 185 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 67% y byddent yn ei ddefnyddio.

Trafododd yr ymatebwyr ddefnyddio'r data i ddeall effaith pandemig y coronafeirws ar yr awdurdod lleol ac mewn adroddiadau ar yr economi leol. Byddent yn defnyddio'r wybodaeth i dargedu cymorth adfer economaidd a monitro amrywiaeth, neu wrth lunio strategaethau uwchsgilio neu ailsgilio. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Dinas Caergrawnt:

> "Byddai'r newidyn hwn yn ddefnyddiol i ddylanwadu ar bolisïau a chynllunio at y galw am wasanaethau yn sgil canlyniadau economaidd y pandemig. Mae hyn yn arbennig o bwysig am fod y rhai sy'n wynebu risg economaidd yn sgil y pandemig yn garfan nad yw wedi'i dadansoddi o'r blaen gan nad oedd yr angen hwn yn bodoli o'r blaen. Byddai'r data hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth ganolbwyntio ar fylchau mewn sgiliau ar gyfer sectorau swyddi na fyddant o bosibl yn adfer cystal o'r pandemig."

Tanlinellodd ymatebwyr eraill yr effaith anghymesur a gafodd y pandemig ar rai diwydiannau. Er enghraifft, nododd Cymdeithas Annibynnol y Dyn Sioe:

> "Mae effaith y pandemig a'r mesurau a gymerwyd i ymateb iddo yn y cyd-destun dan sylw wedi cael effaith ofnadwy ar ddynion a menywod sioe teithiol. Byddai "dangosydd" o'r fath ar gyfer y sector economaidd hwn yn golygu bod modd gwneud gwaith dadansoddi a dderbynnir ac a gydnabyddir yn swyddogol er mwyn nodi'r risgiau i weithgareddau masnachol y gymuned hon."

Mewn ymateb, byddwn yn parhau i asesu pa mor ymarferol yw hi i greu dosbarthiad ar gyfer y newidyn diwydiant ar y risg economaidd a grëwyd gan bandemig y coronafeirws (COVID-19).

### Diwydiannau gwyrdd a STEM

Gofynnodd Cyngor Sir Swydd Hertford am ddau ddosbarthiad diwydiant newydd. Byddai un dosbarthiad yn nodi diwydiannau gwyrdd a byddai'r llall yn nodi diwydiannau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM). Nodwyd:

> "Byddai swyddi mewn diwydiannau gwyrdd yn cyfuno'r swyddi hynny mewn diwydiannau sydd ynghlwm wrth dechnolegau glân. Mae cynllun deg pwynt y llywodraeth ar gyfer y chwyldro diwydiannol gwyrdd yn nodi "By investing in clean technologies – wind, carbon capture, hydrogen and many others – Britain will lead the world into a new Green Industrial Revolution". Byddai'r newidyn hwn yn fodd i ddadansoddi'r gweithlu lleol, yn pennu lefel meincnod, yn codi proffil diwydiannau gwyrdd ac yn annog pobl ifanc i ystyried meithrin y sgiliau angenrheidiol."
>
> "Byddai swyddi mewn diwydiannau STEM yn cyfuno'r swyddi hynny mewn diwydiannau sydd ynghlwm wrth Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg."

Hefyd nodwyd bod y ddau ddiffiniad yn benodol iawn, felly hwyrach na fydd defnyddwyr data sy'n cynhyrchu'r rhain eu hunain yn gwneud hynny mewn modd cywir na chyson.

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried cynhyrchu dosbarthiadau diwydiant a fyddai'n ei gwneud hi'n bosibl nodi diwydiannau STEM a gwyrdd yn hawdd.

### Cost garbon teithio i'r gwaith

Gofynnodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Gymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth Ardaloedd Lleol am newidyn ar gost garbon yn deillio o newidynnau ar deithio i'r gwaith. Nododd:

> “Byddai awdurdodau hefyd yn croesawu'r posibilrwydd o SYG yn cyfrifo newidyn cost garbon ar gludiant teithio i'r gwaith. Byddai hyn o leiaf yn dechrau adlewyrchu pwysigrwydd yr argyfwng hinsawdd, y mae cynghorau yn ceisio mynd i'r afael ag ef.”

Ni wnaeth sefydliadau eraill ofyn am y wybodaeth hon yn benodol, ond mae'n adlewyrchu'r math o ddefnydd data y maent yn ei drafod yn fwy cyffredinol yn ymwneud â data teithio i'r gwaith. Er enghraifft, trafodwn bolisïau cynllunio i leihau allyriadau carbon yn yr adran Teithio i'r gwaith.

Fodd bynnag, ni allwn ddiwallu'r angen am ddata a ddisgrifiwyd gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021. Mae dau reswm dros hyn.

Yn gyntaf, cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 ar adeg pan oedd pandemig y coronafeirws yn effeithio ar batrymau teithio pobl. Er enghraifft, roedd mwy o bobl nag arfer yn gweithio o gartref. Hefyd, gallai pobl a oedd yn parhau i deithio i'w gweithle fod wedi newid eu dewis dull o deithio, er enghraifft, er mwyn osgoi trafnidiaeth gyhoeddus.

Yn ail, dim ond mesur bras iawn y gellid ei lunio gan ddefnyddio'r dull o deithio i'r gwaith a'r pellter y teithiwyd i'r gwaith.

Mae tri phrif fesur ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU. Mae porth ystadegau newid hinsawdd y DU yn darparu rhagor o fanylion am y rhain.

Ar hyn o bryd, mae'r prif fesur allyriadau sydd ar gael ar lefel is-genedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol. Rhydd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wybodaeth am y mesur yn ei herthygl Measuring UK greenhouse gas emissions.

Mewn ymateb, rydym wedi dod i'r casgliad na allwn gynhyrchu newidyn o ansawdd ystadegol digonol ar gost garbon teithio i'r gwaith, o ddata Cyfrifiad 2021.

## Iechyd a threfniadau byw

Gwnaethom gynnig pedwar newidyn newydd ar gyfer iechyd a threfniadau byw, sef:

- risg iechyd COVID-19
- tai amlfeddiannaeth
- cartrefi â sawl cenhedlaeth
- pobl sy'n byw ar wahân gyda'i gilydd

### Risg iechyd COVID-19

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio newidyn newydd arfaethedig ar risg iechyd COVID-19. Byddai'n deillio o ddefnyddio'r statws iechyd cyffredinol hunangofnodedig, ar y cyd â newidynnau eraill, i nodi grwpiau blaenoriaeth brechu.

O'r 190 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 73% y byddent yn defnyddio newidyn ar risg iechyd COVID-19.

Trafododd yr ymatebwyr yr angen am ddata i lywio mentrau iechyd y cyhoedd. Er enghraifft, nododd Cyngor Sir Swydd Derby:

> "Gallai hyn fod yn amhrisiadwy i'n tîm Iechyd y Cyhoedd wrth gyflwyno mentrau iechyd y cyhoedd a rhaglenni brechu. Gorau po leiaf yw'r ardaloedd daearyddol oherwydd gallai helpu i nodi ble y gellid targedu rhaglenni ymyrryd."

Cododd yr ymatebwyr yr angen am ddata ar grwpiau penodol y gallwn eu nodi yn nata Cyfrifiad 2021. Er enghraifft,

- grwpiau crefyddol, megis Iddewon
- grwpiau ethnig, megis Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig, a phobl Kashmiri
- y rhai heb gar na fan
- y rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain

Fodd bynnag, gwnaeth yr ymatebwyr hefyd nodi cyfyngiadau sylweddol o ran defnyddio data Cyfrifiad 2021 at y diben hwn. Byddai cysondeb â diffiniadau GIG Lloegr o lefelau agored i niwed yn gymharol isel. Hefyd mae data'r cyfrifiad yn gipolwg ar adeg benodol a gallent ddyddio'n gyflym. Hefyd, mae awdurdodau lleol eisoes yn gallu cael gafael ar y data ar gyfer pobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol ar gyfer eu hardal.

Mae ein gwaith dichonoldeb wedi dangos na fyddai'r data y gallem eu cynhyrchu o newidyn ar risg iechyd COVID-19 yn ddigonol i ddiwallu anghenion defnyddwyr data. Yn arbennig, ni fyddai'n ddigon cywir ar gyfer pobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol ar lefel ardaloedd daearyddol bach.

Mewn ymateb, ni wnawn gynhyrchu newidyn ar risg iechyd COVID-19 yn deillio o ddata a gasglwyd yng Nghyfrifiad 2021.

Fodd bynnag, byddwn yn ymchwilio i ba mor ymarferol yw hi i gyfuno data Cyfrifiad 2021 â ffynonellau data iechyd, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o effaith pandemig y coronafeirws ar boblogaethau gwahanol. Mae angen y lefel isel o ddaearyddiaeth y mae'r cyfrifiad yn ei darparu a chroesdablu â gwybodaeth arall.

## Tai amlfeddiannaeth

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio newidyn newydd arfaethedig ar dai amlfeddiannaeth. O'r 187 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 72% y byddent yn ei ddefnyddio.

O'r 167 o ymatebwyr a nododd a oedd angen iddynt allu nodi tai amlfeddiannaeth bach a mawr ar wahân, roedd hynny'n wir yn achos 61%.

O'r 168 o ymatebwyr a nododd a oedd angen diffiniad penodol o dai amlfeddiannaeth arnynt:

- gofynnodd 46% am ddiffiniad y llywodraeth
- gofynnodd 14% am ddiffiniad Cyfrifiad 2011
- gofynnodd 3% am ddiffiniad amgen
- ni ofynnodd 37% am ddiffiniad penodol

Gan gefnogi diffiniad y llywodraeth, nododd Cyngor Dinas Birmingham:

> "Rhaid inni ddilyn y diffiniad yn Neddf Tai 2004 sy'n hepgor eiddo a reolir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sefydliadau eraill nad ydynt yn breifat, felly byddai angen i'r diffiniad gyfateb i hyn [...] Hefyd hoffem wybod am gartrefi sydd wedi'u hepgor a byddai angen y data arnom er mwyn gwahaniaethu rhwng tai amlfeddiannaeth a'r cartrefi hyn."

Dywedodd yr ymatebwyr y gallent ddefnyddio data tai amlfeddiannaeth i lywio strategaethau tai ardaloedd lleol, ac asesiadau blynyddol o anghenion tai. Gallent ddefnyddio'r data i asesu ansawdd tai drwy ymchwilio i dai gorlawn a darpariaeth gwres canolog. Byddent hefyd yn ei ddefnyddio i ragamcanu anghenion tai, gan gynnwys darpariaeth llefydd parcio a gwasanaethau casglu gwastraff. Hefyd cododd yr ymatebwyr anghenion penodol o ran ardaloedd myfyrwyr.

Er enghraifft, dywedodd Cyngor Dinas Manceinion:

> "Oni fydd tai amlfeddiannaeth wedi'u cofrestru mae'n anodd gwahaniaethu rhyngddyn nhw a chartrefi preswyl safonol, felly byddai gallu gweld cartrefi â phedwar neu lai o denantiaid nad ydynt yn perthyn o fudd mawr oherwydd nid cartrefi safonol yw'r rhain ac mae ganddynt anghenion gwahanol o safbwynt cynllunio gwasanaethau.
>
> Drwy ddeall lle mae niferoedd uwch o dai amlfeddiannaeth gallwn fonitro a yw safonau tai yn cael eu cyrraedd mewn tenantiaethau preifat, effeithiau niferoedd uchel o dai amlfeddiannaeth ar y gymuned leol, e.e. dim lle i deuluoedd neu ynysu pobl hŷn, a'r angen am dai mwy penodol megis cartrefi myfyrwyr."

Dynododd yr ymatebwyr y byddent yn defnyddio'r data i wneud y canlynol:

- deall cyfanswm nifer y tai amlfeddiannaeth bach a mawr mewn ardal
- llywio'r asesiad o ba gyfran o dai amlfeddiannaeth mewn ardal sy'n drwyddedig
- datblygu strategaethau proses drwyddedu ddethol ar gyfer tai amlfeddiannaeth mawr

Mae awdurdodau lleol yn dilyn proses drwyddedu ddethol i reoli'r crynodiadau o dai amlfeddiannaeth mewn ardal. Er enghraifft, nododd Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer:

> "Gallai hyn ein helpu i nodi faint o dai amlfeddiannaeth sydd heb eu cofrestru y gall fod angen eu harolygu/rheoleiddio a ble y ceir crynodiadau o dai amlfeddiannaeth er mwyn penderfynu a oes angen trwyddedu neu a oes angen cyfyngiadau Erthygl 4. Gallai hefyd gynnig cipolwg ar a oes prinder tai fforddiadwy neu unedau llai, gan olygu bod angen "rhannu tai" i leihau costau tai."

Hefyd nododd yr ymatebwyr y byddent yn hoffi'r data a ddefnyddiwyd i lunio cronfa ddata lawn o dai amlfeddiannaeth, drwy nodi'r rhai nad ydynt wedi'u cofrestru. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio gwybodaeth y cyfrifiad at ddibenion anystadegol ac felly ni fyddem yn gallu diwallu'r angen hwn. Rhaid i unrhyw ddata a gynhyrchir fod yn ystadegau cyfanredol. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn cadw data Cyfrifiad 2021 yn ddiogel, ewch i wefan SYG.

Mewn ymateb, byddwn yn asesu pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu newidyn tai amlfeddiannaeth o'r data a gasglwyd yng Nghyfrifiad 2021. Anelwn at ddiffinio tai amlfeddiannaeth yn unol â diffiniad y llywodraeth, er mwyn nodi tai amlfeddiannaeth bach a mawr ar wahân.

### Cartrefi â sawl cenhedlaeth

Diffiniwn gartrefi â sawl cenhedlaeth fel unrhyw gartref â mwy na dwy genhedlaeth o'r un teulu yn byw yno. Er enghraifft, pan fydd plant o unrhyw oedran, rhiant (neu rieni) a nain/taid (neiniau/teidiau) yn byw gyda'i gilydd.

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio newidyn newydd arfaethedig ar gartrefi â sawl cenhedlaeth. O'r 185 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 76% y byddent yn ei ddefnyddio.

Gwnaethom hefyd ofyn i ddefnyddwyr a oeddent am inni ddarparu gwybodaeth ar gyfer cartrefi neu ar gyfer preswylwyr arferol. O'r 168 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, gofynnodd 80% am inni ei darparu ar gyfer y ddau. Gofynnodd 11% arall inni ei darparu ar gyfer cartrefi a gofynnodd 8% inni ei darparu ar gyfer preswylwyr arferol.

Dywedodd yr ymatebwyr y byddent yn defnyddio data ar dai amlfeddiannaeth i lywio strategaethau tai ardaloedd lleol, ac asesiadau blynyddol o anghenion tai. Gallent ddefnyddio'r data hyn wrth gynllunio datblygiadau tai newydd, ac wrth asesu:

- tai gorlawn
- fforddiadwyedd tai
- darpariaeth llefydd parcio
- gwasanaethau casglu gwastraff

Er enghraifft, nododd Cyngor Bolton:

> "Byddem yn edrych ar gysylltiad posibl â chartrefi amlfeddiannaeth ac ethnigrwydd. Byddai hyn yn ein helpu i ddeall anghenion tai lleiafrifoedd ethnig yn

> Bolton. Byddem hefyd yn edrych ar gysylltiadau â graddedigion/pobl ifanc a'r cysylltiad â fforddiadwyedd tai. Byddai hefyd yn ein helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o sbardunau newid o ran modelau rhagamcanu cartrefi/ffurfiant cartrefi. Mae gan Bolton fwy o dai teras bach na'r cyfartaledd, a byddai'n ein helpu i edrych ar y defnydd gorau o'n stoc dai bresennol. Yn olaf, os byddai'n gysylltiedig â gwybodaeth am gyfraddau deiliadaeth byddai'n ein helpu i edrych ar un o'r ffactorau sy'n sail i dai gorlawn, a fyddai wedyn yn bwydo i mewn i'n strategaeth dai."

Gwnaeth yr ymatebwyr hefyd drafod y newidyn hwn gan gyfeirio at waith cynllunio iechyd y cyhoedd. Er enghraifft, nododd Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet:

> "Mae nodi pa grwpiau ethnig a nodweddion sydd fwyaf tebygol o fyw mewn cartrefi â sawl cenhedlaeth yn bwysig er mwyn deall amodau byw gwahanol boblogaethau; mae'r 18 mis diwethaf wedi dangos sut y gall tai chwarae rôl o ran iechyd a gallu pobl i gymryd mesurau diogelu megis gwarchod a chadw pellter yn eich cartref eich hun. Mae parhau i archwilio hyn a'i oblygiadau posibl i ofal iechyd yn ehangach yn bwysig i'r agenda ffyniant bro."

Prin oedd y wybodaeth a roddodd yr ymatebwyr am yr angen i ddosbarthu gwahanol fathau o gartrefi â sawl cenhedlaeth. Roedd y wybodaeth a gafodd ei darparu ganddynt am grwpiau oedran aelodau'r cartref. Er enghraifft, nododd Cyngor Enfield:

> "Os byddai pandemig arall [...], byddai'n ddefnyddiol iawn gwybod ble mae'r risg fwyaf o heintiadau o fewn cartrefi lle mae grwpiau oedran agored i niwed a heb fod yn agored i niwed yn byw gyda'i gilydd."

Drwy groesdablu'r newidyn newydd arfaethedig â newidynnau eraill, gallai defnyddwyr archwilio'r wybodaeth hon.

Hefyd soniodd rhai ymatebwyr fod ganddynt ddiddordeb mewn gwybod cyfanswm nifer y cenedlaethau mewn cartref. Fodd bynnag, yng Nghyfrifiad 2021, gwnaethom ond casglu a phrosesu gwybodaeth am yr holl gydberthnasau ar gyfer cartrefi â phump neu lai o breswylwyr arferol. Ar gyfer cartrefi mwy, gwnaethom ond casglu a phrosesu is-set o gydberthnasau.

Mewn ymateb, byddwn yn parhau i asesu pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu newidyn ar gartrefi â sawl cenhedlaeth, ar gyfer y seiliau poblogaeth preswylwyr arferol a chartrefi.

### Pobl sy'n byw ar wahân gyda'i gilydd

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr am yr angen am newidyn newydd ar bobl sy'n byw ar wahân gyda'i gilydd. Mae hyn yn cynrychioli'r boblogaeth sy'n byw ar wahân i'w partneriaid presennol. Gallwn nodi'r rhai sydd:

- yn briod neu mewn partneriaeth sifil, ond nad ydynt yn byw gyda'r unigolyn y maent mewn perthynas ag ef

- yn treulio 30 diwrnod neu fwy y flwyddyn yng nghyfeiriad eu partner, p'un a ydynt yn briod neu mewn partneriaeth sifil ai peidio

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio newidyn newydd arfaethedig ar bobl sy'n byw ar wahân gyda'i gilydd. O'r 171 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, dim ond 39% a nododd y byddent yn ei ddefnyddio.

Rhestrodd yr ymatebwyr fod angen gwybodaeth arnynt o'r newidyn hwn er mwyn eu helpu i ddatblygu strategaethau tai. Gallai newidynnau eraill a fodolai eisoes ddiwallu'r anghenion hyn yn gyffredinol. Fodd bynnag, cydnabu'r ymatebwyr y byddai angen gwybodaeth ychwanegol arnynt nad yw Cyfrifiad 2021 wedi'i chasglu. Er enghraifft, gwybodaeth am y rheswm pam nad yw'r cwpwl yn byw gyda'i gilydd. Nododd Cyngor Bwrdeistref Basingstoke a Deane:

> "Hwyrach y byddem yn defnyddio'r newidyn hwn i weld a allai ddangos angen am dai heb ei ddiwallu. Er enghraifft, os oedd dau unigolyn gyda'i gilydd ond yn dal i fyw gyda'u rhieni am na allant fforddio cartref gyda'i gilydd. Ni fyddai modd pennu'r rhesymau pam mae pobl yn byw ar wahân gyda'i gilydd ond byddai'n ddiddorol edrych ar hynny."

Mewn ymateb, oherwydd yr angen isel ymhlith defnyddwyr, ni wnawn gynhyrchu newidyn ar bobl sy'n byw ar wahân gyda'i gilydd yn deillio o ddata a gasglwyd yng Nghyfrifiad 2021.

Gwnawn barhau â'n cynnig presennol ar gyfer newidyn ar y math o ail gyfeiriad, a fydd yn cynnwys dosbarthiad ar gyfer cyfeiriad partner.

## Math o gartref a chyfeiriadau gwag

Gwnaethom gynnig pedwar newidyn newydd ar y math o gartref a chyfeiriadau gwag, sef:

- preswylwyr cartrefi gofal
- math o gyfeiriad gwag
- byw mewn cartref symudol neu dros dro
- pobl ddigartref, gan gynnwys pobl sy'n cysgu allan a phobl sy'n cysgu ar soffa ffrindiau

### Preswylwyr cartrefi gofal

Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom gynnig y gallem gynhyrchu newidyn newydd ar breswylwyr cartrefi gofal. Byddai'n ddosbarthiad amgen i'r newidyn presennol ar y math o sefydliad cymunedol a'i reolaeth. Gwnaethom gynnig defnyddio'r newidyn newydd hwn ar y sail boblogaeth ar gyfer preswylwyr arferol mewn sefydliadau cymunedol, ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol.

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio newidyn newydd arfaethedig ar breswylwyr cartrefi gofal. O'r 177 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 78% y byddent yn ei ddefnyddio.

Dynododd yr ymatebwyr y byddent yn defnyddio data ar breswylwyr cartrefi gofal i gynllunio darpariaeth cartrefi gofal yn y dyfodol ar lefel leol. Yn wahanol i'r mwyafrif o'r newidynnau newydd arfaethedig eraill, gwnaethant flaenoriaethu cael data ar gyfer ardaloedd daearyddol llai dros ddarparu data wedi'u croesdablu. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Dwyrain Swydd Gaer:

> “Ein blaenoriaeth yw nodi'r ardaloedd daearyddol lle ceir crynodiad o breswylwyr cartrefi gofal, fel bod modd targedu gwasanaethau gofal cymdeithasol a darpariaeth cartrefi gofal yn y dyfodol lle mae angen hynny fwyaf. […] Gallai croesdablu dangosydd preswylwyr cartrefi gofal â newidynnau eraill helpu i daflu goleuni ar nodweddion ac anghenion gwahanol is-grwpiau o breswylwyr, ond mae yn debygol o fod o werth mwy cyfyngedig, o ystyried nad yw llawer o newidynnau'r cyfrifiad (e.e. y rhai'n ymwneud â chyflogaeth neu gymwysterau) yn berthnasol i weithgareddau nac anghenion preswylwyr cartrefi gofal.”

Byddai defnyddwyr hefyd yn gallu defnyddio gwybodaeth o newidyn ar breswylwyr cartrefi gofal mewn asesiadau o anghenion sy'n ofynnol o dan y gyfraith, megis [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014](#).

Rhestrodd yr ymatebwyr anghenion eraill, gan gynnwys:

- targedu gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn enwedig y rhai a ddarperir gan y sector gwirfoddol
- deall effaith pandemig y coronafeirws a chynllunio ymatebion i unrhyw bandemig arall yn y dyfodol
- datblygu strategaethau i gyfathrebu â phreswylwyr cartrefi gofal
- monitro amrywiaeth a datblygu polisïau

Er enghraifft, nododd Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet:

> “Mae peth tystiolaeth o wahaniaethau yn ansawdd y gofal a gaiff pobl LGBT a phobl eraill. […] Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai hyn ei gwneud yn anos i bobl LGBT gael gafael ar ofal, a golygu nad ydynt yn barod i fynd i mewn i gartrefi gofal. Byddai'n ddefnyddiol deall graddau'r broblem hon drwy gymharu cyfran y bobl LGB mewn cartrefi gofal â chyfran y bobl o'r un oedran yn y boblogaeth gyffredinol. Byddai hyn yn helpu i ddarparu tystiolaeth gadarn ar natur y materion, a llywio a oes angen datblygu polisi yn y maes hwn.”

Mewn ymateb, byddwn yn cynhyrchu dosbarthiad ar gyfer math o gartref â'r categorïau:

- sefydliad meddygol: cartref gofal â nyrsio

- sefydliad meddygol: cartref gofal heb nyrsio
- sefydliad meddygol: math arall o sefydliad meddygol neu ofal
- math arall o sefydliad cymunedol

Byddem yn anelu at gynhyrchu setiau data ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol lle bo modd. Fodd bynnag, byddwn yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu setiau data blaenoriaeth uwch sydd eu hangen i gynllunio darpariaeth cartrefi gofal yn y dyfodol ar lefel leol ar gyfer ardaloedd daearyddol llai. Byddai'r setiau data blaenoriaeth hyn yn croesdablu'r wybodaeth am breswylio mewn cartref gofal ag:

- oedran
- rhyw
- iechyd cyffredinol
- anabledd

### Math o gyfeiriad gwag

Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom gynnig cynhyrchu newidyn newydd ar y math o gyfeiriad gwag. Darparodd swyddogion lleol y cyfrifiad wybodaeth am y rheswm roeddent yn meddwl bod y cyfeiriad yn wag yn ystod proses gasglu'r cyfrifiad. Y categorïau fyddai:

- gwag
- cartref gwyliau
- ail gartref

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio gwybodaeth ynghylch pam roedd cyfeiriad yn wag. O'r 172 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 72% y byddent yn ei defnyddio.

Hefyd gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a oedd angen rheswm penodol arnynt pam roedd cyfeiriad yn wag. O'r 160 o ymatebwyr a atebodd:

- gofynnodd 56% am gategorïau arfaethedig gwag, cartref gwyliau, neu ail gartref
- gofynnodd 9% am ddiffiniad arall
- ni ofynnodd 35% am ddiffiniad penodol

Trafododd yr ymatebwyr a ofynnodd am ddiffiniadau eraill gwahanu gwag yn gategorïau pellach. Er enghraifft:

- oherwydd marwolaeth y perchennog
- gwaith atgyweirio mawr
- yr eiddo wedi'i adael
- cartref newydd heb ei werthu

Hefyd awgrymwyd gwahanu cartrefi gwyliau yn gategorïau pellach, megis cartref gwyliau byrdymor, a gofynnwyd am wybodaeth am ba mor hir y mae eiddo wedi bod yn wag. Ni fu modd i swyddogion lleol y cyfrifiad gasglu'r wybodaeth fanwl hon o edrych ar eiddo o'r tu allan yn unig.

Dynododd yr ymatebwyr y byddent yn defnyddio gwybodaeth ynghylch pam roedd cyfeiriad yn wag i'w chymharu â data lleol, megis cofnodion y Dreth Gyngor neu'r gofrestr etholiadol. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r data hyn sy'n bodoli eisoes i ddatblygu a gweithredu strategaethau tai ardaloedd lleol, ac asesiadau blynyddol o anghenion tai.

Byddai hefyd yn bwydo i mewn i strategaethau cartrefi gwag. Er enghraifft, nododd Cyngor Enfield:

> “Fel awdurdodau lleol eraill, mae gennym ni gynlluniau i annog perchenogion eiddo gwag i osod eu cartrefi i deuluoedd lleol sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.”

Yn olaf, trafododd yr ymatebwyr wybodaeth am ail gartrefi a chartrefi gwyliau o ran deall cydlyniant cymunedol. Er enghraifft, nododd Comisiynydd y Gymraeg:

> “Mae'r Rhaglen Lywodraethu [...] yn ymrwymo i greu 'Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg'. Byddai'r wybodaeth hon yn ein helpu i ddeall yn well leoliad cartrefi gwag, eu natur, a'u heffaith bosibl ar hyfywedd cymunedau Cymraeg.”

Hefyd gofynnodd rhai ymatebwyr am wybodaeth am berchenogion ail gartrefi. Rydym yn bwriadu creu setiau data ar gyfer sail boblogaeth ail gartrefi, a fydd yn diwallu anghenion yr ymatebwyr hyn yn well. Trafodwn y rhain yn yr adran Sail boblogaeth ail gyfeiriad.

Mewn ymateb, gwnawn barhau i asesu pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu data ar y rheswm posibl y mae eiddo yn wag. Os cynhyrchwn y wybodaeth hon, byddai ar ffurf papur methodolegol.

### Byw mewn cartref symudol neu dros dro

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio newidyn newydd arfaethedig a oedd yn dynodi a yw unigolyn yn byw mewn cartref symudol neu dros dro. O'r 171 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 73% y byddent yn ei ddefnyddio.

Gwnaethom hefyd ofyn a fyddent yn defnyddio gwybodaeth am y math o gartref symudol neu dros dro roedd Cyfrifiad 2021 yn ei chasglu. Gwnaethom gasglu peth gwybodaeth am hyn yn ystod proses gasglu'r cyfrifiad at ddibenion gweithredol.

Hefyd gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr am eu hangen i gategoreiddio ymhellach y boblogaeth sy'n byw mewn cartref symudol neu dros dro fel pobl sy'n byw mewn:

- cychod
- pebyll a charafannau
- math arall o gartref

O'r 157 o ymatebwyr a nododd a fyddai categoreiddio pellach o fudd, nododd 67% y byddai. Fodd bynnag, rhestrodd yr ymatebwyr ddata ar gyfer ardaloedd daearyddol llai a data a groesdablir â newidynnau eraill fel blaenoriaethau uwch.

Trafododd yr ymatebwyr anghenion tebyg iawn i'r rhai a nodwyd ar gyfer y newidyn cyffredinol ar gyfer math o gartref. Disgrifiwn yr anghenion hyn yn fanylach yn yr is-adran “Math o gartref” yn y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad: rhan un (pdf, 625KB).

Dywedodd ambell ymatebydd wrthym am anghenion ychwanegol sydd ganddynt am ddata ar:

- am ba hyd mae rhywun wedi bod mewn cartref symudol neu dros dro
- y rheswm dros fyw yn y math hwn o gartref
- a yw'r math o gartref yn symud lleoliad daearyddol, er enghraifft, cwch camlas sy'n newid lleoliad angori

Mae'r ymatebwyr am ddefnyddio'r data hyn i ddeall ymhellach ganlyniadau iechyd a chyflogaeth, a deilliannau addysg, gymunedau sydd heb gartref parhaol. Byddent hefyd yn eu defnyddio i archwilio'r canlyniadau a'r deilliannau hyn ar gyfer y rhai sy'n byw yn y mathau hyn o gartrefi drwy angen, nid dewis.

Fodd bynnag, ni wnaethom gasglu data ystadegol na gweithredol ar y ffactorau ychwanegol hyn yng Nghyfrifiad 2021. Hefyd ni allwn dybio bod pawb sy'n byw yn y math hwn o gartref heb gartref parhaol. Er enghraifft, nododd Urdd Dynion Sioe Prydain Fawr:

> "Mae llawer neu'r mwyafrif o'r gymuned hon yn byw mewn cartrefi dros dro (a ddiffinnir yn nhermau Cynllunio yn unig) a/neu garafanau.
>
> Maent yn byw AR EU TIR NHW EU HUNAIN a/neu yn byw o bryd i'w gilydd wrth ymyl eu gweithrediadau sioe (Ffair / Syrcas) ar dir y cytunwyd arno ymlaen llaw lle cynhelir eu sioeau. […] Nid ydyn nhw BYTH "dros dro"; er eu bod nhw'n teithio AT DDIBEN EU CREFFT."

Prin oedd y wybodaeth a roddodd yr ymatebwyr am y rheswm dros fod angen rhagor o fanylion am y math o gartref symudol neu dros dro, sef:

- deall effaith y math o gartref dros dro neu symudol ar ganlyniadau iechyd a chyflogaeth, a deilliannau addysg
- gwerthuso effeithiolrwydd polisïau ar ffactorau megis caniatâd cynllunio a darpariaeth angorfeydd
- bwydo i mewn i Asesiadau o Gartrefi Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Rydym wedi cynnal gwaith dichonoldeb ac wedi dod i'r casgliad na fyddai'r data gweithredol yn darparu digon o gwmpas i gynhyrchu amcangyfrifon o ansawdd o faint y poblogaethau gwahanol hyn. Er enghraifft, gwnaethom ond casglu'r wybodaeth hon ar gyfer cartrefi dros dro neu symudol nad oeddent ar ein cofrestr cyfeiriadau.

Mewn ymateb, ni wnawn gynhyrchu newidyn ar fath o gartref symudol neu dros dro yn deillio o ddata gweithredol Cyfrifiad 2021. Mae hyn oherwydd:

- prin y mae'r data gweithredol yn gyson â'r anghenion ystadegol
- cryfder anghenion defnyddwyr sy'n canolbwyntio ar y boblogaeth gyfan sy'n byw mewn cartrefi symudol neu dros dro
- cwestiynau diwylliannol-gymdeithasol lle gellir adnabod rhai o'r cymunedau penodol y gwneir cais amdanynt

Gwnawn ddiwallu'r angen am wybodaeth am y boblogaeth gyfan sy'n byw mewn llety symudol neu dros dro drwy ddosbarthiad ar gyfer math o gartref.

Cynigiwn gynnwys y categorïau canlynol:

- tŷ neu fyngalo cyfan
- fflat neu maisonette
- carafán neu fath arall o gartref symudol neu dros dro

Byddem yn anelu at sicrhau bod y dosbarthiad hwn ar gael ar:

- sail boblogaeth cartrefi, ar lefel ardal gynnyrch
- preswylwyr arferol yn sail boblogaeth cartrefi, ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol

### Pobl ddigartref, gan gynnwys pobl sy'n cysgu allan a phobl sy'n cysgu ar soffa ffrindiau

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio gwybodaeth am y boblogaeth ddigartref roedd Cyfrifiad 2021 wedi'i chasglu, os oedd modd inni ei chynhyrchu. O'r 179 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 82% y byddent yn ei defnyddio.

Casglodd ffurflen Cyfrifiad 2021 dri darn o wybodaeth y gallem eu defnyddio i gynhyrchu gwybodaeth am y boblogaeth ddigartref.

Yn gyntaf, casglodd y ffurflen ar gyfer sefydliadau cymunedol wybodaeth am y math o sefydliad cymunedol. Roedd yn cynnwys yr opsiwn ymateb “hostel neu loches dros dro i bobl ddigartref”. Ar sail hyn, hwyrach y gallwn gynhyrchu peth data ar boblogaethau o bobl sy'n cysgu allan.

Yn ail, casglodd ffurflen y cyfrifiad i unigolion a gwblhawyd gan breswylwyr sefydliadau cymunedol wybodaeth am y math o breswylydd. Roedd yn cynnwys yr opsiwn ymateb “Aros dros dro (heb gyfeiriad arferol yn y Deyrnas Unedig)”. Ar sail hyn, hwyrach y gallwn gynhyrchu peth gwaith dadansoddi ar bobl sydd heb gyfeiriad arferol sy'n aros mewn sefydliadau cymunedol ar adeg y cyfrifiad.

Yn drydydd, casglodd ffurflen y cyfrifiad wybodaeth am y math o breswylydd. Roedd yn cynnwys yr opsiwn ymateb “Pobl sy’n aros yma dros dro, sy’n byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer, ond sydd heb gyfeiriad arall yn y Deyrnas Unedig, er enghraifft, perthnasau, ffrindiau”. Ar sail hyn, hwyrach y gallwn gynhyrchu dadansoddiad o'r cartrefi sydd â phreswylwyr dros dro sydd heb gyfeiriad arall yn y Deyrnas Unedig.

Ni fyddai'r un o'r mesurau hyn yn darparu cyfrif cadarn o'r boblogaeth ddigartref, hyd yn oed os oeddent yn cael eu defnyddio ar y cyd.

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr pa un o'r ffynonellau gwybodaeth hyn fyddai o'r diddordeb mwyaf. O'r 163 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

- byddai 95% yn defnyddio'r wybodaeth o'r holiadur sefydliadau cymunedol
- byddai 89% yn defnyddio'r wybodaeth o ffurflenni'r cyfrifiad i unigolion
- byddai 85% yn defnyddio'r wybodaeth o'r ffurflenni i gartrefi
- nododd 12% fod ganddynt anghenion ychwanegol, yn ymwneud â mathau penodol eraill o sefydliadau cymunedol sy'n darparu llety dros dro neu wrth deithio

Nododd yr ymatebwyr fod angen iddynt gael data ar bob math o ddigartrefedd er mwyn deall graddau digartrefedd yn eu hardal, a gallu targedu gwasanaethau. Hefyd pwysleisiwyd diffyg data amgen yn y maes hwn. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Hampshire:

> "Byddai'r data hyn yn cael eu cynnwys yng ngwaith dadansoddol Grwpiau Iechyd Cynhwysiant yr Asesiad ar y Cyd Strategol o Anghenion, er mwyn ceisio deall maint y grŵp poblogaeth hwn a'i nodweddion demograffaidd. Byddai hyn yn helpu i asesu ei anghenion a llywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau; ar hyn o bryd nid yw'r data hyn ar gael yn ddibynadwy mewn mannau eraill ac maent yn cynrychioli grŵp wedi'i hepgor sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol uchel."

Nododd ymatebwyr eraill natur dros dro y boblogaeth ddigartref. Roeddent yn pryderu na fyddai'r data hyn o Gyfrifiad 2021 o fawr ddim defnydd i dargedu gwasanaethau, oherwydd gallai dosbarthiad y boblogaeth fod wedi newid eisoes. Er enghraifft, cafodd menter Everyone In ei lansio gan yr Ysgrifennydd Cartref ar ddechrau'r pandemig i ddiogelu pobl sy'n cysgu allan. Roedd hyn yn golygu bod cyfran fwy o'r boblogaeth hon nag arfer yn byw mewn llety dros dro neu wrth deithio yn ystod Cyfrifiad 2021.

Mewn ymateb, gwnawn gynhyrchu dosbarthiad is ar y math o sefydliad cymunedol. Cynigiwn y categorïau canlynol:

- llety dros dro neu wrth deithio: gwesty, tŷ llety, gwely a brecwast, hostel ieuenctid
- llety dros dro neu wrth deithio: Hostel neu loches dros dro i bobl ddigartref
- lety dros dro neu wrth deithio: Llety gwyliau (er enghraifft, parc gwyliau)
- llety dros dro neu wrth deithio: Math arall o lety dros dro neu wrth deithio
- math arall o sefydliad cymunedol

Gwnawn hefyd gynhyrchu dosbarthiad ar y safle mewn sefydliad cymunedol. Cynigiwn y categorïau canlynol:

- preswylydd

- staff neu berchennog, neu aelod o'r teulu neu bartner staff neu'r perchennog
- aros dros dro (heb gyfeiriad arferol yn y Deyrnas Unedig)

Yn olaf, rydym wedi bod yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu newidyn yn cynnwys gwybodaeth o'r opsiwn ymateb “Pobl sy’n aros yma dros dro, sy’n byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer, ond sydd heb gyfeiriad arall yn y Deyrnas Unedig, er enghraifft, perthnasau, ffrindiau”. Byddai'r newidyn hwn wedi galluogi dadansoddi cartrefi sydd â phreswylwyr dros dro sydd heb gyfeiriad arall yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, rydym wedi pennu na fyddai'r data o ansawdd digonol i'w cyhoeddi heb gryn dipyn o brosesu pellach.

Mewn ymateb, mae'n annhebygol y gwnawn ni gynhyrchu newidyn yn cynnwys gwybodaeth o'r opsiwn ymateb “Pobl sy’n aros yma dros dro, sy’n byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer, ond sydd heb gyfeiriad arall yn y Deyrnas Unedig, er enghraifft, perthnasau, ffrindiau”.

Oherwydd yr angen cryf am wybodaeth am y boblogaeth hon, rydym yn parhau i asesu a oes unrhyw opsiynau amgen i ddarparu gwybodaeth am y boblogaeth hon.

## Poblogaethau bach

Mae poblogaethau bach yn grwpiau a ddiffinnir gan eu cefndir diwylliannol, gan gynnwys nodweddion megis grŵp ethnig, gwlad enedigol, crefydd a hunaniaeth genedlaethol. Oherwydd meintiau cymharol fach y poblogaethau hyn, ni allwn ryddhau gwybodaeth fanwl am y grwpiau hyn yn y cynnyrch safonol oherwydd cyfyngiadau cyfrinachedd. Yn hytrach, crëwn dablau pwrpasol ar gyfer poblogaethau bach penodol ar bob lefel ddaearyddol lle mae nifer y boblogaeth honno yn rhagori ar drothwy penodol.

Gwnaethom ddarparu ein cynigion ar gyfer poblogaethau bach yn y ddogfen cynigion ymgynghoriad allbynnau Cyfrifiad 2021. Gwnaethom gynnig cynnyrch ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol ac ar lefel awdurdod lleol. Roedd ein cynnig yn ailadrodd yr hyn a gynhyrchwyd gennym ar gyfer Cyfrifiad 2011 i raddau helaeth.

Nododd yr ymatebwyr ei bod hi'n anodd pennu pa boblogaethau roedd eu hangen cyn gweld y prif setiau data. Fel y cyfryw, nodwyd y byddent yn gwerthfawrogi cyfle ar gam hwyrach i roi adborth ar eu hanghenion ar gyfer data poblogaethau bach.

Mewn ymateb, byddwn yn cynnal arolwg defnyddwyr ar ôl cwblhau cam tri o amserlen datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021. Bydd yn asesu a oes unrhyw anghenion ychwanegol ar gyfer setiau data poblogaethau bach nas diwallwyd yn ddigonol eto.

### Setiau data lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol

Gwnaethom gynnig cynhyrchu setiau data ar gyfer chwe phoblogaeth fach ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol. Rydym wedi darparu'r cynigion hyn yn Atodiad C:

Cynigion cychwynnol ar gyfer setiau data poblogaeth fach. Gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr pa rai o'r poblogaethau arfaethedig y byddent yn defnyddio data ohonynt. O blith y 91 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

- byddai 60% yn defnyddio data ar y boblogaeth Kashmiraidd, a ddiffinnir gan ddefnyddio grŵp ethnig
- byddai 59% yn defnyddio data ar y boblogaeth Sikhiaidd, a ddiffinnir gan ddefnyddio grŵp ethnig
- byddai 44% yn defnyddio data ar y boblogaeth Nepali/Nepalaidd, gan gynnwys Gurka, a ddiffinnir gan ddefnyddio grŵp ethnig
- byddai 36% yn defnyddio data ar y boblogaeth Jain, a ddiffinnir gan ddefnyddio grŵp ethnig neu grefydd
- byddai 25% yn defnyddio data ar y boblogaeth Gernyweg, a ddiffinnir gan ddefnyddio hunaniaeth genedlaethol
- byddai 25% yn defnyddio data ar y boblogaeth Ravidassia, a ddiffinnir gan ddefnyddio crefydd

O blith y 126 o ymatebwyr a nododd a fyddai'r setiau data hyn yn diwallu eu hanghenion:

- nododd 66% eu bod yn diwallu eu hanghenion yn llawn
- nododd 15% eu bod yn diwallu eu hanghenion yn rhannol
- nododd 19% na fyddent yn diwallu eu hanghenion

Trafododd yr ymatebwyr yr angen am ddata ar lefelau is o ddaearyddiaeth megis lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is a lefel ward. Nodwyd bod y lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol yn gymharol fawr ac yn aml yn croesi ffiniau gweinyddol. O ganlyniad, nid yw'n addas ar gyfer gwaith cynllunio awdurdodau lleol.

Hefyd trafodwyd yr angen am wybodaeth am y brif iaith o fewn poblogaethau bach. Er enghraifft, o ran prif iaith, dywedodd Cyngor Dinas Manceinion:

> "Mae data ar boblogaethau bach yn bwysig i ddeall pwy sy'n byw ble, pa gymunedau sy'n tyfu neu sy'n dod i'r amlwg, tensiwn hiliol neu gydlyniant cymunedol ac, yn fwyaf pwysig, ar bwy a ble y mae angen inni wybod i ganolbwyntio arnynt os oes argyfwng, e.e. amrywiolyn Delta COVID-19 yn gofyn am leoli preswylwyr is-gyfandir India neu gysylltu â phreswylwyr o Affganistan yn ystod yr argyfwng presennol. [...] Gall pob gohebiaeth ofyn am wybodaeth am yr ieithoedd a siaredir mewn ardal ar gyfer gwasanaethau cyfieithu ac ymwybyddiaeth o ystyriaethau diwylliannol. Gall fod angen gwneud hyn ar frys felly mae angen ei gynllunio gan ddefnyddio ffynhonnell ddata gyfoethog megis y cyfrifiad, ond mae hefyd angen ystyried cost gwasanaethau cyfieithu, felly mae rhagor o wybodaeth am boblogaethau bach yn golygu y gallwn fod yn fwy effeithlon."

Darparodd yr ymatebwyr gyfiawnhad dros fod angen sawl poblogaeth fach ar ben y rhai wedi'u rhestru yn Atodiad C: Cynigion cychwynnol ar gyfer setiau data poblogaeth fach ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol, sef:

- prif iaith Iaith Arwyddion Prydain
- gwlad enedigol Rwmania
- grŵp ethnig Somalaidd
- grŵp ethnig Cypraidd Twrcaidd

Er enghraifft, wrth drafod y boblogaeth sydd ag Iaith Arwyddion Prydain fel prif iaith, nododd Cymdeithas Frenhinol Pobl Fyddar:

> “Mae data ar ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain byddar yn brin ofnadwy ac mae'n parhau i beri rhwystredigaeth i elusennau byddar a'r rhai sy'n gweithio i wella bywydau pobl fyddar. Felly, drwy ddarparu adnodd a dadansoddiad ar wahân ar ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain byddar, bydd SYG yn gallu helpu sefydliadau byddar cryn dipyn wrth iddynt ymdrechu i sicrhau bod gwaith llunio polisi a chomisiynu yn seiliedig ar dystiolaeth.”

Wrth drafod y boblogaeth Cypraidd Twrcaidd, nododd Cyngor Cymdeithasau Cypraidd Twrcaidd y DU:

> “Cefnogwn y gymuned Cypraidd Twrcaidd ym mhob ardal. Defnyddir y data i bennu llwybr datblygu polisi y Cyngor ac o ran integreiddio er enghraifft gefnogi Saesneg fel iaith dramor.”

Byddwn yn parhau â'n cynnig i gynhyrchu cyfres o setiau data r gyfer Cyfrifiad 2021 yn debyg i setiau data Cyfrifiad 2011 ar boblogaethau bach.

Mewn ymateb, byddwn yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i ychwanegu set ddata ar brif iaith ar gyfer pob poblogaeth fach. Hefyd byddwn yn edrych i weld a allwn gynhyrchu unrhyw rai o'r setiau data ar gyfer wardiau neu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is. Fel rhan o hyn, byddwn yn ystyried y defnydd o'r data a'r risg datgelu ystadegol.

Hefyd byddwn yn ystyried yr angen i gynhyrchu set o setiau data poblogaeth fach ar gyfer y pedair poblogaeth fach rydym wedi eu trafod. Darparodd yr ymatebwyr enghreifftiau o'r rhesymau pam mae angen y wybodaeth hon ar gyfer y poblogaethau hyn.

Yn yr asesiad hwn, byddwn yn ystyried pa ddata fydd ar gael drwy setiau data amlamryweb a ryddheir ar gam dau o'r amserlen datganiadau. Mae hyn yn cynnwys y setiau data parod a'r setiau data creu eich hun.

Hwyrach na fydd yn ymarferol inni gynhyrchu data ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol, os, er enghraifft, nad yw'r boblogaeth wedi'i chlystyru mewn ardaloedd

penodol. Yn yr achosion hyn, byddwn yn ystyried cynhyrchu setiau data ar lefel awdurdod lleol.

## Setiau data bandiau oedran pum mlynedd yn ôl rhyw lefel awdurdod lleol

Gwnaethom gynnig cynhyrchu setiau data ar lefel awdurdod lleol ar gyfer yr un 30 o boblogaethau bach fel y gwnaethom yn 2011. Roedd hyn yn cynnwys 13 o grwpiau ethnig a 17 o wledydd enedigol. Rydym wedi rhestru'r rhain yn Atodiad C: Cynigion cychwynnol ar gyfer setiau data poblogaeth fach.

O'r 149 o ymatebwyr a nododd a fyddai'r setiau data hyn yn diwallu eu hanghenion, dywedodd 72% y byddent.

Fel gyda'r setiau data ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol, nododd yr ymatebwyr ei bod hi'n anodd pennu pa boblogaethau roedd eu hangen arnynt, cyn gweld y prif setiau data.

Hefyd cododd yr ymatebwyr yr angen am setiau data ar boblogaethau eraill ar lefel awdurdod lleol, ar gyfer bandiau oedran pum mlynedd yn ôl rhyw, sef:

- grŵp ethnig Caribïaidd
- Tsieina fel gwlad enedigol
- hunaniaeth Iddewig, gyda'r newidynnau diffiniol i'w pennu
- grŵp ethnig Pashtun
- grŵp ethnig Dyn Sioe

Os yn bosibl, gwnaeth yr ymatebwyr hefyd ofyn inni gynhyrchu setiau data ychwanegol ar y poblogaethau hyn. Er enghraifft, nododd Elusen Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl Dynion Sioe:

> “Rydym ni'n elusen sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl i'r gymuned Dyn Sioe. Mae'r elusen yn [...] gyfyngedig i ond cynnig ein gwasanaethau i'r aelodau hynny o'r gymuned rydym yn eu hadnabod. Mae angen i ddata'r cyfrifiad roi ymdeimlad gwirioneddol o'n poblogaeth, a nodi ffyrdd o wasanaethu'r gymuned yn well.”

Mewn ymateb, byddwn hefyd yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu setiau data ychwanegol ar y pum poblogaeth fach hyn, lle darparodd yr ymatebwyr angen defnyddiwr. Byddwn yn gweithio gyda defnyddwyr data i ddeall sut i ddiffinio'r grwpiau hyn. Er enghraifft, gwnawn ystyried a ddylai “Caribïaidd” gael ei ddiffinio gan ddefnyddio'r opsiwn ymateb “Caribïaidd” yn unig neu mewn ffordd arall.

Yn yr asesiad hwn, gwnawn ystyried eto pa ddata fydd ar gael drwy'r tablau amlamryweb a ryddhawn ar gam dau o'r amserlen datganiadau.

## Seiliau poblogaeth amgen

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr nodi pa setiau data a gwaith dadansoddi y byddai eu hangen arnynt ar seiliau poblogaeth amgen. Diffiniwyd y seiliau poblogaeth amgen arfaethedig hyn yn y ddogfen cynigion ymgynghoriad allbynnau Cyfrifiad 2021. Mae'r seiliau poblogaeth amgen hyn naill ai'n symud preswylwyr arferion i leoliadau gwahanol yn seiliedig ar eu nodweddion neu'n adrodd ar boblogaeth nad yw'n preswylio fel arfer.

Ar gyfer pob sail boblogaeth amgen, gwnaethom nodi'r lefel ddaearyddol rydym yn cynnig cynhyrchu setiau data arni. Ni wnaethom ddarparu cynigion ar gyfer pa newidynnau y byddwn yn gallu eu cynnwys.

Gan fod pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cyfyngu ar symudiad y boblogaeth ar adeg Cyfrifiad 2021, mae'r potensial i ddatgelu yn uwch ar gyfer seiliau poblogaeth amgen. Byddwn ond yn cynhyrchu setiau data lle:

- mae angen diffiniedig ymhlith defnyddwyr
- mae'r data o ansawdd digonol
- mae'r risg o ddatgelu ystadegol yn isel

Fodd bynnag, cydnabyddwn yr angen cryf ymhlith defnyddwyr am wybodaeth am y poblogaethau hyn. Trafodwn ein cynlluniau at y dyfodol yn yr adran Y cyfrifiad yn ystod cyfnod o newid: casgliadau.

O'r 173 o ymatebwyr a nododd pa seiliau poblogaeth amgen y byddent yn eu defnyddio, petaem yn eu cynhyrchu:

- byddai 65% yn defnyddio'r sail boblogaeth ar gyfer y gweithle
- byddai 61% yn defnyddio'r sail boblogaeth ar gyfer y diwrnod gwaith
- byddai 50% yn defnyddio'r sail boblogaeth ar gyfer y tu allan i'r tymor
- byddai 53% yn defnyddio'r sail boblogaeth preswylwyr byrdymor nas ganwyd yn y DU
- byddai 51% yn defnyddio'r sail boblogaeth ar gyfer ail gyfeiriad
- byddai 5% yn defnyddio sail boblogaeth arall os oedd ar gael
- ni fyddai 24% yn defnyddio unrhyw un o'r seiliau poblogaeth amgen arfaethedig

Roedd y mwyafrif o'r ceisiadau, a wnaed gan ymatebwyr ar gyfer sail boblogaeth arall, ar gyfer is-setiau o'r boblogaeth breswyl arferol. Byddwn yn diwallu'r anghenion hyn drwy setiau data amlamryweb a gynhyrchwn ar gam dau o'r amserlen datganiadau.

Gwnaeth yr ymatebwyr un cais arall am fersiwn o boblogaeth gweithleoedd sy'n canolbwyntio ar sefydliadau addysgol. Ni wnaethom gasglu gwybodaeth am deithio i addysg. Y rheswm dros hyn yw mai dim ond mynegi lefel isel o alw am hyn a wnaeth yr ymatebwyr, yn ystod ymgynghoriad Cyfrifiad 2021: barn gychwynnol ar gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2015.

Mewn ymateb, gwnawn gynhyrchu cynnyrch ar y pum sail boblogaeth amgen a amlinellwyd gennym yn ein cynigion. Ni fwriadwn gynhyrchu unrhyw seiliau poblogaeth amgen eraill.

## Poblogaeth gweithleoedd

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr ddisgrifio eu dadansoddiad arfaethedig o boblogaeth gweithleoedd ac atebodd 95 o ymatebwyr. Nodwyd y byddai ein cynigion ar gyfer setiau data Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd ofyn am ddata ar lefelau daearyddol is lle bo modd. Fel bod modd cynnal dadansoddiad manylach o ardaloedd lleol, gofynnodd yr ymatebwyr am Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is a pharthau gweithleoedd.

Darparodd yr ymatebwyr sawl defnydd ar gyfer y data hyn, sef:

- cludiant, tai, a strategaethau a darpariaethau tir cyflogi
- strategaethau twf economaidd, gan gynnwys cynllunio i adfer o bandemig y coronafeirws
- cynllunio i wagio mewn argyfwng, er enghraifft, yn achos llifogydd
- deall trosedd
- monitro cydraddoldeb

Er enghraifft, dywedodd Cyngor Dwyrain Swydd Gaer:

> “Byddai data ar boblogaeth gweithleoedd ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol [...] yn arbennig o ddefnyddiol i lywio ein hymateb i sefyllfaoedd argyfyngus megis llifogydd, gan fod angen i'r fath ymatebion (e.e. gwagio/ ymdrechion achub) gyfrif am nifer y bobl sy'n bresennol o bosibl (neu'n teithio i/ o) yn yr ardaloedd dan sylw a dosbarthiad daearyddol pobl yn yr ardaloedd hynny.
>
> Byddai dadansoddiad o boblogaeth gweithleoedd yn ôl diwydiant [...] o fudd i asesu/ cefnogi anghenion busnesau lleol ac i wneud penderfyniadau ynghylch graddau a lleoliad darpariaeth tir cyflogi yn y dyfodol (gan fod gan wahanol ddiwydiannau anghenion gwahanol iawn: er enghraifft, mae angen llawer mwy o dir fesul cyflogai ar safleoedd gweithgynhyrchu a warysau na swyddfeydd.”

Yn ogystal, dywedodd Cyngor Dinas Manceinion:

> “Mae'n hanfodol ein bod yn deall poblogaeth gweithleoedd yn 2021, hyd yn oed os yw i ddynodi'r rhai sydd ar goll oherwydd y cyfnod clo, fel y gallwn wneud penderfyniadau polisi ynghylch adfer a dyfodol canol y ddinas. Wedi'i chroesdablu â grŵp ethnig, cyfeiriadedd rhywiol a nodweddion gwarchodedig eraill, bydd y wybodaeth yn llywio ein strategaethau cydraddoldeb.
>
> Gall hefyd gael ei defnyddio i egluro ystadegau troseddau a'r economi liw nos yn ogystal â chynllunio ar gyfer gwasanaethau sydd eu hangen gan y rhai nad ydynt yn byw yn y ddinas, e.e. cludiant a gwasanaethau gwastraff. Wedi'i chroesdablu yn erbyn diwydiant neu alwedigaeth byddai'n ein helpu i wneud penderfyniadau ynghylch polisïau economaidd oherwydd gallem gymharu yn erbyn ein

rhagolygon ar gyfer twf cyflogaeth, yn enwedig yn ardal ehangach canol y ddinas lle cyn COVID-19 gwelsom dwf cyflym mewn cyflogaeth sydd wedyn wedi cael ei ddilyn gan newidiadau mewn diwydiannau yn sgil COVID-19 ac yna gynllunio ar gyfer polisïau'r dyfodol ar newid yn yr hinsawdd."

Dangosodd yr ymatebwyr angen clir am setiau data ar boblogaeth gweithleoedd ar:

- oedran
- lefel uchaf o addysg
- galwedigaeth
- diwydiant
- dull o deithio i'r gwaith
- pellter a gaiff ei deithio i'r gwaith

I ddeall nodweddion y boblogaeth ac i fonitro amrywiaeth, gofynnodd yr ymatebwyr am nodweddion demograffaidd hefyd.

Yn olaf, gofynnodd yr ymatebwyr inni ehangu'r diffiniad o boblogaeth gweithleoedd i gynnwys pob oedran, nid dim ond 16-74 oed, fel yn 2011.

Mewn ymateb, wrth lunio ein cynlluniau terfynol ar gyfer setiau data ar boblogaeth gweithleoedd, gwnawn flaenoriaethu asesu a yw hi'n ymarferol cynhyrchu setiau data unamryweb ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol. Byddwn yn canolbwyntio ar y newidynnau y gwnaeth yr ymatebwyr ddangos angen clir amdanynt.

Byddwn yn asesu ymarferoldeb cynhyrchu unrhyw rai o'r setiau data blaenoriaeth uwch hyn ar gyfer ardaloedd daearyddol lefel is megis Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is a pharth gweithle. Mewn rhai achosion, gall fod angen inni gynhyrchu setiau data ar lefel ddaearyddol uwch.

Byddwn hefyd yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i ehangu'r diffiniad o'r gweithle i gynnwys pobl 75 oed a throsodd.

## Poblogaeth diwrnod gwaith

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr ddisgrifio eu dadansoddiad arfaethedig o'r boblogaeth diwrnod gwaith ac atebodd 85 o ymatebwyr. Nododd sawl un fod y data hyn yn fwy pwysig yn dilyn pandemig y coronafeirws am fod rhagor o bobl yn gweithio o gartref. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gynhyrchu'r data hyn ar lefel Ardal Gynnyrch. Hefyd gofynnwyd am ddata ar barthau gweithleoedd.

Darparodd yr ymatebwyr ddefnyddiau tebyg ar gyfer data ar y boblogaeth diwrnod gwaith ag ar gyfer data gweithleoedd. Fodd bynnag, er mwyn ymchwilio i effaith pandemig y coronafeirws, gwnaeth yr ymatebwyr hefyd godi'r angen i gymharu data ar y boblogaeth diwrnod gwaith â'r boblogaeth breswyl arferol a data o Gyfrifiad 2011.

Dynododd yr ymatebwyr fod angen newidynnau tebyg arnynt i'r rhai a flaenoriaethwyd ar gyfer poblogaeth gweithleoedd. Fodd bynnag, rhoddwyd mwy o bwyslais ar yr angen am

newidynnau cymdeithasol a demograffaidd. Er enghraifft, nododd Awdurdod Llundain Fwyaf:

> "Defnyddir data ar y boblogaeth diwrnod gwaith i fonitro gweithgarwch y stryd fawr a chanol trefi. Mae adfywio'r stryd fawr yn un o gonglfeini rhaglen adfer Awdurdod Llundain Fwyaf. Felly mae angen inni wybod nodweddion gweithwyr a phreswylwyr yn yr ardaloedd hyn yn ôl demograffeg a nodweddion gwarchodedig: oedran, rhyw, ethnigrwydd, iechyd ac anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd."

Mewn ymateb, wrth lunio ein cynlluniau terfynol ar gyfer setiau data ar y boblogaeth diwrnod gwaith, byddwn yn blaenoriaethu cynhyrchu setiau data unamryweb ar yr un newidynnau ag ar gyfer y boblogaeth gweithleoedd. Yn gyffredinol anelwn at gynhyrchu'r setiau data unamryweb hyn ar lefel Ardal Gynnyrch.

Byddwn yn asesu pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu unrhyw rai o'r setiau data blaenoriaeth uwch hyn ar gyfer parthau diwrnod gwaith. Hefyd gwnawn anelu at gynhyrchu setiau data y gellir eu cymharu â setiau data o Gyfrifiad 2011, lle bo modd.

## Poblogaeth y tu allan i'r tymor

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr ddisgrifio eu dadansoddiad arfaethedig o'r boblogaeth y tu allan i'r tymor ac atebodd 72 o ymatebwyr. Roeddent yn cefnogi'r cynnig i gynhyrchu'r data hyn ar lefel Ardal Gynnyrch ac ar gyfer newidynnau tebyg a ddarparwyd gennym yn dilyn Cyfrifiad 2011.

Dynododd yr ymatebwyr fod angen y data hyn arnynt i'w helpu i ddeall newidiadau i lefelau darparu gwasanaethau gofynnol yn ystod y tymor a'r tu allan i'r tymor. Er enghraifft, nododd Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf:

> "Gall y niferoedd o deithwyr bws ar rai llwybrau fod yn wahanol iawn yn ystod yr haf yn arbennig. Mae lefelau cwsmeriaid mewn gwasanaethau hamdden a manwerthu mewn rhai lleoliadau yn newid hefyd y tu allan i'r tymor.
>
> Hefyd mae galw uwch ac is am wasanaethau eraill megis gwastraff, apwyntiadau meddyg teulu a gwasanaethau'r GIG ac ati. Byddai setiau data tebyg i'r rhai a ryddhawyd yn 2011 yn fuddiol. Yn arbennig, rydym yn debygol o ddod o hyd i ddwysedd, oedran, ethnigrwydd ac iechyd cyffredinol y boblogaeth. Mae'r boblogaeth myfyrwyr yn ifanc ac yn iach ar y cyfan ac os caiff ei hepgor o gyfraddau ar ddangosyddion iechyd drwy amcangyfrifon o'r boblogaeth y tu allan i'r tymor yna gallai hyn ddangos cyfraddau llawer uwch o broblemau iechyd yn y boblogaeth gyffredinol."

Prin oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymatebwyr am yr union newidynnau roedd eu hangen arnynt. Dynodwyd mai cyfansymiau ardaloedd lleol oedd y flaenoriaeth uchaf. Fodd bynnag, cafwyd ceisiadau ar draws sawl ymateb ar gyfer:

- oedran
- rhyw

- grŵp ethnig

Mewn ymateb, wrth lunio ein cynlluniau terfynol ar gyfer setiau data poblogaeth y tu allan i'r tymor, gwnawn flaenoriaethu setiau data unamryweb ar oedran, rhyw a grŵp ethnig. Yn gyffredinol gwnawn gynhyrchu setiau data unamryweb ar lefel Ardal Gynnyrch.

## Poblogaeth preswylwyr byrdymor nas ganwyd yn y DU

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr ddisgrifio eu dadansoddiad arfaethedig o'r boblogaeth ‘preswylwyr byrdymor nas ganwyd yn y DU’ ac atebodd 65 o ymatebwyr. Nodwyd mai prin y byddai'r defnydd o ddata ar lefel ranbarthol.

Yn sgil effaith pandemig y coronafeirws ar newidiadau i lifau myfyrwyr a gweithwyr mudol, nododd yr ymatebwyr bod llai o ddefnydd o'r data hyn.

Er enghraifft, nododd Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Tameside:

> “Yn sgil pandemig COVID-19, hwyrach na fydd niferoedd y cyfrifiad yn nodweddiadol, yn enwedig i ardal fel Tameside sydd ar gyrion ardal dwysedd poblogaeth uwch canol dinas Manceinion, gan fod y llif o bobl allan o ganol dinasoedd i drefi lloeren drwy gydol y pandemig wedi cael ei weld ledled y wlad.”

Disgrifiodd rhai ymatebwyr y gwaith dadansoddi y gallent ei wneud a gofynnwyd am ddata ar lefel awdurdod lleol. Fodd bynnag, ychydig iawn a wnaeth gysylltu hyn ag anghenion polisi, cynllunio neu ddarparu gwasanaethau penodol. Cyngor Dinas Manceinion a ddarparodd yr angen mwyaf diffiniedig ond nododd gyfyngiadau'r data. Nododd:

> “Fel rheol byddai meintiau yn ategu amcangyfrifon o'r boblogaeth ar sail y ffaith bod un preswylydd byrdymor yn cael ei ddisodli gan un arall yn rheolaidd felly bod angen yr un gwasanaethau fwy neu lai ag ar gyfer preswylydd ‘arferol’ er eu bod yn bobl wahanol e.e. gwagio bin, ni waeth pa mor aml y caiff yr unigolyn hwnnw ei ddisodli gan un arall. Bydd y gwaith dadansoddi yn gyfyngedig am fod y pandemig wedi effeithio ar fyrhoedledd.”

Hefyd gofynnodd rhai defnyddwyr am wybodaeth am y rheswm dros fudo. Ni wnaethom gasglu'r data hyn yng Nghyfrifiad 2021.

Byddwn yn cynhyrchu amcangyfrifon o'r boblogaeth breswyl fyrdymor, ar lefel awdurdod lleol ar gam un o'r amserlen datganiadau.

Byddwn yn parhau â'n cynnig i gynhyrchu setiau data ar lefel ranbarthol. Bydd y setiau data hyn yn darparu peth gwybodaeth ddemograffaidd, ddiwylliannol-gymdeithasol a marchnad lafur sylfaenol â sylwadau ategol. Byddwn yn cynhyrchu amcangyfrifon o'r boblogaeth breswyl fyrdymor, ar lefel awdurdod lleol. Anelwn at ryddhau'r setiau data hyn yn gynt, ar gam dau yn hytrach nag ar gam tri. Mae hyn oherwydd pwysigrwydd deall newidiadau mewn patrymau mudo o ganlyniad i bandemig y coronafeirws.

## Sail boblogaeth ail gyfeiriad

Mae'r boblogaeth ail gyfeiriad yn edrych ar nodweddion y boblogaeth ag ail gyfeiriad, gan gynnwys nodweddion yr ail gyfeiriad ei hun. Wrth gynhyrchu setiau data ar nodweddion y boblogaeth ag ail gyfeiriad, fe'u cyfrifwn yn lleoliad eu hail gyfeiriad yn hytrach nag yn y cyfeiriad lle maent yn preswylio fel arfer.

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr ddisgrifio eu dadansoddiad arfaethedig o'r sail boblogaeth ail gyfeiriad ac atebodd 67 o ymatebwyr. Nodwyd y byddai ein cynnig ar gyfer data ar lefel awdurdod lleol yn ddefnyddiol. Lle bo modd, gofynnodd yr ymatebwyr hefyd am ddata ar lefelau daearyddol is, megis data ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is fel bod modd dadansoddi ardaloedd lleol.

Nododd yr ymatebwyr y byddent yn defnyddio'r data hyn ar gyfer:

- rhagamcanu poblogaethau, yn enwedig o ran anghenion darpariaeth addysgol a'r galw am ddŵr
- paratoi strategaethau tai, yn enwedig o ran defnydd presennol ac argaeledd stoc dai
- asesu effaith pandemig y coronafeirws ar gartrefi myfyrwyr
- deall cywirdeb data treth gyngor cyfanredol
- deall effaith crynodiadau o ail gyfeiriadau ar gymunedau lleol, er enghraifft prisiau tai

Darparodd yr ymatebwyr anghenion amrywiol o ran ardaloedd gwledig a threfol. Er enghraifft, wrth gyfeirio at ardal fwy gwledig, nododd Cyngor Swydd Amwythig:

> “Mae Swydd Amwythig yn ardal arbennig sy'n denu twristiaid / pobl o'r ddinas sydd wedyn yn prynu ail gartrefi. Yn sgil COVID-19 a'r cynnydd mewn gweithio gartref mae'n debygol bod y boblogaeth ail fan preswylio wedi cynyddu. Bydd Cyfrifiad 2021 yn ein helpu i ddeall y boblogaeth hon a'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus. Mae data ar ail gartrefi / y boblogaeth hefyd yn cael eu dadansoddi yn yr asesiad o farchnad dai Swydd Amwythig, gan fod llawer o berchenogion ail gartrefi yn dewis ymddeol yma yn ddiweddarach.”

Ond, wrth gyfeirio at ardal drefol, nododd Cyngor Dinas Manceinion:

> “Bydd cydweithwyr mewn gwasanaethau Tai yn defnyddio data ar gartrefi gwyliau i gefnogi materion gydag eiddo a ddefnyddir fel cartrefi gwyliau byrdymor yng nghanol y ddinas. Bydd cyfeiriad y tu allan i'r tymor myfyrwyr yn ategu ein gwaith monitro ar effaith myfyrwyr ar y ddinas o ran cartrefi, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae prinder tai i deuluoedd.”

Gofynnodd yr ymatebwyr am setiau data a fyddai'n galluogi dadansoddiad manylach o'r cartrefi a nodwyd yn ail gyfeiriad ar gyfer un neu ragor o blant dibynnol. Gwnaethant ofyn am i'r setiau data alluogi nodi ail gyfeiriadau ar wahân ar gyfer:

- y rhiant neu'r rhieni lle cofnodir bod y plentyn yn byw fel arfer
- rhiant arall lle mae'r plentyn yn byw peth o'r amser

Gan gefnogi'r cais hwn, nododd y Fatherhood Institute:

> “Mae hwn yn fater o bwysigrwydd polisi allweddol, felly mae DWP yn cynhyrchu ystadegau ar Deuluoedd sydd wedi gwahanu. Mewn ffynonellau data blaenorol, mae gan tua draean o blant dibynnol rieni sydd wedi gwahanu; ac mae 30-50% o'r plant hynny yn aros dros nos gyda'u tad ‘nad yw'n breswylydd’ yn rheolaidd [...]. Gwnaeth Pwyllgor Cynghorol Nawdd Cymdeithasol dynnu sylw at y mater hwn [...]: "Nid yw'r termau rhiant “nad yw'n preswylio” ac “sy'n preswylio” […] yn adlewyrchu natur amrywiol trefniadau gofal a rennir, gan gynnwys gofal a rennir cyfartal”

Yn eu hadborth am y sail boblogaeth ail gyfeiriadau, trafododd yr ymatebwyr hefyd rai anghenion yn ymwneud â'r sail boblogaeth cartrefi. Gofynnwyd am amcangyfrifon o gyfanswm nifer yr ail fannau preswylio a'r math o ail fan preswylio. Hefyd mynegodd yr ymatebwyr ddiddordeb arbennig yn y boblogaeth breswyl arferol sydd ag ail gyfeiriadau ar gyfer gwaith neu astudio.

Ar gyfer y sail boblogaeth ail gyfeiriadau, dangosodd yr ymatebwyr angen am wybodaeth am breswylwyr ail gyfeiriadau:

- oedran
- statws cyflogaeth
- man preswylio arferol

Mewn ymateb, wrth lunio ein cynlluniau terfynol ar gyfer setiau data ar y boblogaeth ag ail gyfeiriad, byddwn yn blaenoriaethu setiau data ar oedran, statws cyflogaeth a man preswylio arferol. Yn gyffredinol byddwn yn cynhyrchu'r setiau data hyn ar lefel awdurdod lleol.

Byddwn yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu dadansoddiad manylach o'r cartrefi a nodwyd yn ail gyfeiriad ar gyfer un neu ragor o blant dibynnol. Bydd y dadansoddiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol inni gysylltu o fewn data'r cyfrifiad a bydd yn dibynnu ar ansawdd yr ymateb cyfeiriad ar gyfer ail gyfeiriad.

Byddwn hefyd yn asesu a allwn gynhyrchu unrhyw rai o'r setiau data hyn i lefel is o ddaearyddiaeth megis Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is.

## Data tarddiad-cyrchfan

Ni wnaethom ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer cynhyrchion tarddiad-cyrchfan yn yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, gwnaeth rhai defnyddwyr nodi anghenion ynghylch y cynhyrchion hyn.

Nododd yr ymatebwyr effaith symud cyfrifiad yr Alban i 2022. Gofynnwyd am i ddata ar lifau gynnwys tarddiadau neu gyrchfannau yn yr Alban lle bo modd, ar yr un lefel ddaearyddol ag yng Nghymru a Lloegr.

Lle bo modd, bwriadwn ddarparu setiau data tarddiad-cyrchfan Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gyda'i gilydd. Nid yw'n debygol y bydd lefelau daearyddol yr Alban, yn seiliedig ar ei chyfrifiad yn 2022, ar gael ar yr adeg y cynhyrchwn y rhain.

Mewn ymateb, bwriadwn ddarparu setiau data cychwynnol â lefelau daearyddol uwch yr Alban, na ddisgwylir iddynt newid. Dim ond ar gyfer cyfeiriadau flwyddyn yn ôl, cyfeiriadau gweithleoedd neu ail gyfeiriadau a restrwyd yn yr Alban y mae hyn. Pan fydd y wybodaeth ar gael, byddwn yn edrych i weld a yw hi'n ymarferol ymgorffori lefelau daearyddol manylach ar gyfer yr Alban yn y setiau data tarddiad-cyrchfan.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynhyrchion tarddiad-cyrchfan Cyfrifiad 2021 neu os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'n gweithgor, e-bostiwch census.outputs@ons.gov.uk.

## Microdata

Ni wnaethom ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer cynhyrchion microdata yn yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, yn rhan un o'n hymateb i'r ymgynghoriad, gwnaethom ymrwymo i ystyried pa mor ymarferol y byddai i gynhyrchu newidyn lefel cartref ar ymateb drwy ddirprwy yn y setiau data microdata diogel.

Gyda hyn, byddem yn ceisio nodi cartrefi lle gwnaeth rhywun o'r tu allan i'r cartref gwblhau ffurflen y cyfrifiad ar eu rhan. Gallai'r wybodaeth hon helpu i fynd i'r afael â'r angen am ddata ar allgáu digidol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynhyrchion tarddiad-cyrchfan Cyfrifiad 2021 neu os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'n gweithgor, e-bostiwch census.outputs@ons.gov.uk.

## Gwaith dadansoddi

Byddwn yn cynnal rhaglen dadansoddi fanwl ar gyfer y cyfrifiad yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr. Ochr yn ochr â chynhyrchu ffeithiau a ffigurau am y boblogaeth, bydd y rhaglen yn anelu at gynhyrchu ystadegau sy'n taflu goleuni ar faterion polisi cyhoeddus. Bydd hyn yn:

- darparu cipolwg ar y data
- helpu defnyddwyr i ddeall anghenion eu cymunedau'n well
- llywio penderfyniadau ar bolisïau a gwasanaethau yn y dyfodol

Gwnaethom ddarparu cynigion manwl ar gyfer y rhaglen ddadansoddi yn y ddogfen Census 2021 analysis programme proposals (PDF, 505KB) .

Gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr a yw'r cynlluniau hyn yn diwallu eu hanghenion. Yn gyntaf, drwy gwestiwn cyffredinol, ac yna drwy gwestiynau penodol ar draws rhannau perthnasol o'r ymgynghoriad. Wrth lunio ein rhaglen ddadansoddi derfynol, gwnawn ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad ochr yn ochr ag adborth o weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill.

O'r 220 o ymatebwyr a nododd a oedd y cynigion ar gyfer rhaglen dadansoddi'r cyfrifiad yn diwallu eu hanghenion:

- nododd 70% eu bod yn diwallu eu hanghenion yn llawn
- nododd 25% eu bod yn diwallu eu hanghenion yn rhannol
- nododd 5% nad oeddent yn diwallu eu hanghenion

Wrth ystyried ardaloedd penodol:

- nododd 79% o'r 204 o ymatebwyr fod y cynigion dadansoddi ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yn diwallu eu hanghenion yn llawn
- nododd 83% o'r 172 o ymatebwyr fod y cynigion dadansoddi ar gyfer cyn-filwyr lluoedd arfog y DU yn diwallu eu hanghenion yn llawn
- nododd 65% o'r 219 o ymatebwyr fod y cynigion dadansoddi ar gyfer grŵp ethnig yn diwallu eu hanghenion yn llawn
- nododd 70% o'r 142 o ymatebwyr fod y cynigion dadansoddi ar gyfer poblogaethau bach yn diwallu eu hanghenion yn llawn
- nododd 80% o'r 143 o ymatebwyr fod y cynigion dadansoddi ar gyfer sail boblogaeth amgen yn diwallu eu hanghenion yn llawn

Mae rhai o'r cynigion dadansoddi rydym yn bwriadu eu cyhoeddi ar ôl cam tri o'r amserlen datganiadau yn ei gwneud yn ofynnol inni gyfuno data Cyfrifiad 2021 â ffynonellau eraill o wybodaeth megis data gweinyddol. Nododd Llywodraeth Cymru mai dim ond cwmpasu poblogaeth Lloegr roedd rhai o'r setiau data gweinyddol a drafodwyd yn ei wneud. Gofynnodd inni archwilio prosiectau sy'n cyfuno ffynonellau data am boblogaeth Cymru yn fwy llawn.

Hefyd gwnaethom nodi pwysigrwydd gwaith dadansoddi i ddeall effeithiau'r cyfnod hwn o newid cymdeithasol ac economaidd.

Mewn ymateb, byddwn yn archwilio potensial cyfuno data Cyfrifiad 2021 â setiau data gweinyddol am boblogaeth Cymru

Byddwn yn sicrhau bod ein cynlluniau yn cynnwys gwaith dadansoddi yn edrych ar draws pynciau ar effaith newidiadau mawr megis Brexit a phandemig y coronafeirws (COVID-19).

Byddwn yn diweddaru ein rhestr o adroddiadau dadansoddiad arfaethedig i adlewyrchu ein cynlluniau wedi'u diweddaru. Byddwn yn gwneud hyn fesul cam. Dechreuwn drwy

gyhoeddi'r rhestr o'r adroddiadau rydym yn bwriadu eu cyhoeddi o fewn y brif amserlen datganiadau erbyn dechrau haf 2022. Bydd rhestr lawn, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer adroddiadau dadansoddi yn trafod data'r DU, ar gael erbyn diwedd cam tri yr amserlen datganiadau.

## Dosbarthiad gwledig neu drefol o ardaloedd

Croesawodd yr ymatebwyr y dadansoddiadau arfaethedig a oedd yn cynnwys trafod y gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y rhain yn diwallu eu hanghenion yn llawn a gofynnwyd am i ddadansoddiadau eraill ystyried y dosbarthiad hwn o ardaloedd. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Dwyrain Swydd Gaer:

> “Yn arbennig, mae'n bwysig inni ddeall sut mae nodweddion tai ein hardaloedd gwledig yn wahanol i ardaloedd trefol, fel ein bod yn gallu teilwra darpariaeth tai a pholisïau tai yn briodol. Felly byddai cymharu ardaloedd gwledig a threfol o ran tai gorlawn, deiliadaeth tai a systemau gwresogi yn ddefnyddiol. Yn yr un modd, mae angen inni sicrhau bod ein poblogaeth wledig yn gallu achub ar gyfleoedd cyflogaeth yn hawdd, felly byddai gallu cymharu ardaloedd gwledig a threfol o ran gweithgarwch economaidd (cyflogedig/di-waith/anweithgar yn economaidd), lefelau cymwysterau, dull o deithio i'r gwaith a mynediad i gar/fan o fudd mawr.”

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried pa bynciau a fyddai'n cael budd o ddadansoddi'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol.

## Demograffeg ac ail gyfeiriadau

Gofynnodd yr ymatebwyr am ddadansoddiad o nifer y plant sy'n byw gyda chyplau o'r un rhyw. Wrth gyfiawnhau'r cais hwn, nododd Cyngor Swydd Amwythig:

> “Gorau po fwyaf o wybodaeth sydd ar gael o ran gofynion addysg bersonol, iechyd, gymdeithasol ac economaidd addysg rhyw mewn ysgolion. Yna gallai addysgwyr ddefnyddio'r gwaith dadansoddi / data lleol a gallent hefyd yn ddelfrydol ddefnyddio'r data hyn i groesgyfeirio â'r rhai a fabwysiadwyd gan gyplau o'r un rhyw neu gan bobl sengl sydd â chyfeiriadeddau rhywiol gwahanol. Gallai hyn helpu i annog rhagor o ddarpar rieni maeth a rhieni mabwysiadu i ddod ymlaen ar sail y ffaith y bydd yr awdurdod lleol yn cefnogi'r fath rieni ac yntau eisoes wedi cefnogi eraill yn y broses hon.”

Hefyd gofynnwyd am waith dadansoddi ar gartrefi a nodwyd yn ail gyfeiriad ar gyfer un neu ragor o blant dibynnol. Trafodwn y cais hwn yn yr adran Sail boblogaeth ail gyfeiriad. Bydd y dadansoddiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol inni gysylltu o fewn data'r cyfrifiad a bydd yn dibynnu ar ansawdd yr ymateb cyfeiriad ar gyfer ail gyfeiriad.

Mewn ymateb, gwnawn ymgorffori trafodaeth am y pynciau hyn yn ein rhaglen ddadansoddi.

## Mudo

Gwnaeth unigolyn a oedd yn ymateb mewn rhinwedd broffesiynol ofyn am fwy o bwyslais ar waith dadansoddi yn cwmpasu'r amser ers mudo.

Hefyd, gofynnodd Cyngor Dinas Manceinion am waith dadansoddi ar boblogaethau o wledydd lle ceir gwrthdaro. Wrth gyfiawnhau'r cais hwn, nododd:

> “Mae gennym gymuned Arabaidd gynyddol, y bydd rhai ohonynt yn gefnog iawn ond byddwn hefyd wedi cael llawer o ffoaduriaid a cheiswyr lloches o wledydd lle ceir gwrthdaro heb lawer o wybodaeth amdanynt, felly byddai unrhyw boblogaethau bach pellach o wledydd lle siaredir Arabeg, yn enwedig Affricanaidd megis Libya a'r Aifft, a'r Dwyrain Canol megis Syria, Irac ac Iran, o fudd. [...] O bosibl gwledydd eraill sydd mewn argyfwng megis Albania neu Belarws, Ethiopia neu Sudan. Mae hyn i gyd er mwyn inni allu ymateb i argyfyngau dramor a all effeithio ar ein trigolion ni.

Mewn ymateb, gwnawn anelu at ymgorffori trafodaeth am fudo o wledydd lle ceir gwrthdaro yn ein rhaglen ddadansoddi. Bydd hyn yn amodol ar reoli datgelu ystadegol.

## Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd

Er i'r ymatebwyr groesawu peth o'r gwaith dadansoddi a gynlluniwud ar grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd, nodwyd pwyslais ar gymunedau penodol o fewn y boblogaeth.

O'r wybodaeth a ddarparwyd yn opsiynau ymateb holiadur y cyfrifiad, gofynnodd yr ymatebwyr am ddadansoddiad o grwpiau ethnig yn cynnwys:

- Arabaidd
- Tsieineaidd
- Pacistanaidd

O'r wybodaeth a ddarparwyd am hunaniaeth ym meysydd ysgrifennu holiadur y cyfrifiad, gofynnodd yr ymatebwyr am ddadansoddiad o grwpiau ethnig yn cynnwys:

- Dwyrain Ewropeaidd
- Kashmiri
- Lladin Americanaidd
- Nigeriaidd
- Pashtun
- Rwmanaidd

- Dynion Sioe

Yr angen lle cafwyd y cyfiawnhad mwyaf oedd ar gyfer y boblogaeth Dyn Sioe. Er enghraifft, nododd Cymdeithas Annibynnol y Dyn Sioe:

> "Mae ein cred y dylai ystadegau swyddogol fel hyn adlewyrchu'r ffaith bod pobl y gwahaniaethir yn eu herbyn yn seiliedig ar dras, yn enwedig gwahaniaethu seiliedig ar gast ac arferion cysylltiedig (a wynebir gan Ddynion Sioe mewn ceisiadau cynllunio er enghraifft, ac a wynebir drwy hynny mewn unrhyw newidiadau newydd i ddeddfwriaeth o'r fath), mewn nifer o gyd-destunau mewn sefyllfa ymylol iawn ac mae angen talu sylw penodol iddynt. Heb gydnabyddiaeth o'r fath bydd Dynion Sioe yn parhau i ddioddef anghysondeb yn y ffordd y caiff unrhyw ddeddfwriaeth gynllunio ei rhoi ar waith, er enghraifft, gan awdurdodau lleol, ac wrth wneud hynny ni chânt fwynhau hawliau dynol mewn modd cyfartal.
>
> Mae cysylltiad agos rhwng y cwestiynau niferus sydd ynghlwm wrth hunaniaeth, diwylliant a ffordd o fyw Dynion Sioe a nomadiaeth ac nid ydynt yn destun arolwg ar yr un pryd byth [...] ac mae'n enghraifft arall o sut mae busnes a threfniadau byw unigryw Dynion Sioe yn codi cymaint o gwestiynau yn ddeddfwriaethol."

Gofynnodd yr ymatebwyr am ddadansoddiadau pellach o grŵp ethnig yn erbyn dangosyddion anghydraddoldeb megis:

- iechyd
- tai
- addysg
- cyflogaeth

Er enghraifft, nododd Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet:

> "Mae llawer o'r themâu mae gennym ni ddiddordeb ynddynt eisoes wedi'u nodi yn y cynigion dadansoddi, ond heb ethnigrwydd fel nodwedd. Teimlwn y byddai'n haws cynnwys dadansoddiad o ethnigrwydd yn y cynlluniau presennol hyn na dyblygu'r cynnyrch hyn â lens ethnigrwydd penodol. Mae hefyd yn dangos bod gan ddadansoddiadau o ethnigrwydd yr un lefel o barch â nodweddion eraill o'r boblogaeth. […]
>
> Mae statws y farchnad lafur yn ôl ethnigrwydd yn bwnc pwysig. Yn flaenorol rydym wedi defnyddio data APS ar anweithgarwch economaidd i lywio gwaith polisi yn helpu menywod De Asiaidd i gael gwaith. Byddai data'r cyfrifiad yn darparu data cipolwg o ansawdd uwch nag arolygon safonol"

Hefyd gofynnodd yr ymatebwyr am ddadansoddiad o rai poblogaethau crefyddol lle rhestrwyd eu crefydd fel opsiwn ymateb ar y ffurflen, yn enwedig ar gyfer y boblogaeth Fwslimaidd. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Dwyrain Swydd Gaer:

> “Fel y bydd SYG yn ei wybod, dynododd Cyfrifiad 2011 fod gan Gymru a Lloegr 2.7 o Fwslimiaid, gan olygu mai dyma'r grŵp crefyddol lleiafrifol mwyaf o bell ffordd (wedi'i ddilyn gan Hindŵaid - 817,000 yn 2011 - na fwriedir cynnal dadansoddiad ohonynt yng Nghyfrifiad 2021 ychwaith); yn Nwyrain Swydd Gaer, Mwslimiaid (2,400 i gyd) oedd y lleiafrif crefyddol mwyaf hefyd, wedi'i ddilyn gan Hindŵaid (1,300). Wrth raglennu ei dadansoddiad o grwpiau lleiafrifol, dylai SYG hefyd flaenoriaethu'r grwpiau hynny y mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod yn wynebu risg o wahaniaethu a/ neu allgau - sy'n ategu ymhellach yr achos dros ddadansoddi'r boblogaeth Fwslimaidd.”

Hefyd, gofynnodd yr ymatebwyr am rai dadansoddiadau ynghylch y wybodaeth a roddwyd yn y meysydd ysgrifennu ar gyfer crefydd, megis Ravidassia.

Wrth drafod cynnig ar gyfer dadansoddi'r rhyngweithio rhwng crefydd a grŵp ethnig yn fwy cyffredinol, nododd Cyngor Mwslimaidd Prydain:

> “Hoffem archwilio'r gydberthynas rhwng crefydd ac ethnigrwydd o ran canlyniadau economaidd-gymdeithasol, yn enwedig yn y farchnad lafur. Mae croesdablu sy'n darparu gwell dadansoddiad ethnig o gategorïau ethnigrwydd presennol yn ôl crefydd a newidynnau eraill o bwys arbennig i Fwslimiaid gan fod llawer o grwpiau wedi'u 'cuddio' o dan gategorïau mantell megis gwyn neu wyn arall. Dengys astudiaethau fod Mwslimiaid o ystod eang o grwpiau, megis Arabiaid, Iraniaid a Dwyrain Ewropeaid yn dosbarthu eu hunain o dan y fath bennawd bras pan ofynnir iddynt wneud hynny. Eto i gyd nid yw hyn yn ein galluogi i archwilio anfantais ymhlith cymunedau ethnig Mwslimaidd penodol.”

Mewn ymateb, gwnawn ystyried pa bynciau ychwanegol a fyddai'n cael budd o ddadansoddi gan ystyried grŵp ethnig a grŵp crefyddol. Hefyd gwnawn ystyried yr angen am ddadansoddiad penodol o gymunedau ethnig a chrefyddol.

## Sgiliau iaith

Croesawodd yr ymatebwyr y dadansoddiadau arfaethedig o sgiliau iaith. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd awgrymu dimensiynau ychwanegol i archwilio o safbwynt anghenion darparu gwasanaethau. Er enghraifft, nododd Migration Yorkshire:

> “Dylai gwaith dadansoddi Cyfrifiad 2021 ddarparu manylion am ieithoedd heblaw am Saesneg yn y dadansoddiad 'Hyfedredd Saesneg'. Yng Nghyfrifiad 2011, dim ond nodi niferoedd/cyfrannau'r bobl nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf a wnaeth y data, heb roi unrhyw wybodaeth am yr iaith gyntaf honno. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr o ran defnydd. Gofynnir inni'n gyson am anghenion iaith cymunedau mudol, boed mewn deunyddiau wedi'u cyfieithu sy'n targedu grwpiau agored i niwed, neu wrth ddarparu cymorth Saesneg.”

Cais arall a wnaed gan yr ymatebwyr oedd am ddadansoddi poblogaethau hŷn a phreswylwyr cartrefi gofal yn ôl prif iaith. Nododd Sefydliad Datblygu Kashmir:

> “Mae hyn yn bwysig oherwydd prin yw sgiliau Saesneg llawer o wladolion Kashmiri Prydeinig hŷn ac awgrymodd ein hymchwil a'n gwybodaeth am ein cymunedau, oherwydd dementia a ffactorau eraill, fod llawer o oedolion hŷn sydd â sgiliau Saesneg cyfyngedig yn dechrau defnyddio eu hiaith wreiddiol (plentyndod) eto, Pahari neu Mirpuri, ac ni allant siarad na deall Saesneg o gwbl.
>
> O ganlyniad, mae'r diffyg cyfathrebu yn yr iaith y gallant ei siarad neu ei deall yn un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at y ffaith eu bod yn sâl am fwy o amser neu nad ydynt yn cael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol priodol o gymharu â'u cyfoedion sydd mewn amgylchiadau tebyg.”

O ran dadansoddi'r gymuned Gymraeg, gofynnodd yr ymatebwyr am ddadansoddi gwybodaeth am ail gartrefi hefyd. Wrth gyfiawnhau'r cais hwn, nododd Llywodraeth Cymru:

> “Un maes o ddiddordeb polisi cynyddol ar hyn o bryd yw ail gyfeiriadau/cartrefi gwyliau, yn enwedig mewn cymunedau Cymraeg. Byddai unrhyw beth y gallai Cyfrifiad 2021 ei ddarparu yn y cyd-destun hwn o fudd er mwyn inni ddeall y gydberthynas rhwng y ddau, a chynllunio unrhyw ymyriadau polisi perthnasol”

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried hyfedredd Saesneg a phrif iaith gyda'i gilydd yn ein rhaglen ddadansoddi lle bo modd. Byddwn hefyd yn ystyried cynnwys prif iaith a hyfedredd Saesneg wrth ddadansoddi'r boblogaeth cartrefi gofal.

Byddwn yn dadansoddi dosbarthiad cartrefi gwyliau, gan gynnwys y rhai mewn cymunedau Cymraeg.

## Iechyd ac anabledd

Croesawodd yr ymatebwyr ddadansoddiadau arfaethedig o iechyd ac anabledd. Hefyd gwnaethant ofyn inni archwilio rhai dimensiynau ychwanegol. Er enghraifft, o ran symudedd cymdeithasol, gofynnodd Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet inni ystyried grŵp ethnig yn ogystal ag iechyd. Nododd:

> “Mae RDU wedi bod yn gwneud gwaith dadansoddi ar symudedd cymdeithasol yn ôl ethnigrwydd gyda SYG cyn y pandemig ac mae'n dal i fod â diddordeb mewn unrhyw ganfyddiadau yn ymwneud â sut mae symudedd cymdeithasol yn amrywio yn ôl grŵp ethnig. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn yr elfen effeithiau iechyd oherwydd mae'r 18 mis diwethaf wedi tanlinellu pwysigrwydd deall a datrys iechyd.”

Gofynnodd yr ymatebwyr inni ddadansoddi iechyd ac anabledd ar draws ystod ehangach o bynciau. Yn eu plith mae'r canlynol:

- demograffeg
- addysg
- cyn-filwyr lluoedd arfog y DU

Ar gyfer addysg, nododd Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet:

> "Yn unol â'r agenda ffyniant bro, byddai'n werthfawr deall amrywiad daearyddol yn y lefel uchaf o gymhwyster a ddelir, wedi'i ddadgyfuno yn ôl statws anabledd (EDU-02). Ymhellach, mae pobl anabl yn anghymesur yn fwy tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau, felly mae'n bwysig deall effaith dim cymwysterau ar gyfleoedd mewn bywyd yn ôl statws anabledd (EDU-09)."

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried pa bynciau ychwanegol a fyddai'n cael budd o ddadansoddi gan ystyried iechyd ac anabledd.

## Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd

Cyfrifiad 2021 yw'r cyfrifiad cyntaf yng Nghymru a Lloegr i ofyn cwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd. O'r herwydd, nododd yr ymatebwyr bod yr holl waith dadansoddi ar y pynciau hyn yn bwysig.

Trafododd yr ymatebwyr yr angen i ddadansoddi'r dosbarthiadau manwl yn deillio o'r ymatebion ysgrifenedig i'r ddau gwestiwn. Hefyd nodwyd y rhyngweithio rhwng rhyw a hunaniaeth o ran rhywedd.

Gofynnodd rhai ymatebwyr inni drafod cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd mewn perthynas â'r holl bynciau eraill a gasglwyd yng Nghyfrifiad 2021. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd gan yr ymatebwyr yn canolbwyntio ar feysydd anghydraddoldeb, gan gynnwys:

- iechyd
- tai
- addysg
- cyflogaeth

Er enghraifft, nododd Llywodraeth Cymru:

> "Mae angen dadansoddiadau o gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yn ôl cymhwyster a gofal di-dâl […]. Eto, mae hyn er mwyn deall materion systemig posibl ar gyfer y ddau grŵp hyn yn y meysydd hyn, a sut y gallwn dargedu gwasanaethau/polisïau i fynd i'r afael â'r rhain os oes gwahaniaethau o fewn y poblogaethau hyn o gymharu ag eraill. Hefyd, mae diddordeb mewn deall ymatebion i'r cwestiwn gwirfoddol ar grefydd, er mwyn deall a oes unrhyw anghysondebau rhwng grwpiau.

Byddwn yn cynhyrchu dadansoddiad yn trafod dosbarthiadau manwl cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd.

Byddwn yn rhoi pwyslais ar feysydd o anghydraddoldeb posibl wrth inni ddadansoddi cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd.

## Cyn-filwyr lluoedd arfog y DU

Cyfrifiad 2021 yw'r cyfrifiad cyntaf yng Nghymru a Lloegr i ofyn a oedd pobl wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn flaenorol. Oherwydd hyn, roedd yr ymatebwyr yn croesawu cynlluniau dadansoddi yn cwmpasu meysydd o anghydraddoldeb posibl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- iechyd
- tai
- addysg
- cyflogaeth

Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir y Fflint:

> “Rydym wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog ac rydym yn ymrwymedig i nodi a diwallu anghenion y gymuned Lluoedd Arfog. Bydd deddfwriaeth arfaethedig y Lluoedd Arfog yn ei gwneud yn ofynnol inni roi sylw priodol i anghenion cyn-filwyr a'r gymuned Lluoedd Arfog. Bydd y data hyn yn cyfrannu at ddeall y gymuned Lluoedd Arfog o fewn yr ardal awdurdod lleol a chynllunio i ddiwallu ei hanghenion.”

Yng nghynigion yr ymgynghoriad, gwnaethom ddweud ein bod yn bwriadu cyhoeddi dadansoddiad o boblogaeth cyn-filwyr lluoedd arfog y DU, yn ôl iechyd ac anabledd, ar ôl mis Mawrth 2023. Y rheswm dros hyn yw ein bod wedi bwriadu cyfuno data Cyfrifiad 2021 â data ar hunanladdiadau, yn y dadansoddiad hwn. Mae'r darn hwn o waith dadansoddi yn gymhleth a bydd yn cymryd mwy o amser.

Fodd bynnag, gofynnodd yr ymatebwyr inni wneud gwaith dadansoddi ar boblogaeth cyn-filwyr lluoedd arfog y DU yn ôl iechyd ac anabledd, yn gynharach na'r bwriad gwreiddiol. Byddent yn defnyddio'r dadansoddiad hwn i'w helpu i fodloni gofynion y Ddyletswydd Sylw Priodol a geir ym Mil y Lluoedd Arfog.

Nododd yr ymatebwyr anghenion penodol y gymuned Gurkha Nepalaidd yn y DU o fewn poblogaeth cyn-filwyr lluoedd arfog y DU. Nododd Cymdeithas Cyfeillion Nepalaidd y DU:

> “Rydym yn ymwybodol bod gan gymuned Gurkha Nepalaidd y DU nifer o is-boblogaethau mawr â gwahanol brofiadau o gymorth ar integreiddio. Mae hefyd

> yn cynnwys teuluoedd Gurhkas presennol a blaenorol, sydd ag anghenion cymorth ac integreiddio penodol ychwanegol.”

Mewn ymateb, gwnawn ddadansoddi poblogaeth cyn-filwyr lluoedd arfog y DU yn ôl iechyd ac anabledd yn gynt, o gam tri i gam dau. Byddwn yn mynd ati i ddadansoddi data ar hunanladdiadau ar y cyd â data Cyfrifiad 2021 ar wahân i'r dadansoddiad hwn. Hefyd awn ati i ddadansoddi'r boblogaeth hon yn ôl grŵp ethnig.

# Y cyfrifiad yn ystod cyfnod o newid: casgliadau

Ar hyn o bryd, rydym mewn cyfnod o newid economaidd a chymdeithasol mawr. Nid dim ond pandemig y coronafeirws (COVID-19) sy'n gyfrifol am y newid hwn; mae ffactorau eraill megis Brexit yn gyfrifol amdano hefyd. Mae'r ffactorau hyn wedi effeithio ar grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol.

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr sut mae eu hanghenion data wedi newid ers inni ymgynghori â nhw ddiwethaf. Canolbwyntiwyd ar y meysydd lle roeddem yn rhagweld y newid mwyaf, gan gynnwys man preswylio a'r farchnad lafur.

Hefyd rhoddwyd y cyfle i ddefnyddwyr ddweud wrthym am effeithiau ar anghenion eraill a fodolai eisoes, neu am anghenion newydd y gallem eu diwallu o bosibl gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021.

## Man preswylio

Gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn rhagweld bod angen unrhyw ddata ychwanegol ar fan preswylio, i ategu data Cyfrifiad 2021. O'r 167 o ymatebwyr a atebodd, nododd 36% eu bod yn rhagweld hynny.

Roedd gennym ddiddordeb ym marn yr ymatebwyr ar ba ddata roeddent yn meddwl y gallent eu defnyddio. Roedd yr anghenion a restrwyd ganddynt yn ymwneud â deall y poblogaethau preswylwyr arferol a phreswylwyr byrdymor. Mae gan yr ymatebwyr ddiddordeb mewn patrymau preswylio myfyrwyr, mudwyr a phobl ddigartref. Rydym wedi trafod yr anghenion hyn mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn.

Prif anghenion yr ymatebwyr yw deall effaith pandemig y coronafeirws ar batrymau preswylio, sy'n bwydo i mewn i amcangyfrifon o'r boblogaeth a ddefnyddir i ddyrannu cyllid.

Er enghraifft, nododd Cyngor Sir Caergrawnt:

> “Mae angen hyn i lywio amcangyfrifon a rhagolygon o'r boblogaeth, sydd eu hangen er mwyn darparu gwasanaethau yn gywir ac mewn ffordd wedi'i thargedu. Mae amcangyfrifon cywir o'r boblogaeth mewn blynyddoedd rhwng cyfrifiadau yn hollbwysig, oherwydd cânt eu defnyddio i ddyrannu cyllid llywodraeth ganolog yn lleol. Maent hefyd yn bwydo i mewn i amcangyfrifon ac amcanestyniadau o dai a ddefnyddir i asesu'r angen am dai yn y dyfodol mewn polisïau cynllunio lleol."

O'r 146 o ymatebwyr a nododd a oedd ffynonellau data amgen yn bodoli eisoes a fyddai'n diwallu eu hanghenion yn llawn neu'n rhannol, nododd 23% fod rhai ar gael. Awgrymwyd y ffynonellau data amgen hyn:

- cofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

- cofnodion cleifion y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- cronfa ddata genedlaethol disgyblion yr Adran Addysg

O'r 153 o ymatebwyr a nododd pa agwedd ar ddylunio data oedd bwysicaf, blaenoriaethodd 51% ddata ar gyfer ardaloedd daearyddol bach.

## Ein hymateb

### Cyfrifiad 2021

Yn gyntaf oll, ein nod ar gyfer y cyfrifiad yw bod ein hamcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi yn cyfrif pawb unwaith, a'u cyfrif yn y lle cywir. Ar ôl cynnal proses gasglu'r cyfrifiad, anelwn at gyflawni hyn drwy lunio, glanhau, cwblhau a chroeswirio'r data. Disgrifiwn y broses hon ym mlog Ystadegol Gwladol Census 2021: the count is done, the data is in, so what happens next?.

Cyn cam casglu data Cyfrifiad 2021, nodwyd y byddai'n heriol cyfrif myfyrwyr yn gywir. Cyhoeddwyd adroddiad ar How we are ensuring an accurate estimate of students lle amlinellwyd sut y gwnaethom ateb yr her honno'n llwyddiannus wrth gasglu data. Ers hynny, rydym wedi bod yn defnyddio data a gasglwyd ar fyfyrwyr yn eu cyfeiriad y tu allan i'r tymor i sicrhau ein bod yn eu cyfrif yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor.

Am y tro cyntaf, gwnaethom hefyd ofyn i awdurdodau lleol ein helpu'n uniongyrchol gyda sicrhau ansawdd. Byddwn yn rhoi mynediad cyfyngedig iddynt i amcangyfrifon o'r cyfrifiad sydd dros dro ac yn gyfanredol ar gyfer eu hawdurdod lleol. Dim ond at ddiben sicrhau ansawdd y bydd hyn.

Hefyd rydym wedi bod yn edrych ar y newid posibl mewn patrymau mudo. Fel y nodwyd mewn blog Ystadegol Gwladol, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o adael y DU mewn niferoedd mawr yn 2020.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, rydym yn hyderus y byddwn yn cyfrif pawb yn y lle cywir. Bydd gan ein seiliau poblogaeth amgen ddefnyddiau newydd hefyd, gan helpu defnyddwyr i ddeall sut mae patrymau preswylio yn newid mewn pandemig.

Pan gyhoeddwn amcangyfrifon Cyfrifiad 2021, bydd defnyddwyr yn gallu archwilio'r data a dogfennaeth sicrhau ansawdd ategol. Bydd hyn yn eu galluogi i ddeall ansawdd y data.

### Cynnyrch ystadegol eraill

Fodd bynnag, dim ond unwaith bob 10 mlynedd y cynhelir y cyfrifiad. Mae'n darparu cipolwg ar ddiwrnod mewn amser. Yn y byd modern cyflym hwn rydym yn byw ynddo, mae angen dealltwriaeth fwy amserol a chywir arnom o'n poblogaeth yn barhaus.

Byddwn yn gwneud hyn i ddechrau drwy gyhoeddi ein hamcangyfrifon canol blwyddyn swyddogol o'r boblogaeth yn ddiweddarach eleni. Bydd yr amcangyfrifon hyn yn ymwneud â'r boblogaeth ar 30 Mehefin 2021 a byddant yn dangos sut mae'r boblogaeth wedi newid yn genedlaethol ac yn lleol ers Diwrnod y Cyfrifiad. Byddant hefyd yn ychwanegu at y gyfres amser hir sydd gennym o'r boblogaeth a sut mae wedi newid dros y degawdau.

Wrth fynd ymlaen, rydym am ddarparu ystadegau o'r boblogaeth yn gyflymach ac yn amlach. Bwriadwn drawsnewid ein hystadegau o'r boblogaeth a mudo gan ddefnyddio ffynonellau gweinyddol. Drwy gydol y flwyddyn hon, byddwn yn parhau i gyhoeddi diweddariadau ymchwil, gan adeiladu tuag at broffiliau oedran a rhyw misol ‘arbrofol’ o'r boblogaeth yn ymwneud â 2022. Disgrifiwn ein cynlluniau'n fanylach yn y postiad blog Ystadegol Gwladol ar Building the richest picture of our population.

## Y farchnad lafur

### Gweithgarwch economaidd a chyflogaeth

Gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn rhagweld bod angen data ychwanegol ar weithgarwch economaidd a chyflogaeth i ategu data Cyfrifiad 2021. Gwnaethom hefyd ofyn iddynt pa ddata ychwanegol y gallai fod eu hangen arnynt yn eu barn nhw.

O'r 150 o ymatebwyr a nododd a oeddent yn rhagweld bod angen data ychwanegol ar weithgarwch economaidd a chyflogaeth, dywedodd 47% eu bod yn rhagweld hynny. Nododd yr ymatebwyr fod angen y data hyn arnynt i'w helpu i ddeall effaith:

- pandemig y coronafeirws (COVID-19)
- Brexit
- ffyniant bro

Prif angen yr ymatebwyr yw olrhain newidiadau mewn gweithgarwch economaidd a chyflogaeth dros amser. Bydd hyn yn eu helpu i ddeall effaith pandemig y coronafeirws a chefnogi'r adferiad economaidd. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Swydd Gaerloyw:

> “Bydd angen gwybodaeth arnom am batrymau gwaith arferol pobl, e.e. oriau safonol, ble maent yn gweithio fel arfer (data teithio i'r gwaith), dull o deithio i'r gwaith. Mae hyn i gyd yn hanfodol i gynllunio trafnidiaeth a bydd y wybodaeth a gasglwyd yn ystod pandemig wedi'i gwyro, felly mae gwybodaeth arall yn hanfodol. Hefyd hwyrach y bydd ymddygiad pobl wedi newid o ganlyniad i'r pandemig felly bydd yn bwysig deall hyn"

Angen eilaidd yr ymatebwyr oedd am ddata ar y boblogaeth ar ffyrlo. Diben hyn oedd monitro'r economi er mwyn asesu adfer o bandemig y coronafeirws. Mae'r boblogaeth ar

ffyrlo yn is-adran o'r boblogaeth “I ffwrdd o'r gwaith dros dro”. Trafodwn anghenion yr ymatebwyr am ddata ar y boblogaeth ar ffyrlo yn yr adran I ffwrdd o'r gwaith dros dro.

O'r 130 o ymatebwyr a nododd a oedd ffynonellau data amgen yn bodoli eisoes a fyddai'n diwallu eu hanghenion yn llawn neu'n rhannol, nododd 45% fod rhai ar gael. Awgrymodd yr ymatebwyr ffynonellau data amgen. Y ffynonellau a grybwyllwyd fwyaf oedd arolygon SYG. Mae'r rhain yn cynnwys:

- yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
- yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion
- Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth
- yr Arolwg o'r Llafurlu

Er enghraifft, nododd y Sefydliad Iechyd:

> “Byddem yn edrych ar wybodaeth y cyfrifiad ar y cyd â'r Arolwg o'r Llafurlu, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a Deall Cymdeithas / Understanding Society. Byddai data'r cyfrifiad yn helpu i ddilysu pwysoliadau arolygon, a byddai hyn ar y cyd â data arolwg mwy diweddar yn meithrin dealltwriaeth o'r farchnad lafur.”

Hefyd trafododd yr ymatebwyr ddata ffyrlo gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) fel ffynhonnell bwysig o wybodaeth ategol. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn cyfuno data CThEM â data ar fudd-daliadau.

O'r 137 o ymatebwyr a nododd pa agwedd ar ddylunio data oedd fwyaf pwysig:

- blaenoriaethodd 53% ddata wedi'u croesdablu â newidynnau eraill
- blaenoriaethodd 50% ddata ar gyfer ardaloedd daearyddol bach

Darparodd Cyngor Dinas Manceinion beth resymeg am hyn:

> “Mae angen data ar gyfer ardaloedd bach oherwydd mae ein hardaloedd yn amrywio'n fawr o ran cyfraddau gweithgarwch economaidd a chyflogaeth, gyda rhai ardaloedd ag incwm a chyfraddau cyflogaeth isel iawn wrth ymyl ardaloedd cefnog lle mae'r trigolion mewn swyddi rheoli a phroffesiynol. Os na ddefnyddir ardaloedd bach yna ceir cyfartaledd ar gyfer ardal ddaearyddol fwy, sy'n cuddio ardaloedd lle mae angen inni ganolbwyntio ein strategaethau a'n polisïau economaidd, yn ogystal â'n galluogi i lywio ein strategaeth dlodi a lleihau'r bylchau rhwng cyflogau trigolion a'r rhai sy'n gweithio ym Manceinion ond yn byw y tu allan i'r ddinas.”

## Teithio i'r gwaith

Gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn rhagweld bod angen unrhyw ddata ychwanegol ar deithio i'r gwaith i ategu data Cyfrifiad 2021. O'r 159 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 53% eu bod yn rhagweld hynny.

Gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr nodi pa ddata sydd eu hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion. Trafododd yr ymatebwyr ystod eang o anghenion, yn canolbwyntio'n bennaf ar gynllunio trafnidiaeth a deall allyriadau carbon. Gwnaethant gydnabod y defnydd o ddata Cyfrifiad 2021 i ddeall patrymau trafnidiaeth yn ystod pandemig. Fodd bynnag, gwnaeth yr ymatebwyr hefyd drafod bod angen iddynt ddeall sut mae'r patrymau hyn yn dal i newid. Gan grynhoi'r ystod ehangach o ffactorau cyflawnadwy y byddai'r wybodaeth hon yn bwydo i mewn iddynt, nododd Cyngor Sir Hampshire:

> "Drwy gasglu data rheolaidd a chyfnodol, byddai modd i Awdurdodau Iechyd Lleol fynd i'r afael â'r newid mewn ymddygiad teithio yn ystod y pandemig. Fel set ddata gadarn, defnyddir y data ar deithio i'r gwaith ar gyfer llawer o weithgareddau cynllunio trafnidiaeth, gan gynnwys:
>
> - Cynllunio trafnidiaeth - gwybodaeth gyfredol am ffyrdd o deithio, a phellteroedd a phatrymau teithio, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu cynlluniau a dangos tystiolaeth ar gyfer cynigion cyllido
> - Polisi trafnidiaeth – cefnogi Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol, a pholisïau lleihau carbon a theithio llesol
> - Strategaethau trafnidiaeth ar lefelau dosbarth, is-ranbarthol, is-ddosbarth a choridor
> - Cynllunio gwaith datblygu, cynlluniau teithio a chynlluniau cymdogaeth – data tarddiad a chyrchfan cadarn er mwyn dangos effaith gwaith datblygu arfaethedig ar y rhwydwaith priffyrdd a llywio penderfyniadau cynllunio lleol
> - Achosion Busnes Trafnidiaeth a Chyllid i'r Adran Drafnidiaeth
> - Cynlluniau Trafnidiaeth - Data'r cyfrifiad ar gyfer ardaloedd bach (data ar fod yn berchen ar gar a theithio i'r gwaith) er mwyn llywio llawer o gynlluniau trafnidiaeth
> - Monitro a Gwerthuso
> - Meincnodi – Mae argaeledd data cadarn ledled y sir yn fodd i werthuso polisïau a strategaethau trafnidiaeth dros amser.
> - Modelu trafnidiaeth strategol – sicrhau bod modelau trafnidiaeth yn gyfredol â data ar batrymau teithio a dulliau o deithio."

Maent yn mynd ymlaen i ddisgrifio'r amrywiaeth o ddefnyddiau ar gyfer modelu trafnidiaeth strategol.

Canolbwyntiodd ymatebwyr eraill ar fuddiannau cynhyrchu'r ffactorau cyflawnadwy hyn i gymdeithas. Er enghraifft, nododd Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf:

> "Bydd y cynnydd mewn swyddi yng nghraidd y gytref dros y ddau ddegawd diwethaf yn arbennig wedi newid patrymau teithio i'r gwaith ond yn arbennig faint y siwrneiau i'r gwaith (cyn COVID-19) i'r canol. Mae gennym ni uchelgeisiau a blaenoriaethau allweddol ar wella trafnidiaeth megis gwella cyfleoedd seiclo felly

mae angen y data manwl arnom i gynllunio'r gwelliannau hyn yn y ffordd fwyaf buddiol. Bydd y data ar deithio yn arbennig o ddefnyddiol wrth edrych ar gynlluniau i ehangu'r system Metrolink ymhellach hefyd."

Hefyd, nododd Liftshare a Mobilityways:

> “Mae ein gwaith ni yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio cymudo. Mae gallu olrhain tueddiadau hanesyddol yn sail i'n gwybodaeth ac felly mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ofyn cwestiynau am deithio i'r gwaith ym mhob cyfrifiad.”

O'r 141 o ymatebwyr a nododd a oedd ffynonellau data amgen yn bodoli eisoes a fyddai'n diwallu eu hanghenion yn llawn neu'n rhannol, nododd 26% fod rhai ar gael. Awgrymodd yr ymatebwyr:

- yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion
- data ar drafnidiaeth gyhoeddus
- data ar leoliad ffonau symudol

Fodd bynnag, nododd yr ymatebwyr na fyddai unrhyw un o'r rhain yn diwallu eu hanghenion yn llawn. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Gorllewin Sussex:

> “Gellir prynu data rhwydwaith symudol oddi wrth ddarparwyr ffôn mawr megis Telefonica a Vodafone. Mae'n nodi tarddiadau a chyrchfannau teithiau am gyfnod diffiniedig ar gyfer pob math o daith. I wahaniaethu rhwng data cymudo a theithiau eraill, ac i gynhyrchu rhaniad o ran dull, gwneir tybiaethau ar sail nodweddion y data, megis defnydd tir yn bennaf wrth darddiad a chyrchfan taith, a chyflymder a llwybr teithio. Mae hyn yn llai cywir na data teithio i'r gwaith cynhwysfawr y cyfrifiad sydd ar gael ac mae'n gostus iawn, er y gall fod yn fwy cyfredol. Defnyddio'r data hyn ynghyd â data'r cyfrifiad fydd yn llywio modelau ac astudiaethau trafnidiaeth newydd orau er mwyn datblygu strategaethau a chynlluniau trafnidiaeth a seilwaith integredig at y dyfodol.”

O'r 145 o ymatebwyr a nododd pa agwedd ar ddylunio data oedd fwyaf pwysig:

- blaenoriaethodd 53% ddata ar gyfer ardaloedd daearyddol bach
- blaenoriaethodd 41% ddata wedi'u croesdablu â newidynnau eraill

## Parthau gweithleoedd

O ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19), rydym yn ailystyried y fethodoleg ar gyfer creu parthau gweithleoedd. Os nad oeddem yn newid y fethodoleg, yna byddem yn gweld llai o barthau a rhai mwy o faint yn ddaearyddol mewn canolfannau cyflogaeth mawr, gan gynnwys canol trefi a dinasoedd. Hefyd, byddem yn gweld mwy o barthau gweithleoedd a rhai llai o faint yn cwmpasu ardaloedd preswyl traddodiadol.

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a oeddent yn rhagweld bod angen data wedi'u cyhoeddi yn ôl parth gweithle a sut y byddent yn defnyddio'r data hyn. O'r 144 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 57% eu bod yn rhagweld hyn.

Trafododd yr ymatebwyr ystod eang o anghenion, yr un rhai ag a ddarparwyd mewn perthynas â seiliau poblogaeth amgen gweithleoedd a'r diwrnod gwaith. Nodwn y rhain yn yr adrannau Poblogaethau gweithleoed a Poblogaethau diwrnod gwaith.

Mae daearyddiaeth parthau gweithleoedd yn ein galluogi i gynhyrchu ystadegau ar gyfer ardaloedd bach lle ceir crynodiadau o'r gweithlu. Drwy ddefnyddio daearyddiaeth parthau gweithleoedd yn lle daearyddiaethau safonol, gallwn ddeall poblogaethau gweithleoedd a diwrnod gwaith yn well. Er enghraifft, nododd Cyngor Dinas Bryste:

> “Mae data yn ôl parth gweithle yn amhrisiadau oherwydd mae'n ein galluogi i ddiffinio daearyddiaethau cyflogaeth megis canol dinas a pharthau cyflogaeth diwydiannol, manwerthu a mawr eraill. Mae hyn yn fwy anodd ac felly yn llai cywir os ydym yn dibynnu ar ddaearyddiaethau seiliedig ar breswylwyr megis Ardaloedd Cynnyrch, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol. Mae Ardaloedd Cynnyrch yn dueddol o fod yn fawr iawn mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai preswyl.”

Nododd nifer bach o ymatebwyr y byddent yn defnyddio'r data i gymharu â data Cyfrifiad 2011. Er enghraifft, nododd Awdurdod Llundain Fwyaf:

> “Gall fod yn anodd defnyddio parth gweithle 2021 os yw poblogaethau gweithleoedd yn llawer is ar gyfer canol Llundain a chanolfannau eraill. Gwnaethom ddefnyddio daearyddiaeth parthau gweithleoedd yn 2011 i
>
> 1) ddadansoddi canol trefi yn fanylach nag Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol ac o ystyried ffocws polisi Awdurdod Llundain Fwyaf ar adfywio canol trefi rydym am ailadrodd ac ehangu hyn yn 2021.
> 2) cynhyrchu dosbarthiad parthau gweithleoedd ar gyfer Llundain a oedd yn gofyn am yr amrywiaeth o ddata unamryweb ar y lefel ddaearyddol hon. Hoffem gynhyrchu dosbarthiad ar gyfer 2021 i ddangos y newidiadau mewn patrymau diwydiant a gwaith ers 2011.”

## Ein hymateb

Drwy gydol pandemig y coronafeirws (COVID-19), mae SYG wedi ymrwymo i ddarparu'r wybodaeth orau bosibl i'r cyhoedd, busnesau a llunwyr polisi er mwyn llywio'r ymateb parhaus.

Mewn ymateb i alwadau am ystadegau dibynadwy a chyfredol, rydym wedi anelu at ddiwallu'r angen am ddata cyflym amser real, drwy:

- gyflwyno arolygon newydd

- defnyddio ffynonellau data newydd
- cyhoeddi dadansoddi trawsbynciol newydd

I ddarparu darlun amserol o'r farchnad lafur, rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid i gynhyrchu metrigau newydd. Maent yn cynnwys ffigurau swyddi gwag ar-lein gan Adzuna a data Gwybodaeth Amser Real misol ar nifer y cyflogeion.

Mae hyn yn ein galluogi i gyflymu'r amserlen ar gyfer ffynonellau eraill megis Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws CThEM a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig. Mae'r ystadegau newydd hyn wedi ein helpu i gadw llygad ar faint a natur effaith y coronafeirws ar economi a chymdeithas y DU. Rydym yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gyfuno'r ffynonellau data hyn â data Cyfrifiad 2021.

Drwy'r pandemig, rydym hefyd wedi ateb cwestiynau megis Sut mae diwydiant adeiladu'r DU wedi perfformio yn ystod y pandemig?

Fodd bynnag, rydym wedi bod yn agored iawn wrth ddweud y bu rhai heriau gwirioneddol o'r pandemig. Er enghraifft, rydym wedi gweithio'n galed ar leihau effeithiau COVID-19 ar yr Arolwg o'r Llafurlu ac ar wella cydlyniant a hygyrchedd ystadegau incwm ac enillion.

Bydd ystadegau ar batrymau cymudo o ddata Cyfrifiad 2021 hefyd yn meithrin dealltwriaeth o fywyd yn ystod y pandemig. Maent yn debygol o ddangos niferoedd sylweddol ohonom yn gweithio o gartref. Bydd yr adroddiadau ar y rhain yn rhan bwysig a diddorol o'r cynnyrch cyhoeddedig. Fodd bynnag, bydd angen i'r gwaith dadansoddi ystyried y rhai i ffwrdd o'r gwaith dros dro ar adeg Cyfrifiad 2021. Byddai'r bobl hyn wedi darparu gwybodaeth am deithio i'r gwaith a'r oriau a weithiwyd ar gyfer y cyfnod cyn bod i ffwrdd dros dro.

Mae'n debygol y gwnawn gynhyrchu'r rhain ar ôl cam tri o amserlen datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021.

Gan ddefnyddio ffynonellau newydd o ddata, byddwn yn monitro newid parhaus ers Diwrnod y Cyfrifiad. Mae hyn yn cynnwys data ffonau symudol cyfanredol i ddeall newidiadau mewn patrymau teithio i'r gwaith.Mae hwn yn brosiect arloesol ond cymhleth, a bydd yn cymryd amser i'w gwblhau.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r fethodoleg ar gyfer cynhyrchu daearyddiaeth parthau gweithleoedd Cyfrifiad 2021. Byddwn yn darparu data yn ôl y lefel ddaearyddol hon ar gam tri o amserlen datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021.

Yn yr holl waith hwn ar ddata marchnad lafur Cyfrifiad 2021, gwnawn ystyried ffactorau megis:

- ansawdd data Cyfrifiad 2021
- angen defnyddwyr i gymharu â data Cyfrifiad 2011

- effaith pandemig y coronafeirws ar batrymau gwaith
- symud cyfrifiad yr Alban i fis Mawrth 2022
- risg datgelu ystadegol

## Effeithiau ar allbynnau eraill

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a oedd unrhyw bynciau eraill roedd y cyfnod o newid wedi effeithio arnynt, a gofynnwyd cwestiynau penodol am y pynciau a drafodwyd yn yr adran flaenorol.

Data ar iechyd, anabledd a gofal di-dâl a grybwyllodd yr ymatebwyr amlaf. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth a ddarparwyd ganddynt am y ffordd mae'r cyfnod hwn o newid cymdeithasol ac economaidd cyflym yn effeithio ar eu cynlluniau.

Rydym eisoes wedi cyhoeddi peth gwybodaeth am ein cynlluniau yn y maes hwn. Un enghraifft yw blog Ystadegol Gwladol Improving access to data on adult social care. Rydym hefyd wedi dweud wrth ddefnyddwyr am ein cynigion ar gyfer Use of preliminary information collected in Census 2021 in England to inform the ongoing response to coronavirus.

Trafododd yr ymatebwyr fudo hefyd. Roedd yn ymwneud yn bennaf â mudo mewnol a deall y boblogaeth breswyl arferol yn llawn, fel y'i disgrifir mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon.

Gwnawn barhau i flaenoriaethu'r gwaith a ddisgrifiwyd, er mwyn deall patrymau preswylio preswylwyr arferol yng Nghymru a Lloegr, a'u gweithgarwch economaidd.

## Anghenion data a ddaw i'r amlwg

Gwnaethom ragweld y byddai gan ddefnyddwyr anghenion newydd o ran data Cyfrifiad 2021. Byddai'r anghenion hyn am ddata i'w helpu i ddeall newidiadau economaidd a chymdeithasol diweddar, a sut mae'r rhain yn effeithio ar wahanol gymunedau a sut rydym yn byw.

### Anghenion data Cyfrifiad 2021

Cododd yr ymatebwyr anghenion data sy'n dod i'r amlwg a adlewyrchai anghenion tebyg a godwyd ganddynr mewn rhannau eraill o'u hymatebion i'r ymgynghoriad. Roeddent yn ymwneud â'r canlynol:

- adferiad economaidd o bandemig y coronafeirws (COVID-19)
- cynllunio at argyfyngau yn y dyfodol a deall effeithlonrwydd brechlynnau
- deall effaith Brexit ar fudo
- ffurfio polisi ynghylch yr agenda ffyniant bro
- rhagamcanu tlodi

- deall fforddiadwyedd tai a chynllunio darpariaeth yn y dyfodol
- deall lefelau o gydraddoldeb ac integreiddio cymunedau

Yn aml mae'r fath ddadansoddi yn gofyn am amrywiaeth o newidynnau Cyfrifiad 2021, ar lefelau isel o ddaearyddiaeth. Er enghraifft, mewn perthynas â rhagamcanu tlodi, nododd Cyngor Sir Swydd Buckingham:

> "Rhagamcanu tlodi – byddem am ddefnyddio data'r cyfrifiad ar lefel ddaearyddol isel iawn (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is neu Ardal Gynnyrch) i asesu graddau tlodi yn y sir. Swydd Buckingham yw un o'r ardaloedd mwyaf cefnog yn y wlad ond er hyn ceir pocedi o dlodi ac amddifadedd o hyd. Byddai newidyn i helpu i lywio'r dadansoddiad hwn yn cynnwys nifer mawr ond yn arbennig - ddimensiynau amddifadedd, grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iechyd cyffredinol, math o gartref, deiliadaeth, gradd gymdeithasol, gweithgarwch economaidd, hanes diweithdra a chymwysterau. Bydd y fath ddealltwriaeth yn helpu i lywio pa gartrefi sy'n fwy tebygol o brofi tlodi fwy na thebyg (yn enwedig yn dilyn pandemig COVID-19), a fydd yn llywio polisïau cymorth ar gyfer y rhai sy'n wynebu risg o dlodi, wedi'i lunio gan Swydd Buckingham. Bydd effaith hirdymor pandemig COVID-19 hefyd yn cael ei harchwilio fel rhan o'r darn hwn o waith, yn benodol yn ymwneud ag ansicrwydd ariannol."

O ran ymchwilio i addasrwydd tai yn ystod pandemig, nododd y Sefydliad Iechyd:

> "Hoffem ddeall o ddata'r cyfrifiad nifer y bobl a oedd yn byw gyda'u rhieni yn ystod mis Mawrth 2021. Gallai hyn ein helpu i ddeall ei gyfraniad at ledaenu'r feirws. Bydd hefyd yn rhoi syniad inni o faint o bobl a oedd yn byw mewn cartrefi nad oeddent o ansawdd addas i fyw ynddynt yn ystod pandemig ee rhai heb ardd."

Bydd cynnyrch Cyfrifiad 2021 mewn sefyllfa unigryw i ddiwallu'r anghenion hyn.

Mewn sawl ymateb, nododd yr ymatebwyr y defnydd o ddaearyddiaeth Ardal Marchnad Rentu Eang wrth ddadansoddi tai. Nid yw'n ddaearyddiaeth roeddem wedi ei chynnig o ran cynhyrchu data o Gyfrifiad 2021 ar ei chyfer. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn debygol o ddiweddaru'r ardaloedd hyn yn sgil cyhoeddi data Cyfrifiad 2021.

Mewn ymateb, byddwn yn gweithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio er mwyn deall ymhellach y defnydd o ddaearyddiaeth Ardal Marchnad Rentu Eang. Os bydd digon o angen, byddwn yn asesu dichonoldeb creu gwasanaeth edrych rhwng Ardal Gynnyrch ac Ardal Marchnad Rentu Eang. Byddai hyn ar sail ffit orau fwy na thebyg.

## Anghenion data ehangach

Nododd yr ymatebwyr anghenion eraill ar draws yr ymgynghoriad lle na fyddai data Cyfrifiad 2021 ar eu pen eu hunain yn gallu eu diwallu a lle byddai angen rhagor o wybodaeth o ffynonellau data eraill. Er enghraifft, gofynnodd yr ymatebwyr am gryn

dipyn o waith dadansoddi ar bandemig y coronafeirws (COVID-19) a fydd yn golygu arsylwi ar newid dros amser.

Mewn enghraifft arall yn ymwneud â defnydd ynni, nododd Gwasanaeth Data'r DU:

> “Disgwyl mwy o ddefnydd o'r cyfrifiad ar y cyd â data ar ddefnydd ynni (yn ôl ardal fach neu adeiladau fwy na thebyg) er mwyn meithrin dealltwriaeth a phennu polisi defnydd ynni domestig a masnachol/gwyrddhau'r economi/materion tlodi tanwydd.”

Ar draws yr ymgynghoriad, cododd yr ymatebwyr anghenion hefyd am ddata na wnaethom eu casglu yng Nghyfrifiad 2021. Nid oedd yr anghenion hyn o reidrwydd yn ymwneud â'r cyfnod hwn o newid cymdeithasol, ond ag anghenion ehangach a fodolai eisoes.

Cododd yr ymatebwyr anghenion yn ymwneud â phreswylwyr arferol. Yn eu plith roedd y canlynol:

- statws ceiswyr lloches neu ffoaduriaid
- cost garbon teithio i'r gwaith
- allgau digidol
- digartrefedd
- incwm
- crefydd neu gred
- math o gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol
- math o ofal di-dâl a ddarperir
- gwirfoddoli

Cododd yr ymatebwyr anghenion yn ymwneud â chartrefi. Yn eu plith roedd y canlynol:

- cysylltu â'r rhyngrwyd a'r defnydd ohono
- deiliadaeth rydd-ddaliadol, lesddaliadol neu gyfunddaliadol
- math o gartref symudol neu dros dro

Gwnaethom ystyried a gwrthod rhai o'r pynciau hyn ar gyfer Cyfrifiad 2021. Gwnaethom hyn mewn ymateb i'r ymgynghoriad Cyfrifiad 2021: Barn gychwynnol ar gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr, a gynhaliwyd gennym yn 2015.

Er enghraifft, rydym yn ymwybodol bod diddordeb mawr mewn data ar incwm a pha mor werthfawr y gallent fod o ran gwaith cynllunio, datblygu polisïau a gwerthuso. Rydym wedi bod yn gweithio gyda data treth a budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn datblygu data incwm ardal fechan a all gael eu cyfuno â'r data a gasglwyd yng Nghyfrifiad 2021.

Mae SYG eisoes wedi cynhyrchu peth cynnyrch ymchwil, ystadegau incwm seiliedig ar ddata gweinyddol, er mwyn dangos potensial y dull hwn. Rydym yn parhau i ddatblygu'r cynnyrch ymchwil hwn ac yn bwriadu cyhoeddi diweddariad pellach yn 2022. Bwriadwn ddefnyddio'r cyhoeddiadau hyn i gasglu adborth defnyddwyr ar ein mesur incwm seiliedig ar ddata gweinyddol a gofynion defnyddwyr ychwanegol.

Fel rhan o'n rhaglen drawsnewid ystadegau cymdeithasol ac economaidd ehangach, rydym yn ystyried cryfder yr holl anghenion y mae'r ymatebwyr wedi'u codi yn yr ymgynghoriad hwn.

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried p'un a ddylid a sut i ddiwallu'r anghenion am wybodaeth am y pynciau hyn yn ein rhaglen drawsnewid barhaus.

## Paradata: casgliadau

Mae paradata yn cyfeirio at wybodaeth am y ffordd y gwnaethom gasglu a phrosesu'r data. Maent ar wahân i'r data ystadegol rydym yn eu cynhyrchu o'r cyfrifiad. Ni fyddem yn cyhoeddi paradata fel cyfrifiadau. Yn hytrach, byddem yn defnyddio mesurau eraill, er enghraifft, cyfraddau ymateb canrannol.

Yn unol â 2011 a chyfrifiadau blaenorol, byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Cyffredinol a fydd yn darparu trosolwg o weithrediad cyfan y cyfrifiad. Rydym eisoes wedi cyhoeddi peth gwybodaeth sef Designing a digital-first census a Delivering the Census 2021 digital service. Mae'n cynnwys peth gwybodaeth o adroddiad gwerthuso 2012, sef Providing the online census (pdf, 196KB). Cwmpesir data ychwanegol ar nodweddion ymatebwyr yn yr adran dull cwblhau.

Gwnaethom ofyn am anghenion defnyddwyr am baradata yn cynnwys gwybodaeth ddemograffaidd ar:

- gyfraddau ymateb cartrefi
- cyfraddau ymateb preswylwyr arferion unigol
- dull ymateb
- iaith ymateb

Gwnaethom hefyd ofyn am anghenion am ddata ar ymateb drwy ddirprwy mewn rhan gynharach o'r ddogfen ymgynghori. Gwnaethom ddarparu ein casgliadau yn ymwneud ag ymateb drwy ddirprwy yn rhan un o'n hymateb i'r ymgynghoriad.

Hefyd gofynnodd rhai ymatebwyr am ddata ar:

- y ddyfais a ddefnyddiwyd i ymateb
- yr amser a dreuliwyd ar bob adran
- sawl math gwahanol o gymorth dros y ffôn a roddwyd

Er enghraifft, nododd Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Tameside:

> "Byddai manylion am y math o gymorth dros y ffôn yn ddefnyddiol hefyd. Er enghraifft, ai galwadau yn gofyn am ffurflen bapur yn bennaf neu am help penodol gyda chwestiynau a gafodd y canolfannau galwadau yn bennaf? Os mai'r ail ydoedd, byddai'n helpu i greu darlun o allgáu digidol yn ein hardal."

Gwnawn gynnwys gwybodaeth am gymorth a cheisiadau ar gyfer yr holiadur yn Adroddiad Cyffredinol Cyfrifiad 2021 ac adroddiadau gwerthuso cysylltiedig. Mae hyn yn debygol o fod ar y lefel genedlaethol.

## Deall ansawdd data

Bydd amcangyfrifon y cyfrifiad a gyhoeddwn yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan, nid dim ond y rhai a wnaeth ddychwelyd holiadur y cyfrifiad.

Trafododd yr ymatebwyr a ofynnodd am setiau data ar baradata yn aml eu bod wedi defnyddio'r data o Gyfrifiad 2011 i ddeall ansawdd y data. Nododd llawer o'r ymatebwyr y byddent yn defnyddio paradata o Gyfrifiad 2021 yn yr un modd, i ddeall ansawdd data Cyfrifiad 2021.

Dim ond un mesur o ansawdd data yw hyn. Cynhaliwn ystod eang o wiriadau er mwyn sicrhau bod data Cyfrifiad 2021 a gyhoeddwn o ansawdd uchel. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngau hyder a chyfraddau ymateb. Mae cyfyngau hyder yn fesur ystadegol cydnabyddedig o'r lefel o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon. Mae cyfraddau ymateb yn dynodi'r graddau y cafodd y boblogaeth o ddiddordeb ei chynnwys ar holiadur, cyn inni addasu ar gyfer gor a than gwmpas.

Mae gwybodaeth am ein dull o asesu ansawdd data Cyfrifiad 2021 ar gael yn yr adroddiad ar fethodoleg Approach and processes for assuring the quality of the 2021 Census data. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyhoeddi cyfres o ddogfennau ansawdd. Bydd y rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- adroddiad trosolwg ar brosesau sicrhau ansawdd y cyfrifiad ac ansawdd data Cyfrifiad 2021, gan gynnwys y defnydd o gyfyngau hyder
- adroddiad trosolwg ar brosesau amcangyfrif y cyfrifiad
- adroddiad ansawdd yn edrych ar ein dulliau o liniaru unrhyw rai o ganlyniadau posibl pandemig y coronafeirws (COVID-19) ar ansawdd data'r cyfrifiad
- trosolwg o ffynonellau data cymharol a ddefnyddir mewn prosesau sicrhau ansawdd a methodolegol

Rydym yn hyderus y bydd ein cyfres o ddogfennau sicrhau ansawdd arfaethedig yn dangos ansawdd amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi Cyfrifiad 2021.

## Cyfraddau ymateb

### Cyfraddau ymateb cartrefi

Cyfradd ymateb cartrefi yw cyfanswm nifer y cartrefi y cafodd eu manylion eu cwblhau ar holiadur a ddychwelwyd, wedi'i rannu â'r amcangyfrif o gyfanswm nifer y cartrefi dilys nad oeddent yn wag.

O'r 168 o ymatebwyr a nododd a oeddent wedi defnyddio data ar gyfraddau ymateb cartrefi o Gyfrifiad 2011 yn eu gwaith, dim ond 33% a nododd eu bod wedi gwneud hynny. Roedd yr ymatebwyr wedi defnyddio'r wybodaeth i gynllunio gwaith ymgysylltu er mwyn annog ymatebion i arolygon dilynol ac i Gyfrifiad 2021.

O'r 160 o ymatebwyr a nododd a fyddent yn defnyddio data ar gyfraddau ymateb cartrefi o Gyfrifiad 2021 pe byddai data o'r fath ar gael, dywedodd 69% y byddent yn gwneud hynny. Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr pa lefel ddaearyddol y byddent yn ei defnyddio ar gyfer data ar gyfraddau ymateb cartrefi, pe byddai data o'r fath ar gael. O'r 136 o ymatebwyr:

- nododd 52% y byddent yn defnyddio'r lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol
- dywedodd 32% mai dim ond ar lefel awdurdod lleol y byddai angen y data arnynt
- dywedodd 7% lefel ranbarthol
- dywedodd 9% lefel genedlaethol

Hefyd gofynnodd yr ymatebwyr am y data ar lefelau daearyddol is na'r hyn a awgrymwyd gennym. Er mwyn cynhyrchu wardiau i gefnogi'r gwaith o dargedu cymorth, roedd y ceisiadau hyn ar gyfer data ar lefel ward neu lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn bennaf. Er enghraifft, nododd Cyngor Medway:

> "Byddai'r data hyn ar lefel Ardal Gynnyrch neu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn fwy defnyddiol oherwydd byddai'n galluogi adeiladu gwybodaeth ar lefel ward sy'n fwy defnyddiol i ni nag Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol. Byddai'n galluogi dadansoddi amrywiadau ar draws ardaloedd bach. Ni ddefnyddir Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn sylweddol am nad yw'n gydnaws â wardiau gweinyddol sy'n fwy defnyddiol i gefnogi penderfyniadau gweithredol a strategol."

Gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr pa newidynnau y byddent yn eu defnyddio, gan gynnig awgrymiadau. Gofynnodd rhwng 71 a 95 o ymatebwyr am bob newidyn. Mae'r newidynnau a gynigiwyd gennym, yn eu trefn o'r un y gofynnwyd amdano fwyaf i'r un y gofynnwyd amdano leiaf, fel a ganlyn:

- maint y cartref
- deiliadaeth y cartref
- math o gartref
- person cyswllt y cartref – oedran
- person cyswllt y cartref – grŵp ethnig
- person cyswllt y cartref – rhyw
- person cyswllt y cartref – lefel uchaf o gymhwyster
- person cyswllt y cartref – crefydd

Hefyd gwnaeth yr ymatebwyr eu hawgrymiadau eu hunain. Roeddent yn cynnwys sawl cais am ddata ar gyfer nodweddion anabledd a hyfedredd Saesneg person cyswllt y cartref.

Nododd yr ymatebwyr y byddent yn defnyddio'r data i helpu i nodi ardaloedd ag ymgysylltu isel. Er enghraifft, nododd Cyngor Dwyrain Suffolk:

> “Byddai'r data hyn yn ein hysbysu am lefelau ymgysylltu ledled yr ardal, a'r newidynnau yn ein hardal sy'n effeithio ar lefelau ymgysylltu a pharodrwydd a/neu allu cartref i ymateb. Bydd hyn yn helpu i lywio strategaethau ymgysylltu ar gyfer cynlluniau eraill y cyngor.”

Credwn y byddai defnyddio'r wybodaeth am gyfraddau ymateb preswylwyr arferol unigol yn diwallu'r angen hwn gan ddefnyddwyr yn well, fel y'i trafodir yn yr adran nesaf. Felly, ni fwriadwn gynhyrchu data ar nodweddion person cyswllt y cartref.

Hefyd cynigiodd yr ymatebwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon i nodi ardaloedd o allgau digidol. Roedd dyluniad ystadegol a gweithredol Cyfrifiad 2021 yn canolbwyntio ar ddull cynhwysol. O safbwynt cynhwysiant digidol, roedd yn golygu darparu:

- taith hygyrch a hwylus i ymatebwyr
- holiaduron papur mewn ffordd briodol i'r rhai roedd eu hangen arnynt
- cymorth drwy Ganolfannau Cymorth y Cyfrifiad, ar garreg y drws a thrwy ein canolfan gyswllt

Mae hyn yn golygu bod rhai cyfeiriadau wedi cael cod mynediad ar-lein i ddechrau, tra bod eraill wedi cael holiadur papur i ddechrau. Disgrifiwn hyn ymhellach yn yr adroddiad methodoleg Designing a digital-first census. O ganlyniad i'r dull cynhwysol hwn, ni ellir defnyddio'r data i asesu allgáu digidol ledled Cymru a Lloegr.

## Cyfraddau ymateb preswylwyr arferion unigol

Cyfradd ymateb unigolion yw cyfanswm nifer y preswylwyr arferol y cafodd eu manylion eu cwblhau ar holiadur a ddychwelwyd, wedi'i rannu â'r amcangyfrif o gyfanswm nifer y preswylwyr arferol. Yn dilyn Cyfrifiad 2011, gwnaethom gyhoeddi cyfraddau unigolion yn ôl newidynnau fel oedran a rhyw.

O'r 156 o ymatebwyr a nododd a oeddent wedi defnyddio data ar gyfraddau ymateb unigolion o Gyfrifiad 2011 yn eu gwaith, dim ond 22% a nododd eu bod wedi gwneud hynny. Fel gyda'r cyfraddau ymateb ar gyfer cartrefi, dywedodd ymatebwyr eu bod wedi defnyddio'r wybodaeth i helpu i gynllunio gwaith ymgysylltu er mwyn annog ymatebion i arolygon dilynol ac i Gyfrifiad 2021.

O'r 155 o ymatebwyr a nododd a fyddent yn defnyddio data ar gyfraddau ymateb unigolion o Gyfrifiad 2021 pe byddai data o'r fath ar gael, dywedodd 68% y byddent yn gwneud hynny. Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr pa lefel ddaearyddol y byddent yn ei defnyddio ar gyfer data ar gyfraddau ymateb unigolion, pe byddai data o'r fath ar gael. O'r 134 o ymatebwyr:

- dywedodd 49% y byddent yn eu defnyddio ar lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol
- dywedodd 34% mai dim ond ar lefel awdurdod lleol y byddai angen y data arnynt
- dywedodd 9% lefel ranbarthol
- dywedodd 8% lefel genedlaethol

Unwaith eto, gofynnodd ymatebwyr am gael y data ar lefelau daearyddol is, fel lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is neu wardiau, er mwyn gallu targedu cymorth.

Gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr pa newidynnau y byddent yn eu defnyddio, gan gynnig awgrymiadau. Gofynnodd rhwng 77 a 100 o ymatebwyr am bob newidyn. Mae'r newidynnau a gynigiwyd gennym, yn eu trefn o'r un y gofynnwyd amdano fwyaf i'r un y gofynnwyd amdano leiaf, fel a ganlyn:

- oedran
- grŵp ethnig
- rhyw
- crefydd
- lefel uchaf o gymhwyster

Cynigiodd yr ymatebwyr eu hawgrymiadau eu hunain hefyd, gan gynnwys sawl cais am ddata am nodweddion sydd wedi'u gwarchod gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, gofynnodd ymatebwyr am bob nodwedd unigol a gofnodwyd ar Gyfrifiad 2021 fwy neu lai.

Yn debyg i'r drafodaeth yn yr adran cyfraddau ymateb cartrefi, mae'r ymatebwyr yn bwriadu defnyddio eu dadansoddiadau o gyfraddau ymateb unigolion i bennu lefelau ymgysylltu.

## Ein hymateb

Byddwn yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu data ar gyfraddau ymateb cartrefi a phreswylwyr arferol unigol ar lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is.

Byddwn yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu gwybodaeth ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol ar gyfraddau ymateb cartrefi a phreswylwyr arferol unigol wedi'i chroesdablu gan newidynnau eraill.

Ar gyfer cyfraddau ymateb cartrefi, byddwn yn blaenoriaethu data ar gyfer maint y cartref, deiliadaeth y cartref a'r math o gartref. Byddwn hefyd yn edrych i weld a yw'n ymarferol cynhyrchu cyfraddau ymateb cartrefi yn ôl y dull ymateb.

Ar gyfer cyfraddau ymateb preswylwyr arferol unigol, byddwn yn blaenoriaethu nodweddion diogelu data fel oedran, grŵp ethnig, rhyw a chrefydd.

Dim ond cyfraddau'r cartrefi na wnaethant ymateb y byddwn yn eu cynhyrchu, nid y niferoedd.

## Dull cwblhau

### Dull cwblhau

Mae'r dull cwblhau yn rhoi gwybodaeth o ran a wnaeth ymatebwyr gyflwyno eu ffurflen ar gyfer Cyfrifiad 2021:

- ar lein
- ar bapur
- drwy ffyrdd eraill, gan gynnwys dros y ffôn neu drwy gymorth digidol

Yn dilyn Cyfrifiad 2011, gwnaethom gyhoeddi data ar gyfran y ffurflenni a ddychwelwyd yn ôl y dull cwblhau: ar lein neu ar bapur. Ar gyfer Cyfrifiad 2021, rydym eisoes wedi llunio gwybodaeth am Gyfran ar lein Cyfrifiad 2021 o ymatebion cartrefi fesul Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r wybodaeth hon yn rhan o'r adroddiad methodoleg Designing a digital-first census.

Ar gyfer 2021, roeddem yn ystyried ychwanegu trydydd categori, sy'n cynnwys yr holl ddulliau cwblhau eraill. Fodd bynnag, mae ein gwaith dichonoldeb wedi dangos bod y grŵp hwn yn fach iawn, a'i bod yn anodd gwahaniaethu rhwng yr ymatebion ar lein, gan ein bod wedi cofnodi ymatebion â chymorth neu ymatebion dros y ffôn drwy'r holiadur electronig. Felly, ar gyfer Cyfrifiad 2021, dim ond gwybodaeth ar gyfer ffurflenni a gwblhawyd drwy'r dulliau canlynol y byddwn yn ei chynhyrchu:

- ar lein, neu drwy ffyrdd eraill, gan gynnwys dros y ffôn neu drwy gymorth digidol
- ar bapur

Gwnaethom ofyn i ymatebwyr a oeddent wedi defnyddio data ar ddull cwblhau o Gyfrifiad 2011 yn eu gwaith. O'r 163 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, dim ond 18% a ddywedodd eu bod wedi gwneud hynny. Dywedodd ymatebwyr eu bod wedi defnyddio'r wybodaeth hon i ymchwilio i gynhwysiant digidol. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Caint:

> “Gwnaethom ddefnyddio cyfraddau ymateb drwy'r rhyngrwyd […] gan fod cyn lleied o ddata eraill ar fynediad i'r rhyngrwyd ar y pryd. Roedd yn elfennol, a doedd dim ffordd o wybod faint o ymatebwyr a oedd wedi llenwi holiadur papur er gwaethaf y ffaith bod ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd."

Nododd Cymdeithas Deillion Ynys Wyth waith i ddeall effaith symud arolygon ar lein ar y boblogaeth anabl. Roedd eraill wedi defnyddio'r wybodaeth i ddeall ac i amcangyfrif cyfraddau ymateb ar gyfer arolygon eraill neu i baratoi ar gyfer Cyfrifiad 2021.

O'r 164 o ymatebwyr a nododd a fyddent yn defnyddio data ar ddulliau cwblhau o Gyfrifiad 2021 pe byddai data o'r fath ar gael, dywedodd 66% y byddent yn gwneud hynny. O'r 147 o ymatebwyr a nododd a oedd angen data ar ddulliau ymateb arnynt ar lefel awdurdod lleol, dywedodd 73% fod eu hangen arnynt. Fodd bynnag, gofynnodd sawl ymatebydd hefyd am ddata ar lefelau daearyddol is er mwyn gallu cynnal dadansoddiadau manylach.

Gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr pa newidynnau y byddent yn eu defnyddio, gan gynnig awgrymiadau. Gofynnodd rhwng 67 a 93 o ymatebwyr am bob newidyn a gynigiwyd gennym. Mae'r newidynnau a gynigiwyd gennym, yn eu trefn o'r un y gofynnwyd amdano fwyaf i'r un y gofynnwyd amdano leiaf, fel a ganlyn:

- person cyswllt y cartref – oedran
- person cyswllt y cartref – grŵp ethnig
- person cyswllt y cartref – lefel uchaf o gymhwyster
- person cyswllt y cartref – rhyw
- math o gartref
- deiliadaeth y cartref
- maint y cartref
- person cyswllt y cartref – crefydd

Cynigiodd yr ymatebwyr eu hawgrymiadau eu hunain hefyd, gan gynnwys ceisiadau am ddata am y canlynol:

- person cyswllt y cartref – anabledd
- person cyswllt y cartref – hyfedredd Saesneg
- person cyswllt y cartref – statws cyflogaeth
- person cyswllt y cartref - gwlad enedigol neu basbort a ddelir

Gofynnodd ymatebwyr hefyd am ddata o ran a wnaeth ymateb cartref cyfan gael ei gwblhau drwy ddirprwy ai peidio. Gwnaethom drafod ein cynlluniau o ran cynhyrchu'r wybodaeth hon yn rhan un o'n hymateb i'r ymgynghoriad ar allbynnau Cyfrifiad 2021.

Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd am ddata ar fynediad i'r rhyngrwyd, ond ni wnaethom gasglu data o'r fath fel rhan o Gyfrifiad 2021.

Disgrifiodd ymatebwyr ddau brif angen. Yn gyntaf, roeddent am ddeall nodweddion y boblogaeth y mae risg y cânt eu hallgáu'n ddigidol yn well. Yn ail, roeddent am ddefnyddio'r wybodaeth wrth lunio strategaethau ar gyfer targedu gohebiaeth mewn ffordd briodol. Er enghraifft, nododd Bwrdeistref Harrow, Llundain:

> “Caiff y wybodaeth ei defnyddio ochr yn ochr â gwybodaeth arall a gaiff ei chasglu fel rhan o Broffiliau Hyfywedd Harrow i lywio ein hymatebion i amddifadedd ac allgau/cynhwysiant digidol. Defnyddir y wybodaeth hon ym mhob rhan o'r cyngor

> wrth lunio polisïau ac wrth gyflenwi gwasanaethau. Gellid defnyddio'r data hyn i ystyried nodweddion yr unigolion hynny y mae risg y cânt eu hallgáu'n ddigidol, fel y rheini a grybwyllir uchod, ond hefyd anabledd, hyfedredd Saesneg, gwlad enedigol neu basbort a ddelir.

Yn yr un modd, nododd Uned Deallusrwydd Cyngor Swydd Henffordd:

> "Byddai'n ychwanegu at ein gwaith parhaus i ddeall allgáu digidol er mwyn gwybod sut roedd gwahanol grwpiau o'r boblogaeth yn defnyddio'r opsiwn ar lein. Mae'n hawdd meddwl mai dim ond pobl hŷn sy'n cael eu hallgáu'n ddigidol, felly byddai'n ddefnyddiol iawn gallu meintioli'r sefyllfa. […] Mewn arolwg diweddar o breswylwyr lleol, dywedodd 1 o bob 5 eu bod yn poeni y byddai mwy o wasanaethau yn symud ar lein. Mae'r cyfrifiad yn feincnod da iawn er mwyn gallu cymharu wrth ystyried darparu gwasanaethau llywodraeth leol – gan fod y ddau beth yn 'swyddogol'."

Ni fyddai gwybodaeth am y cartref yn diwallu'r anghenion hyn.

## Cyfraddau cwblhau yn Gymraeg

Yn ogystal â'r dull cwblhau gallwn ddarparu gwybodaeth am yr iaith gwblhau i Gymru. Bydd y wybodaeth hon yn dibynnu a wnaeth ymatebwyr gwblhau holiadur ar bapur neu ar lein.

Ar gyfer ymatebion papur, gallwn lunio gwybodaeth ynghylch a wnaeth ymatebwyr lenwi'r ffurflen Gymraeg neu Saesneg. Ar gyfer ymatebion ar lein, gallwn lunio gwybodaeth o ran a ddewiswyd Saesneg neu Gymraeg adeg dechrau'r broses ac wrth gyflwyno.

Gan mai dim ond ar gyfer Cymru y mae'r wybodaeth hon ar gael, ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad nodi bod ei hangen arnynt. O'r 146 o ymatebwyr a ymatebodd i'r adran ar gwblhau yn Gymraeg yn holiadur yr ymgynghoriad, nodwyd bod 10 ohonynt yn cynrychioli rhan o'r boblogaeth neu'r boblogaeth gyfan yng Nghymru.

O'r 143 o ymatebwyr a nododd a oeddent wedi defnyddio data ar gwblhau yn Gymraeg o Gyfrifiad 2011 yn eu gwaith, dim ond 6% a nododd eu bod wedi gwneud hynny. O'r 141 o ymatebwyr a nododd a fyddent yn defnyddio data ar gwblhau yn Gymraeg o Gyfrifiad 2021 pe byddai data o'r fath ar gael, dywedodd 11% y byddent yn gwneud hynny. O'u plith:

- roedd traean ohonynt yn gyrff cyhoeddus neu'n gyrff llywodraethol yng Nghymru
- roedd traean arall yn academyddion
- roedd gan y gweddill gefndiroedd cymysg

Gofynnodd y grŵp hwn o ymatebwyr hefyd am gael y data ar lefel awdurdod lleol.

Gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr pa newidynnau y byddent yn eu defnyddio, gan gynnig awgrymiadau. Gofynnodd rhwng 11 ac 18 o ymatebwyr am bob un o'r newidynnau a gynigiwyd gennym. Yn eu trefn o'r un y gofynnwyd amdano fwyaf i'r un y gofynnwyd amdano leiaf, mae'r newidynnau hyn fel a ganlyn:

- person cyswllt y cartref – oedran
- person cyswllt y cartref – rhyw
- person cyswllt y cartref – lefel uchaf o gymhwyster
- maint y cartref
- person cyswllt y cartref – grŵp ethnig
- deiliadaeth y cartref
- math o gartref
- person cyswllt y cartref – crefydd

Cynigiodd yr ymatebwyr eu hawgrymiadau eu hunain hefyd, gan gynnwys ceisiadau am ddata o'r cwestiwn ar sgiliau Cymraeg.

Roedd anghenion ymatebwyr yn ymwneud â deall y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg, ond sy'n dewis peidio â gwneud hynny wrth ryngweithio â gwasanaethau. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir y Fflint:

> "Byddai'n ein helpu i nodi pwy sy'n debygol o ddefnyddio'r Gymraeg, pa grwpiau sy'n siarad Cymraeg nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg ar gyfer holiaduron ffurfiol/swyddogol. Byddai hyn yn ei dro yn cyfrannu at nodi rhwystrau a mentrau er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Fel awdurdod lleol, mae dyletswydd statudol arnom i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg. Bydd yn ein helpu i fonitro cynnydd wrth gyflawni ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg."

Nododd Comisiynydd y Gymraeg fod diffyg data amgen i ddiwallu'r angen hwn. Nododd:

> "Nid oes unrhyw ddata dibynadwy a chyson ar gael ar y defnydd o wasanaethau Cymraeg. Yn adroddiad sicrwydd y Comisiynydd ar gyfer 2018-19, Hawlio Cyfleoedd, pwysleisiwyd bod data gwirioneddol ar y defnydd o wasanaethau Cymraeg yn brin ac yn dameidiog.
>
> Ar hyn o bryd, nid oes dyletswydd ar sefydliadau i gasglu'r data hyn na chyflwyno adroddiadau arnynt, ac felly mae'n amhosibl gwybod i ba raddau y mae unrhyw wybodaeth a gaiff ei chyhoeddi gan sefydliadau yn cynrychioli'r sefyllfa gyffredinol."

Ni fyddai gwybodaeth am y cartref yn diwallu'r anghenion hyn.

## Ein hymateb

Byddwn yn edrych i weld pa mor ymarferol yw hi i gynhyrchu gwybodaeth am berson cyswllt y cartref mewn perthynas â'r dull cwblhau a'r iaith gwblhau, ar lefel awdurdod lleol.

Ar gyfer dull cwblhau, byddwn yn blaenoriaethu gwybodaeth am:

- oedran
- grŵp ethnig
- lefel uchaf o addysg
- rhyw
- anabledd

Byddai'r setiau data hyn yn cynnwys y sgôr mynegai anodd eu cyfrif ddigidol a'r prif ddull cwblhau a neilltuwyd i'r cyfeiriad. Byddai hyn yn dangos a anfonwyd cod mynediad unigryw atynt i ddechrau, neu ffurflen bapur.

Ar gyfer iaith gwblhau, byddwn yn blaenoriaethu gwybodaeth am:

- oedran
- rhyw
- lefel uchaf o addysg
- y gallu i siarad Cymraeg

Rydym yn bwriadu cynhyrchu rhagor o wybodaeth am ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg mewn erthygl werthuso ar wahân ar gynnal Cyfrifiad 2021 yng Nghymru.

Ar gyfer unrhyw setiau data y byddwn yn eu cyhoeddi ar ddull cwblhau neu iaith gwblhau, byddwn yn eu cynhyrchu fel canrannau, nid ffigurau. Byddai hyn yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio nifer y cartrefi sy'n ymateb.

Ochr yn ochr â'r setiau data hyn am baradata, byddwn yn cyhoeddi adroddiadau methodolegol a fydd yn egluro wrth ddefnyddwyr at ba ddibenion y gallant ddefnyddio'r data.

## Y camau nesaf

Unwaith eto, hoffem ddiolch i'r 312 o sefydliadau ac unigolion a roddodd eu barn i ni drwy ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Roedd ein cynigion ar gyfer cynigion cynllun cynnwys a chamau datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021 yn seiliedig ar adborth defnyddwyr o ymgyngoriadau blaenorol a thrafodaethau parhaus â rhanddeiliaid. Rydym yn falch bod yr ymatebwyr yn croesawu'r cynlluniau cychwynnol hyn a bod y cynlluniau yn parhau i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o'r defnyddwyr.

Bu'r ymgynghoriad hwn hefyd yn werthfawr iawn wrth ein helpu i ddeall anghenion newydd a newidiol defnyddwyr mewn perthynas â data'r cyfrifiad. Rydym yn ffyddiog y bydd y newidiadau rydym yn eu gwneud i'n cynigion cynllun cynnwys, a drafodir yn yr adroddiad hwn, yn ein helpu i ddiwallu ystod ehangach o anghenion defnyddwyr. Byddwn yn dechrau cyhoeddi ein cynigion manwl wedi'u diweddaru erbyn dechrau haf 2022.

Byddwn yn diwallu anghenion eraill drwy ein rhaglen trawsnewid ystadegau cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael ystadegau perthnasol ac amserol y gellir ymddiried ynddynt am boblogaeth Cymru a Lloegr.

Rydym yn bwriadu cynnal arolwg defnyddwyr ar ôl cwblhau cam tri o amserlen datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021. Yn yr arolwg hwn, gofynnwn i ddefnyddwyr a yw cynhyrchion y cyfrifiad wedi diwallu eu hanghenion ac, yn bwysicach, gallwn ddysgu lle nad ydynt wedi gwneud hynny efallai. Bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn ein helpu i benderfynu a oes angen inni gynhyrchu allbynnau ychwanegol, er enghraifft, ar boblogaethau bach, neu wybodaeth ategol ychwanegol.

Bydd gwasanaeth setiau data a gomisiynwyd Cyfrifiad 2021 hefyd yn cael ei gyflwyno ar lein yn ystod cam tri yr amserlen ar gyfer rhyddhau'r cynnyrch. Gall defnyddwyr gomisiynu setiau data gan y gwasanaeth, lle nad yw'r setiau data parod na'r setiau data y gallwch eu creu eich hun wedi darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Byddwn hefyd yn parhau i asesu sut y gallwn ddiwallu anghenion ein defnyddwyr na allwn ymdrin â nhw gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021. Byddwn yn ystyried dulliau eraill o gael gafael ar y wybodaeth hon drwy weithgareddau fel arolygon cymdeithasol neu ddata gweinyddol.

Rydym hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr o Lywodraeth Cymru, Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA) a Chofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS). Ein nod cyffredin yw llunio canlyniadau cyfrifiadau sydd mor gyson ac mor gymaradwy â phosibl.

Os hoffech roi mwy o adborth i ni, anfonwch e-bost at dîm allbynnau a lledaenu Cyfrifiad 2021 yn census.outputs@ons.gov.uk

# Atodiadau

## Atodiad A: gwerthuso gofynion defnyddwyr

Ym mis Rhagfyr 2021, gwnaethom amlinellu ein dull gweithredu o ran sut rydym wedi bod yn gwerthuso adborth ymatebwyr yn rhan un o'n hymateb i'r ymgynghoriad (pdf, 625KB).

Roedd hefyd yn bwysig ein bod yn ystyried unrhyw achosion o ryngddibyniaeth rhwng y cynhyrchion a drafodir yng ngwahanol adrannau'r ymgynghoriad. Mae un enghraifft yn cynnwys cais a wnaed i ddadansoddi newidyn deilliedig newydd posibl. Yn yr achos hwn, mae angen i ni ystyried cryfder yr angen a dichonoldeb cynhyrchu'r newidyn deilliedig hwnnw, yn ogystal â'r cais am ddadansoddiad penodol. Lle y gwnaethom nodi achosion o ryngddibyniaeth o'r fath, ein nod oedd ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a ddarparwyd yng ngwahanol rannau'r ymgynghoriad.

Er enghraifft, gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a oedd ganddynt unrhyw anghenion ychwanegol ar gyfer newidynnau deilliedig newydd, nad oeddem eisoes wedi'u cynnig. Roedd llawer o'r ceisiadau hyn yn perthyn i dri chategori:

- newidynnau deilliedig rydym yn bwriadu eu cynhyrchu eisoes, fel amddifadedd aelwydydd
- newidynnau deilliedig y bydd defnyddwyr yn gallu eu creu eu hunain drwy groesdablu'r ddau newidyn sy'n bodoli eisoes
- data na wnaethom eu casglu yn ystod Cyfrifiad 2021, fel preswylwyr arferol sy'n defnyddio rhwydwaith 5G, perchenogion ceir trydan neu geiswyr lloches

Roedd tri chais ychwanegol yn cynnwys y canlynol:

- dangosydd ar gyfer mannau lle mae pobl yn cyd-fyw, a drafodir yn yr adran Tai amlfeddiannaeth (HMO)
- dosbarthiadau diwydiant yn nodi diwydiannau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) a diwydiannau gwyrdd, a drafodir yn yr adran Addysg a chyflogaeth
- newidyn cost carbon yn deillio o newidynnau teithio i'r gwaith, a drafodir yn yr adran Addysg a chyflogaeth

Yn adran olaf yr ymgynghoriad, gwahoddwyd ymatebwyr i sôn am anghenion ychwanegol neu i roi adborth os nad oeddent yn siŵr ble arall yn yr ymgynghoriad y dylent nodi'r mater. Roedd yr ymatebion hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- pynciau a drafodwyd yn adrannau eraill o'r ymgynghoriad, a gafodd eu hystyried gennym gyda'r adborth perthnasol o'r adran briodol honno yn y ddogfen hon

- anghenion ar gyfer data tarddiad-cyrchfan, a drafodwyd gennym yn adran Data tarddiad-cyrchfan yr adroddiad hwn
- tynnu sylw at fylchau yn ein negeseuon, yr ydym yn ystyried sut i ymdrin â nhw mewn diweddariadau yn y dyfodol ar ein gwe-dudalennau, ond nid yn yr adroddiad hwn

## Atodiad B: tystiolaeth feintiol o'r angen am newidynnau deilliedig newydd arfaethedig

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddent yn defnyddio pob un o'r newidynnau deilliedig newydd arfaethedig. Rydym yn eu trafod ym mhrif gorff yr adroddiad ac yn eu crynhoi isod.

**Tabl 1:** Ymatebion i'r cwestiwn ar ddefnyddio newidynnau deilliedig newydd arfaethedig

| Newidyn deilliedig | Byddwn yn ei ddefnyddio | Ni fyddwn yn ei ddefnyddio | Cyfanswm nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|
| Llwybr i'r lefel uchaf o addysg | 118 | 72 | 190 |
| Myfyrwyr sy'n oedolion | 124 | 65 | 189 |
| Heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) | 154 | 44 | 198 |
| I ffwrdd o'r gwaith dros dro | 113 | 71 | 184 |
| Gweithiwr allweddol neu hanfodol | 128 | 60 | 188 |
| Sgiliau nad ydynt yn cyfateb | 123 | 60 | 183 |
| Risg economaidd a grëwyd gan bandemig y coronafeirws | 134 | 51 | 185 |
| Risg iechyd COVID-19 | 138 | 52 | 190 |
| Tai amlfeddiannaeth (HMO) | 135 | 52 | 187 |
| Cartrefi â sawl cenhedlaeth | 141 | 44 | 185 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pobl sy'n byw ar wahân gyda'i gilydd | 67 | 104 | 171 |
| Preswylwyr cartrefi gofal | 138 | 39 | 177 |
| Cyfeiriad gwag | 123 | 49 | 172 |
| Cartref symudol neu dros dro | 124 | 47 | 171 |
| Y boblogaeth ddigartref | 146 | 33 | 179 |

## Atodiad C: cynigion cychwynnol ar gyfer setiau data poblogaeth fach

### Setiau data ar lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol

Yn ein Allbynnau Cyfrifiad 2021: cynigion cynllun cynnwys a chamau datganiadau (pdf, 929KB) ar gyfer Cymru a Lloegr, gwnaethom gynnig cynhyrchu setiau data ar gyfer chwe phoblogaeth fach ar lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol, sef:

- Y boblogaeth Gernywaidd, a ddiffinnir gan ddefnyddio hunaniaeth genedlaethol
- Y boblogaeth Jain, a ddiffinnir gan ddefnyddio grŵp ethnig neu grefydd
- Y boblogaeth Kashmiri, a ddiffinnir gan ddefnyddio grŵp ethnig
- Y boblogaeth Nepali/Nepalaidd (gan gynnwys Gyrca), a ddiffinnir gan ddefnyddio grŵp ethnig
- Y boblogaeth Ravidassia, a ddiffinnir gan ddefnyddio crefydd
- Y boblogaeth Sikhiaidd, a ddiffinnir gan ddefnyddio grŵp ethnig neu grefydd

Byddem yn eu cynhyrchu ar gyfer ardaloedd lle roedd y boblogaeth fach o ddiddordeb yn fwy na throthwy diffiniedig. Nid ydym wedi diffinio'r trothwyon poblogaeth ar gyfer setiau data poblogaethau bach Cyfrifiad 2021 eto. Ar gyfer cynnyrch Cyfrifiad 2011, gwnaethom ddefnyddio trothwyon setiau data o naill ai 100 neu 200.

Ar lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol, gwnaethom gynnig cynhyrchu setiau data poblogaethau bach ar ryw ac oedran. Gwnaethom gynnig hefyd setiau data ar oedran a rhyw yn ôl y newidynnau ychwanegol canlynol:

- salwch hirdymor cyfyngus a darparu gofal di-dâl
- cymwysterau a gweithgarwch economaidd
- y lefel uchaf o gymhwyster a gweithgarwch economaidd
- dull o deithio i'r gwaith
- gweithgarwch economaidd, iechyd cyffredinol a darparu gofal di-dâl

Gwnaethom gynnig cynhyrchu setiau data poblogaethau bach ar ryw yn ôl y newidynnau ychwanegol canlynol:

- galwedigaeth a chymwysterau
- dosbarthiad economaidd-gymdeithasol ystadegau gwladol (NS-SEC) a gweithgarwch economaidd
- gweithgarwch economaidd, oriau gwaith a salwch hirdymor cyfyngus
- darparu gofal di-dâl, gweithgarwch economaidd ac iechyd cyffredinol

Gwnaethom gynnig cynhyrchu set ddata ychwanegol ar gyfer poblogaethau bach ar gyfer diwydiant, oriau gwaith a hyfedredd Saesneg.

## Setiau data bandiau oedran pum mlynedd yn ôl rhyw lefel awdurdod lleol

Gwnaethom gynnig cynhyrchu setiau data ar lefel awdurdod lleol ar gyfer yr un 30 o boblogaethau bach fel y gwnaethom yn 2011. Mae'r rhain yn cynnwys 17 o wledydd genedigol ac 13 o grwpiau ethnig.

Mae'r poblogaethau bach ar gyfer gwlad enedigol fel a ganlyn:

- Bangladesh
- Bwlgaria
- Cyprus UE
- De Affrica
- Ffrainc
- Ghana
- Gwlad Pwyl
- India
- Iwerddon
- Jamaica
- Nigeria
- Pacistan
- Pilipinas (Ynysoedd Philippines)
- Rwmania
- Somalia
- Sri Lanca
- Twrci

Mae'r poblogaethau bach yn ôl grŵp ethnig fel a ganlyn:

- Affganaidd
- Cwrdaidd

- Cypraidd Groegaidd
- Cypraidd Twrcaidd
- Filipino
- Groegaidd
- Lladin Americanaidd De Americanaidd
- Nepali/Nepalaidd (gan gynnwys Gyrca)
- Pwylaidd
- Somalaidd
- Sri Lancaidd
- Tamil
- Twrcaidd